

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

## Papur Cefndir



**Medi 2018**

## PC 04: Gwerthusiad Cynaliadwyedd Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau'r CDLl

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (1492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (1492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon ar CD, yn electronig neu mewn print mawr a gallwn ei chyfieithu i ieithoedd eraill, cysylltwch â y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (1492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

now part of

# Adolygiad o CDLl Conwy

## Gwerthusiad Cynaliadwyedd Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau'r CDLl

Ar ran **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cyfeirnod Prosiect: 44061/002i3 | Rev: TERFYNOL | Dyddiad: Rhagfyr 2018

Cyfeiriad Swyddfa: 61 Oxford Street, Manchester, M1 6EQ
T: +44 (0)161 245 8900   E: manchester@peterbrett.com

# Taflen Reoli Dogfennau

**Enw'r Prosiect:** **Adolygiad o CDLl Conwy**

**Cyfeirnod Prosiect:** **4461**

**Teitl yr Adroddiad:** **Gwerthusiad Cynaliadwyedd Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau**

**Cyfeirnod Dogfen:** **4461r2i3**

**Dyddiad:** **Rhagfyr 2018**

| | Enw | Swydd | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Paratowyd gan:** | Helen Skimming<br>Michael O'Sullivan | Cynllunydd Graddedig<br>Uwch Gynllunydd | HS<br>MOS | 26.1.2018 |
| **Adolygwyd gan:** | Duncan Smart | Prif Gynllunydd | DS | 2.11.2018 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Bernard Greep | Cyfarwyddwyr: Cynllunio a Thwf - Pwerdy'r Gogledd | BG | 6.11.2018 |
| **Ar gyfer ac ar ran Peter Brett Associates LLP** | | | | |

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Paratowyd | Adolygwyd | Cymeradwywyd |
|---|---|---|---|---|---|
| A | 23.11.2018 | Mân ddiwygiadau mewn ymateb i sylwadau cleientiaid | MOS | DS | BG |
| B (TERFYNOL) | 12.12.2018 | Diwygiadau mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad (Rhagfyr 2018) | HS/MIS | DS | BG |

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi gan Peter Brett Associates LLP ('PBA') ar ran ei gleient y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio ato ('Cleient') mewn perthynas â'r prosiect a disgrifir yn yr adroddiad hwn, ac mae'n ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol y Cleient. Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r penodiad gwasanaethau proffesiynol y penodwyd PBA oddi tano gan ei Gleient. Ni fwriadwyd yr adroddiad yma ar gyfer unrhyw drydydd parti (h.y. partïon ar wahân i'r Cleient) ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno. Nid yw PBA yn derbyn dyletswydd na chyfrifoldeb (yn cynnwys mewn esgeulustod) tuag at unrhyw barti ar wahân i'r Cleient, ac mae'n gwrthod pob rhwymedigaeth o unrhyw natur i unrhyw gyfryw barti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

© Peter Brett Associates LLP 2018

## Cynnwys

**1 Cyflwyniad ... 1**
1.1 Cefndir ... 1
1.2 Pwrpas ... 1
1.3 Sut mae rhoi Sylwadau ar yr Adroddiad SA yma ... 2
1.4 Strwythur yr Adroddiad ... 2
1.5 Gofynion Statudol ... 2
**2 Trosolwg o'r Adolygiad o CDLl Conwy ... 5**
2.2 Ffurf a Chynnwys Arfaethedig CDLl Newydd Conwy ... 7
2.3 Paratoi a'r Gronfa Dystiolaeth ... 8
**3 Y Cyd-destun Amgylcheddol a Pholisi ... 10**
3.1 Cyflwyniad ... 10
3.2 Materion Cynaliadwyedd Allweddol ... 10
3.3 Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau ... 14
**4 Y Broses Gwerthuso Cynaliadwyedd ... 16**
4.1 Cyflwyniad ... 16
4.2 Pwrpas ac Amcanion yr SA a'r SEA ... 16
4.3 Tîm Prosiect SA ... 16
4.4 SA Blaenorol ac Adroddiadau SEA ... 16
4.5 Paratoi'r Adroddiad SA yma ... 23
**5 Canfyddiadau'r SA ... 25**
5.1 Cyflwyniad ... 25
5.2 SA o Weledigaeth ac Amcanion Arfaethedig y SA ... 25
5.3 SA o Opsiynau Twf a Gofodol ... 29
**6 Argymhellion Lliniaru a Gwella ... 31**
6.1 Trosolwg ... 31
6.2 Addasiadau a Argymhellir i weledigaeth arfaethedig y CDLl ... 31
6.3 SA o Amcanion ... 32
6.4 SA o Opsiynau Twf a Dosbarthiad Gofodol ... 33
6.5 Y Camau Nesaf ... 34

## Ffigyrau

Ffigwr 2.1: Ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ... 5
Ffigwr 2.2: Y Berthynas rhwng Ardal Weinyddol CBSC a Pharc Cenedlaethol Eryri ... 6
Ffigwr 5.1: Gweledigaeth Arfaethedig CDLl Conwy ... 26

## Tablau

Tabl 3.1: Materion Cynaliadwyedd allweddol mewn perthynas â'r Adolygiad o CDLl Conwy ..............11
Tabl 4.1: Adolygiad o Ymatebion Cwmpasu SA....................................................................18
Tabl 5.1: Amcanion Arfaethedig y CDLl (Tabl 3 Papur Ymgynhgori 1) ...............................................27
Tabl A2.1: Safleoedd Dynodedig perthnasol i'r Adolygiad o CDLl Conwy...........................................36
Tabl A3.1: Adolygiad o Agweddau , Materion a Phroblemau Amgylcheddol Perthnasol .....................47
Tabl B2.1: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Eraill Perthnasol ...............................62
Tabl B2..2: Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru 10fed Argraffiad......................................... ............88
Tabl B2.3: Goblygiadau Polisiau Cynllunio Cenedlaethol Cymru i'r Adolygiad o'r CDLl...... .......**Error! Bookmark not defined.**
Tabl C1.1: Fframwaith Arfaethedig yr SA ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl ...........................................98
Tabl D2.1 System Sgorio SA ar gyfer Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl .....................................106
Tabl D2.2: Matrics Cydnawsedd er mwyn asesu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl Newydd ........108
Tabl E2.1: Opsiynau Twf Posibl.........................................................................................1366
Tabl E2.2: SA o Opsiynau Twf ..........................................................................................138
Tabl E3.1: Opsiynau Dosbarthiad Twf Gofodol Posibl.....................................................................143
Tabl E3.2: SA o Opsiynau Dosbarthiad Twf Gofodol.......................................................................144

## Atodiadau

Atodiad A Adolygiad Gwaelodlin
Atodiad B Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni
Atodiad C Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy
Atodiad D SA o Weledigaeth ac Amcanion y CDLl
Atodiad E SA o Opsiynau Twf a Gofodol

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae Peter Brett Associates (PBA), sydd nawr yn rhan o Stantec, wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i gynnal Gwerthusiad Cynaliadwyedd (SA), gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) Adolygiad o CDLl Conwy a CDLl Newydd Conwy arfaethedig (’yr RLDP arfaethedig’). Mae’r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd (‘Adroddiad SA’) yn dogfennu canfyddiadau’r SA a gynhaliwyd mewn perthynas â cham cyntaf yr Adolygiad o’r CDLl, sef Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo. Yn ystod y cam hwn, mae Gweledigaeth a set o Amcanion a swît o opsiynau twf a gofodol y CDLl arfaethedig yn destun ymgynghoriad er mwyn hysbysu cynnwys yr RLDP arfaethedig.

1.1.2 Mae’r adran ragarweiniol yma yn nodi pwrpas, amcanion a strwythur yr Adroddiad SA yma. Yna mae’n amlinellu gofynion statudol craidd ar gyfer cynnal yr SA ac yn darparu crynodeb o gynnwys a phwrpas arfaethedig yr RLDP arfaethedig.

## 1.2 Pwrpas

1.2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu canfyddiadau’r SA, ymgorffori SEA o’r cynigion gwirioneddol a nodir yn y ddau Bapur Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo canlynol (‘y Papurau Ymgynghori’) a baratowyd gan CBSC.

- **Papur Ymgynghoriad 1: Materion Blaenoriaethol, gweledigaeth ac Amcanion** - mae’r papur hwn yn gofyn am safbwyntiau ar strwythur arfaethedig y RLDP arfaethedig, y mae angen iddo alinio a gofynion polisi statudol a chenedlaethol, a Gweledigaeth arfaethedig ac Amcanion ategol er mwyn tanategu’r RLDP. Mae’r papur yn darparu’r fframwaith strategol arfaethedig ar gyfer mynd i’r afael â materion cynllunio perthnasol drwy bolisïau strategol, polisïau rheoli datblygu, dyraniadau defnydd tir a dynodiadau amgylcheddol; a

- **Papur Ymgynghoriad 2: Lefel Twf ac Opsiynau Dosbarthiad Gofodol** - mae’r papur yma yn nodi opsiynau twf ar gyfer y lefel o ddatblygiadau tai a chyflogaeth y dylid cynllunio ar eu cyfer yn y RLDP arfaethedig ac opsiynau gofodol mewn perthynas â ble dylai datblygiadau i’r dyfodol gael eu dosbarthu. Wrth wneud hynny, mae’r papur hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar yr hierarchaeth aneddiadau yn ardal CBSC.

1.2.2 Mae Adroddiad SA yn ymateb i ofynion statudol perthnasol, yn ystyried esblygiad yr RLDP arfaethedig hyd yma ac yn cyflwyno asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol fydd yn deillio o’r Papurau Ymgynghori uchod. At ddiben cyflawni gofynion SEA statudol, mae’r Adroddiad SA yn gweithredu fel yr Adroddiad Amgylcheddol statudol sydd yn ofynnol er mwyn ategu pob elfen sylweddol o’r RLDP arfaethedig sydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae’r Papurau Ymgynghori a gyhoeddwyd ynghyd â’r Adroddiad SA yma wedi nodi gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig ar gyfer yr RLDP, ac maent yn ystyried swît o opsiynau twf a gofodol, ac mae’r cyfan yn gynigion sylweddol fydd yn hysbysu’r RLDP arfaethedig, ac felly mae angen i ddynt fod yn destun SA, gan ymgorffori SEA.

1.2.3 Amcanion yr adroddiad hwn yw cyflawni gofynion adroddiadau SA ac SEA statudol, nodi effeithiau arwyddocaol tebygol fydd yn deillio o’r Papurau Ymgynghori ac argymell mesurau lliniaru a gwella y dylid eu hymgorffori yn yr RLDP arfaethedig wrth iddo ddatblygu er mwyn sicrhau y byddir yn osgoi effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol tebygol a gwella ei effeithiolrwydd.

## 1.3 Sut mae rhoi Sylwadau ar yr Adroddiad SA yma

1.3.1 Mae'r Adroddiad SA yma a'r Crynodeb Annhechnegol (NTS) yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r Papurau Ymgynghori. Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth gan CBSC, byddir yn ymgynghori ar y tair dogfen am gyfnod o chwe wythnos. Gellir anfon sylwadau mewn perthynas â'r Papurau Ymgynghori a'r Adroddiad SA yma drwy e-bost i cdll-ldp@conwy.gov.uk. Bydd mwy o fanylion am sut mae cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn cael eu darparu ar wefan benodol CBSC ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl. http://www.conwy.gov.uk/RLDP.

## 1.4 Strwythur yr Adroddiad hwn

1.4.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 1**: Mae gweddill yr adran hon yn nodi'r gofynion statudol craidd ar gyfer cynnal SA, gan ymgorffori'r SEA, yr RLDP arfaethedig.
- **Adran 2**: mae'n egluro cefndir datblygu'r RLDP arfaethedig ac yn darparu crynodeb o'i gynnwys a'i bwrpas arfaethedig;
- **Adran 3** mae'n amlinellu'r wybodaeth allweddol am gynaliadwyedd a materion sydd wedi hysbysu proses yr SA a ddilynwyd hyd yma ac y dylid ei hystyried yn yr RLDP arfaethedig ei hun. Mae'r adran yn cael ei hategu gan ddadansoddiad gwaelodlin manwl ac adolygiad o gynlluniau a rhaglenni perthnasol (RPP) a ddarperir yn **Atodiad A** a **B** yn ôl eu trefn;
- **Adran 4** mae'n darparu trosolwg o broses yr SA a ddilynwyd hyd yma, yn cynnwys sut yr aethpwyd i'r afael â materion a godwyd gan Gyrff Ymgynghori'r SEA yn ystod cam Cwmpasu'r SA. Mae'r Fframwaith SA a ddefnyddiwyd er mwyn asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau arfaethedig (Twf a Gofodol) yn cael eu darparu'n llawn yn **Atodiad C**;
- **Adran 5** mae'n cyflwyno canfyddiadau allweddol yr SA a gynhaliwyd mewn perthynas â Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig yr RLDP arfaethedig ac mewn perthynas â swît o opsiynau twf a gofodol er mwyn hysbysu cynnwys yr RLDP arfaethedig. Mae canlyniadau llawn yr SA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r elfennau sylweddol yma o'r RLDP arfaethedig yn cael eu hesbonio yn **Atodiad D** ac **E**; ac,
- **Adran 6** sydd yn nodi argymhellion lliniaru a gwella y dylid ymdrin â nhw mewn fersiynau o'r RLDP arfaethedig yn y dyfodol ac sydd yn amlinellu'r camau nesaf ym mhroses yr SA.

1.4.2 Yn unol â gofynion statudol (gweler isod), mae'r adroddiad hwn yn cynnwys **Crynodeb Nad yw'n Dechnegol.**

## 1.5 Gofynion Statudol

### Paratoi'r CDLl a'i Adolygu

1.5.1 Ar ddiwedd 217, bu i CBSC ymgynghori ar Adroddiad drafft ar Adolygiad o CDLl Conwy, oedd yn argymell y dylid cynnal 'Adolygiad Llawn' o CDLl presennol Conwy (a fabwysiadwyd yn Hydref 2013) yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 25 fel y'u diwygiwyd ('Rheoliadau CDLl 25'). Felly, mae gofynion statudol mewn perthynas â pharatoi CDLlau yn gymwys erbyn hyn i'r Adolygiad o'r CDLl, yn cynnwys mewn perthynas â'r SA a'r SEA.

1.5.2 Yn unol â Rheoliadau CDLl25, mae'r ymagwedd a gynigir, amserlenni a threfniadau ymgynghori ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl yn cael eu nodi yng Nghytundeb Cyflawni

Adolygiad o CDLl Conwy terfynol, y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mai 2018.

## Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.5.3 O dan Adran 62(6) Deddf 24, mae angen i CDLl arfaethedig fod yn destun Gwerthusiad Cynaliadwyedd, sydd yn ofyniad statudol er mwyn arwain y broses o ddewis a datblygu polisïau a chynigion i’w cynnwys mewn CDLlau o ran eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl. Bydd angen i’r SA sydd yn ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer Adolygiad o’r CDLl adeiladu ar yr SA, gan ymgorffori’r SEA, a baratowyd ar gyfer CDLl cyntaf Conwy (a fabwysiadwyd yn Hydref 2013). Wrth i weithdrefn ‘Adolygiad Llawn’ gael ei ddefnyddio, bydd yr Adolygiad o’r CDLl i bob pwrpas yn adlewyrchu proses baratoi’r CDLl gwreiddiol, ac oherwydd hynny bydd yn arwain at baratoi a mabwysiadu CDLl newydd (yn hytrach na gwneud newidiadau unigol yn unig i’r CDLl presennol).

1.5.4 Mae Rheoliadau Asesu Cynlluniau a Rhaglenni yn Amgylcheddol (Cymru) 24 (‘Rheoliadau SEA’) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyfrifol, yn cynnwys awdurdodau lleol megis CBSC, asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol gweithredu cynlluniau a rhaglenni perthnasol, fel y diffinnir hynny yn y rheoliadau. Mae’r Rheoliadau SEA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyfrifol archwilio LSEau o ddewisiadau amgen rhesymol i’r cynllun neu’r rhaglen gaiff ei hystyried. Pan fo’n ofynnol, byd yr asesiad yn cael ei baratoi yn dilyn proses adrodd fesul cam a elwir yn Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA).

## Camau SA a SEA

1.5.5 Mae SA a SEA n rhannu ffocws cyffredin ar asesu perfformiad amgylcheddol a pherfformiad cynaliadwyedd ehangach, ac felly gellir eu cynnal gyda’i gilydd ac adrodd arnynt gyda’i gilydd. Yn ôl cyfarwyddyd Rheoliadau SEA, mae SA a SEA yn cynnwys y camau canlynol:

- **Sgrinio:** Tra bod Rheoliad 5(53) yn golygu y bydd angen SEA bob amser mewn perthynas â pharatoi CDLl, mae Rheoliadau 5(6) a 9(1) yn ei gwneud yn ofynnol i wneud “mân addasiadau” i gynllun neu raglen sy’n bodoli fel eu bod yn cael eu sgrinio yn gyntaf er mwyn penderfynu a fydd yr addasiadau yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd, ac a fydd angen cynna SEA llawn o ganlyniad i hynny. Mae ail argraffiad Llawlyfr CDLl Cymru (2015) yn egluro bod angen sgrinio SEA ar gyfer pob Adolygiad o CDLl, oherwydd mewn termau cyfreithiol mae’r CDLl presennol yn cael ei adolygu, a gallai hynny arwain at “fân addasiadau”, er nad yw Rheoliadau SEA yn diffinio cwmpas y term hwnnw. **Cyflawnwyd y gofyniad drwy gynnwys Penderfyniad Sgrinio SEA drafft yn Adroddiad Cwmpasu SA Adolygiad o CDLl Conwy (gweler isod) a chyhoeddi Penderfyniad Sgrinio SEA positif gan CBSC;**

- Cwmpasu: Mae’n rhaid i Awdurdodau Cyfrifol ddarparu digon o wybodaeth i Gyrff Ymgynghori SEA er mwyn eu galluogi i ystyried y cwmpas a gynigir, lefel y manylder a’r cyfnod ymgynghori ar gyfer ‘Adroddiad Amgylcheddol’ (ER) er mwyn ategu’r cynllun neu raglen arfaethedig. Pan fo SEA yn cael ei ymgorffori mewn SA ehangach, mae’r term ER yn gydgyfnewidiol ag Adroddiad SA oherwydd bod yr olaf yn cynnwys yr holl wybodaeth fyddai ei hangen mewn ER unigol. **Cyflawnwyd y gofyniad drwy i CBSC gyflwyno Adroddiad Cwmpasu SA i Gyrff Ymgynghori SEA yn Awst 2018 am gyfnod ymgynghori o bum wythnos.**

- **Paratoi ac Ymgynghori:** Fel y nodwyd uchod, mae Adran 62(6) Deddf 24 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyfrifol sydd yn paratoi CDLlau yng Nghymru i ‘gynnal gwerthusiad cynaliadwyedd o’r cynigion’ sydd ynddo a 'pharatoi adroddiad ar ganfyddiadau’r gwerthusiad’. O ystyried y bydd Adolygiad o CDLl Conwy yn broses iteraidd, a’i fod yn nhermau cyfreithiol yn adolygiad o’r CDLl presennol, mae angen i Adroddiad SA ategu pob elfen sylweddol o’r RLDP wrth iddynt ymddangos. Mae’n rhaid ymgynghori ar bob Adroddiad SA gydag elfennau sylweddol perthnasol y RLDP

arfaethedig, ac yna mae'n haid cyflwyno Adroddiad SA ar gyfer y Ddogfen Adneuo CDLl derfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cefnogi archwiliad annibynnol o'r CDLl newydd. Yn yr un modd, mae Rheoliad 12 Rheoliadau SEA yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyfrifol baratoi ac ymgynghori ar ER er mwyn nodi. disgrifio a gwerthuso effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu' pob fersiwn o gynllun perthnasol a chymwys, yn ogystal ag effeithiau y dewisiadau amgen rhesymol. **Paratowyd yr Adroddiad SA yma er mwyn ategu Papurau Ymgynghori Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo ('y Papurau Ymgynghori') ac mae'n ymateb i'r gofynion statudol uchod**; a


- **Pharatoi Datganiad Ôl Fabwysiadu:** Erbyn diwedd proses Adolygiad o'r CDLl, bydd CDLl newydd wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer ardal CBSC ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri. Fel y manylir ar hynny yn **Atodiad A.4**, mae hynny yn ofynnol erbyn diwedd 222 er mwyn osgoi gwactod polisi cynllunio. Pan fo CDLl newydd wedi ei fabwysiadu, mae'n rhaid i CBSC baratoi datganiad fydd yn nodi, ymysg materion eraill, sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hystyried yn yr RLDP mabwysiedig, a sut y bydd effeithiau arwyddocaol tebygol yr RLDP ar yr amgylchedd (fel y rhagfynegwyd hynny drwy'r SA, gan ymgorffori'r SAE) yn cael eu monitro. Er nad oes yna ofyniad statudol i baratoi Datganiad Ôl Fabwysiadu SA (yn wahanol i SEA), yn ymarferol mae ymgorffori SEA mewn SA yn golygu bod hynny yn angenrheidiol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â holl ganfyddiadau'r SEA a'r ymatebion i'r ymgynghoriad o gamau blaenorol y broses.

1.5.6 Mae Rheoliadau SEA hefyd yn cyflwyno cysylltiad rhwng SEA ac angen, mewn rhai achosion, i gynnal Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar gynlluniau a phrosiectau pan fo potensial iddynt arwain at effeithiau arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig). Bydd HRA ar wahân yn caei ei gynnal gan neu ar ran CBSC yn gyfochrog ag SA o'r Adolygiad o'r CDLl.

# 2 Trosolwg o Adolygiad o CDLl Conwy

## Cyd-destun

2.1.1 CBSC yw'r awdurdod unedol sydd yn gyfrifol am lywodraeth leol ar draws ardal o 113km$^2$ yng Ngogledd Cymru, fel y dangosir hynny yn **Ffigwr 2.1**.





Ffigwr 2.1: Ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2.1.2 Yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 24,('Deddf 24'), bu i CBSC fabwysiadu ei CDLl cyntaf yn Hydref 2013. Mae'r CDLl yma yn cynnwys rhan o ardal weinyddol CBSC sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri (gweler **Ffigwr 2.2** isod), sydd yn destun rheolaeth gynllunio ar wahân gan Awdurdod Cynllunio Cenedlaethol Eryri, ac mae'n gynwysedig yn CDLl Eryri. Mabwysiadwyd y CDLl Eryri cyntaf yng Ngorffennaf 2011, ac ar adeg ysgrifennu hyn (Rhagfyr

2018) mae archwiliad annibynnol o Adolygiadau Ffurf Byr arfaethedig o'r CDLl yn mynd rhagddo.

Ffigwr 2.2: Cysylltiadau rhwng Ardal Weinyddol CBSC a Pharc Cenedlaethol Eryri.




2.1.3 Mae CBSC wedi cynnal monitro rheolaidd ers 2013 ac wedi paratoi Adroddiad ar Adolygiad o'r CDLl (Ebrill 2018) a gasglodd y dylai'r CDLl fod yn destun 'Adolygiad Llawn' yn unol â darpariaethau statudol cymwys (gweler isod). Mae angen yr adolygiad yma ('Adolygiad o'r CDLl') er mwyn galluogi i CBSC baratoi a mabwysiadu CDLl newydd ('y RLDP') cyn i'r CDLl presennol ddod i ben yn 222, a sicrhau bod y Cynllun Datblygu statudol ar gyfer CBSC yn gyfredol. Yn benodol, mae angen i'r RLDP ystyried ystod o Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mabwysiadu'r CDLl presennol.

2.1.4 Yn Chwefror 2018 bu i CCBC ymgynghori ar Gytundeb Cyflenwi drafft er mwyn tanategu proses Adolygiad o'r CDLl, a chytunwyd ar Gytundeb Cyflawni CDLl Newydd Conwy terfynol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mai 2018. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r broses, amserlenni a'r trefniadau ymgynghori ar gyfer cynnal 'Adolygiad Llawn' o'r CDLl presennol, a thrwy wneud hynny, paratoi a mabwysiadu RLDP Conwy erbyn Medi 221.

## 2.2 Ffurf a Chynnwys Arfaethedig CDLl Newydd Conwy

2.2.1 Mae Deddf 24 yn nodi'r broses y mae'n rhaid ei dilyn ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl, ac yn benodol y Dogfennau Cyn Adneuo ac Adneuo'r CDLl gan yr ACLl, ac archwiliad annibynnol yn dilyn hynny. Dylid nodi nad yw Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo yn statudol ofynnol o dan Ddeddf 24 na Rheoliadau 25, ond mae CBSC yn gwneud hynny yn wirfoddol er mwyn annog ymgysylltu cynnar ag Adolygiad y CDLl ac er mwyn hysbysu datblygu'r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer yr RLDP arfaethedig. Gan adeiladu ar Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo, bydd y strategaeth a Ffafrir yn destun ymgynghoriad ar wahân ac SA ym Mehefin 219.

2.2.2 Mae Deddf 24 a Rheoliadau 25 yn rhagnodi'r cynnwys gofynnol sydd yn rhaid ei gynnwys mewn unrhyw CDLl yng Nghymru, sef:

- Enw ardal yr ACLl y paratoir y CDLl ar ei gyfer;
- Dyddiad mabwysiadu a diweddu'r CDLl;
- Amcanion yr ACLl mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal;
- Polisïau cyffredinol yr ACLl ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny;
- Map arfaethedig o ardal yr ACLl yn dangos y cynigion ar gyfer y datblygiadau a'r defnydd tir; a
- Chyfiawnhad rhesymedig dros y polisïau sy'n gynwysedig yn y CDLl.

2.2.3 Hefyd, mae CDLl fel arfer yn cynnwys gweledigaeth drosfwaol, swît o amcanion a strategaeth ofodol, er nad yw'r uno'r rhain yn ofynnol o dan Ddeddf 24 na Rheoliadau 25.

2.2.4 Yn ystod y cam hwn, rhagwelir y bydd y CDLL newydd ar gyfer ardal CBSC yn cynnwys yr elfennau sylweddol canlynol:

- Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl;
- Strategaeth Ofodol (a strategaethau isardal posibl) er mwyn gweithredu gweledigaeth ac amcanion y CDLl;
- Polisïau strategol er mwyn gweithredu'r strategaeth ofodol ac amcanion y CDLl ac er mwyn ymateb i faterion cynaliadwyedd allweddol (**Adran 4.2** a **Atodiad A**) a gofynion deddfwriaethol (**Adran 4.3** a **Atodiad B**). Yn benodol, bydd angen i bolisïau strategol weithredu gofynion penodol o dan Ddeddf 24, Rheoliadau CDLl 25, Polisi Cynllunio Cymru[1], Cynllun Llesiant Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2018-223) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;

[1]Ar adeg ysgrifennu hyn (Gorffennaf 2018) mae Polisi Cynllunio Cymru - 9fed argraffiad (2015) yn dal mewn grym. Fodd bynnag, bu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori ar PPW - 10fed Argraffiad rhwng Chwefror a Mai 2018, ac ar ôl i hynny gael ei gwblhau, disgwylir y bydd yr argraffiad hwnnw yn ei le cyn mabwysiadu CDLl Conwy newydd. Oherwydd hynny, bydd angen i'r CDLl newydd alinio â chynnwys disgwyliedig PPW - 10fed Argraffiad.

- Polisïau rheoli datblygu er mwyn gweithredu'r strategaeth ofodol a'r polisïau strategol; a
- Dyraniadau safleoedd.

2.2.5 Nid yw'r rhestr uchod o elfennau bwriedig CDLl yn gyflawn a gall newid yn ystod yr Adolygiad o'r CDLl. Bydd angen i bob elfen sylweddol o CDLl newydd Conwy fod yn destun SA, gan ymgorffori SEA, yn unol â'r ymagwedd a nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu yma.

2.2.6 Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol a chyfraith achos, bydd angen i'r CDLl newydd gynnwys cyfiawnhad rhesymedig dros gynnwys pob elfen sylweddol ac ategu hynny gyda swît o ddogfennau tystiolaeth. Bydd y rhain yn hysbysu proses yr SA yn ogystal â bod yn ofynnol at ddibenion paratoi cynllun.

## 2.3 Paratoi a Chronfa Dystiolaeth

2.3.1 Ers mabwysiadu Cytundeb Cyflawni Adolygiad o CDLl Conwy terfynol ym Mai 2018, mae'r broses o ddatblygu'r RLDP arfaethedig wedi canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth a gweithgareddau ymgysylltu cynnar, yn cynnwys:

- Galw am safleoedd arfaethedig: Gorffennaf - Awst 2018;
- Sgrinio SEA a Chwmpasu SA: Awst– Hydref 2018;
- Casglu Tystiolaeth yn cynnwys Diweddariad Adolygiad o Dir Cyflogaeth (ar y gweill ers Mehefin 2018) a pharatoi papurau testun a phapurau cefndir (parhaus)[2].

2.3.2 Mae Materion ac Opsiynau Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo, y mae'r Adroddiad SA yma yn eu cefnogi, yn dynodi'r tro cyntaf y bydd cynigion sylweddol wedi cael eu cyflwyno gan CBSC er mwyn hysbysu'r RLDP arfaethedig. Mae'r Papurau Ymgynghori Cyn Adneuo sydd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Papur Ymgynghoriad 1: Materion Blaenoriaethol, Gweledigaeth ac Amcanion;
- Papur Ymgynghoriad 2: Twf Strategol ac Opsiynau Dosbarthiad Gofodol; a
- Swît o Bapurau Testun:
    - Tai;
    - Economi, Sgiliau a Chyflogaeth;
    - Manwerthu;
    - Twristiaeth;
    - Cyfleusterau Cymunedol;
    - Yr Amgylchedd Naturiol;
    - Amgylchedd Hanesyddol;

[2] Bydd papurau cefndir yn cyflwyno dadansoddiad manwl o dystiolaeth berthnasol (data gwaelodlin, gofynion deddfwriaethol, etc.) a bydd goblygiadau papurau perthnasol i'r RLDP arfaethedig yn cael eu nodi mewn swît o Bapurau Testun thematig. Bydd y Papurau testun yn eu tro yn  hysbysu'r Strategaeth a Ffafrir a chynnwys manwl yr RLDP arfaethedig.

- Trafnidiaeth;
- Ynni Adnewyddadwy;
- Mwynau a Gwastraff;
- Llesiant, Iechyd a Chydraddoldeb; a
- Gofodau Hamdden.

2.3.3 Mae'r dogfennau yma wedi eu hategu gan swît o Bapurau testun sydd yn cyflwyno dadansoddiad o dystiolaeth berthnasol (data gwaelodlin, gofynion deddfwriaethol, blaenoriaethau rhanddeiliaid etc,) ar sail thematig er mwyn nodi materion allweddol y dylid ymdrin â nhw yn yr RLDP arfaethedig. Mae'r papurau Cefndir a Thestun hefyd wedi ystyried y materion cynaliadwyedd allweddol a arenwyd drwy Gwmpasu SA, fel y manylir ar hynny yn **Adran 3.2**. Mae tri Phapur Cefndir yn benodol wedi dylanwadu ar gynnwys papur Ymgynghori 2 mewn perthynas â thwf ac opsiynau gofodol ar gyfer yr RLDP arfaethedig, sef:

i. BP/1 Papur Adroddiad Opsiynau Lefel Twf;

ii. BP/2 Papur Opsiynau Dosbarthiad Gofodol; a

iii. BP/3 Papur hierarchaeth Aneddiadau.

2.3.4 Mae'r Papurau Ymgynghori a Thestun a restrir uchod yn destun ymgynghoriad anstatudol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae trafodaethau cynnar ar y gronfa dystiolaeth a'r materion allweddol y dylid ymdrin â nhw yn yr RLDP arfaethedig yn gritigol er mwyn sicrhau cyfranogiad gan randdeiliaid allweddol a chyflawni CDLl effeithiol. Felly mae CBSC wedi penderfynu y dylid cynnal ymgynghoriad ffocysedig ar y Weledigaeth arfaethedig, yr Amcanion a'r opsiynau posibl ar gyfer yr RLDP cyn yr ymgynghoriad statudol yn y dyfodol ar y Strategaeth a Ffafrir ar gyfer yr RLDP. Oherwydd bod cynigion sylweddol ar gyfer yr RLDP arfaethedig wedi eu cynnwys yn y Papurau Ymgynghori (h.y. y Weledigaeth arfaethedig, yr Amcanion a'r opsiynau gofodol a thwf posibl), mae angen i'r cynigion hyn fod yn destun SA, fel y manylir ar hynny yn yr Adroddiad SA yma, ac ymgynghori ar ganfyddiadau'r SA yn gyfochrog â'r Papurau Ymgynghori.

# 3 Cyd-destun Amgylcheddol a Pholisi

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae **Adran 3.2** isod yn darparu crynodeb o amodau amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol gwaelodlin perthnasol gan nodi materion cynaliadwyedd sydd yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLl. Yna mae **Adran 3.3** yn crynhoi'r berthynas rhwng CDLl Conwy a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. Mae pob adran yn cael ei hategu gan adolygiadau gwaelodlin a pholisi manwl a ddarperir yn **Atodiad A** a **B** yn ôl eu trefn.

## 3.2 Materion Cynaliadwyedd Allweddol

3.2.1 Gan gyfeirio at y testunau amgylcheddol a ragnodir yn Atodlen 2 Rheoliadau SEA, mae crynodeb o'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodir yn **Atodiad A** y mae angen ymdrin â nhw yn yr Adolygiad o'r CDLl ac a ystyrir yn yr SA cysylltiedig yn cael eu darparu yn **Nhabl 3.1** isod. Hefyd, mae arenwi materion cynaliadwyedd allweddol wedi cael ei hysbysu drwy ystyried esblygiad tebygol amodau gwaelodlin yn absenoldeb yr Adolygiad o'r CDLl, fel y manylir ar hynny yn **Atodiad A.4**. Yn gryno, mae hynny yn casglu bod absenoldeb Adolygiad o'r CDLl yn debygol o arwain at wactod polisi cynllunio yn ardal CBSC, a galli hynny arwain at ddatblygiadau yn cael eu cyflwyno mewn lleoliadau anghynaladwy a hynny yn groes i strategaeth ofodol a ffafrir CBSC a dim ond er mwyn bodloni anghenion a arenwyd, sef ar gyfer tai newydd yn bennaf.

Tabl 3.1: Materion Cynaliadwyedd Allweddol cysylltiedig â'r Adolygiad o CDLl Conwy

| Testun SEA | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | Yr angen i warchod, amddiffyn a chyfoethogi bioamrywiaeth yn cynnwys rhywogaethau pwysig a safleoedd a ddynodwyd am resymau cadwraeth bioamrywiaeth neu bwysigrwydd ecolegol. Mae hynny yn gysylltiedig â gwarchod safleoedd dynodedig yn ardal CBSC (yn cynnwys yn yr ardal sydd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri a thu allan iddi) yn ogystal â safleoedd dynodedig mewn awdurdodau ffiniol, y mae gan bob un ohonynt y potensial i'r Adolygiad o'r CDLl a gweithgaredd datblygu yn ardal CBSC effeithio arnynt.<br><br>Yr angen i ddiogelu a chyfoethogi'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn ardal CBSC a chysylltiadau seilwaith gwyrdd ag awdurdodau ffiniol. Mae rhwydweithiau gwyrdd yn arbennig o bwysig er mwyn darparu gwasanaethau ecosystem a chysylltedd cynefinoedd mewn hinsawdd newidiol. |
| Poblogaeth (yn cynnwys materion economaidd gymdeithasol perthnasol). | Yr angen i wneud y mwyaf o fuddion economaidd gymdeithasol o weithredu y Fargen Twf y Gogledd arfaethedig.<br><br>Yr angen i alinio gyda phroses baratoi Cynllun Datblygu Strategol (SDP) posibl ar gyfer coridor yr A55.<br><br>Yr angen i ddarparu swm digonol o dai newydd o ansawdd da wedi eu lleoli'n dda er mwyn bodloni ystod o anghenion a arenwyd.<br><br>Yr angen i ddarparu twf economaidd a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth, yn cynnwys ar gyfer trigolion lleol.<br><br>Yr angen i fynd i'r afael ag amddifadedd, yn cynnwys ardaloedd sydd ag amddifadedd presennol sydd yn gysylltiedig â mynediad gwael at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd economaidd.<br><br>Yr angen i sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn briodol a hygyrch i ddefnyddwyr fodloni anghenion amrywiol trigolion a gweithwyr.<br><br>Yr angen i wella hygyrchedd cyrchfannau allweddol yn ardal CBSC ac i leoliadau allweddol eraill drwy wella'r rhwydwaith trafnidiaeth. |

| Testun SEA | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Iechyd Pobl | Yr angen i wella pob agwedd o iechyd a llesiant y boblogaeth, yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch.<br><br>Yr angen i warchod a gwella mynediad at darpariaeth mannau agored o ansawdd da a llwybrau teithio actif.<br><br>Yr angen i greu amgylcheddau trefol iach y gellir byw ynddynt. |
| Pridd | Yr angen i annog a/neu hwyluso datblygu ar dir llwyd a ddatblygwyd eisoes.<br><br>Yr angen i wneud y mwyaf o'r defnydd effeithlon o dir a blaenoriaethu ailddatblygu tir llwyd.<br><br>Yr angen i ddiogelu adnoddau pridd o bwysigrwydd i geoamrywiaeth ac i adfer ardaloedd y gwyddir sydd wedi eu halogi.<br><br>Yr angen i ddiogelu ac adfer mawndiroedd. |
| Dŵr | Yr angen i warchod a gwella ansawdd adnoddau dŵr a'r amgylchedd dŵr. Mae hynny yn ymestyn i warchod cyrsiau dŵr trawsffiniol sydd yn llifo drwy ardal CBSC ac Afon Conwy sydd yn llifo i'r gogledd i Afon Menai ym Môr Iwerddon.<br><br>Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd ble ceir risg llifogydd er mwyn lliniaru risgiau posibl yn llawn, gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd a risgiau llifogydd o bob ffynhonnell (môr, afonydd, dŵr wyneb, cronfeydd dŵr a/neu ddŵr tir). |
| Aer | Yr angen i leihau allyriadau llygryddion aer.<br><br>Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd aer, yn cynnwys drwy fynd i'r afael â ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael. |
| Ffactorau hinsawdd | yr angen i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig a seilwaith yn gydnerth ac yn gallu addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan ystyried lleoliad arfordirol ardal CBSC.<br><br>Yr angen i liniaru newid yn yr hinsawdd yn cynnwys drwy ddatgarboneiddio sectorau economaidd allweddol. |

| Testun SEA | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Asedau Perthnasol | Yr angen i wneud y mwyaf o ddefnydd effeithlon o dir, adnoddau naturiol a seilwaith presennol. Mae hynny yn cynnwys yr angen i flaenoriaethu ailddatblygu tir llwyd. |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | Yr angen i warchod, amddiffyn a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u lleoliadau yn ardal CBSC.<br><br>Yr angen i ddiogelu a chefnogi defnyddio'r Iaith Gymraeg. |
| Tirlun | Yr angen i warchod a gwella cymeriad y tirlun, cymeriad y dreflun, cymeriad y morlun, golygfeydd allweddol ac amwynder gweledol. Mae hynny yn ymestyn i warchod tirluniau ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac mewn awdurdodau ffiniol eraill, yn ogystal â glannau treftadaeth ac ardaloedd â chymeriad morol. |
| Effeithiau Cydberthnasol | Yr angen i gyflawni gwelliannau holistig i lesiant a chyfrannu at ddarparu datblygiad cynaliadwy ar draws ardal CBSC. |

3.2.2 Tystiolaethir materion cynaliadwyedd allweddol a restrir yn **Nhabl 3.1** mewn Papurau Cefndir a Thestun a baratowyd ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl ac a adlewyrchir yn y cynigion sylweddol ar gyfer yr RLDP arfaethedig a nodir yn y Papurau Ymgynghori. Mewn termau cyffredinol, mae hynny yn helpu i sicrhau bod y cyfeiriad ar gyfer yr RLDP arfaethedig yn ymateb i faterion cynaliadwyedd allweddol fel y nodir hynny drwy'r broses SA. Fodd bynnag, mae dal angen archwilio pob elfen sylweddol arfaethedig yr RLDP arfaethedig ac yn gyfun er mwyn penderfynu ar eu heffeithiau arwyddocaol tebygol ac i ba raddau maent yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

## 3.3 Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau

3.3.1 Archwiliwyd y mathau canlynol o gynlluniau a rhaglenni o ran eu perthnasedd i'r Adolygiad o'r CDLl a'r SA yma.

- Confensiynau a chytundebau rhyngwladol;
- Cyfarwyddebau Ewropeaidd a deddfwriaeth gysylltiedig;
- Deddfwriaeth a roddwyd mewn grym gan Lywodraeth y DU a Chynulliad Cymru; a
- Dogfennau polisi a strategaethau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn cynnwys gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru (a'i asiantaethau) a CBSC.

3.3.2 Mae adolygiad manwl o gynlluniau a rhaglenni eraill a nodwyd eu bod yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLl yn cael e ddarparu yn **Atodiad B**. O'r Adolygiad yma mae'n amlwg y dylai'r RLDP arfaethedig:

- Alinio gyda gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol fel y nodi o fewn Polisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad (Rhagfyr 2018);
- Ceisio manteisio ar y cyfleoedd cymdeithasol economaidd a gyflwynir gan Fargen Twf y Gogledd;
- Alinio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) arfaethedig ar gyfer Cymru a pharatoi SDP posibl ar gyfer coridor yr A55.
- Ceisio gwella pob agwedd o iechyd a llesiant i boblogaeth ardal CBSC, yn cynnwys drwy ddarparu seilwaith iechyd o ansawdd da, gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl a darparu cyfleoedd i wella llesiant cymdeithasol. Mae'n rhaid i'r CDLl geisio gweithredu'r amcanion llesiant a ddiffinnir yn lleol a nodir yng Nghynllun Llesiant Conwy (2018-223).
- Sicrhau twf economaidd cynaliadwy a mewnfuddsoddiad ar draws ardal CBSC drwy ddyrannu safleoedd addas ar gyfer datblygu a thrwy ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i gynyddu cysylltedd, gwella seilwaith cymunedol a chymdeithasol a chynyddu mynediad at gyflogaeth o ansawdd da a chyfleoedd economaidd. Hefyd bydd yn bwysig i'r CDLl nodi strategaeth ofodol sydd yn gwneud y mwyaf o cystadleurwydd economaidd ardal CBSC ac sydd yn gwella llesiant cymdeithasol, gan ystyried ei leoliad gwledig a'r amodau cymdeithasol economaidd presennol;
- Clustnodi a chynllunio i fodloni anghenion holl drigolion a gweithwyr ardal CBSC, yn arbennig mewn perthynas â darparu seilwaith cymunedol digonol;
- Darparu cartrefi fforddiadwy sydd wedi eu dylunio'n dda er mwyn bodloni anghenion tai a arenwyd, yn cynnwys darparu amrywiaeth o feintiau a deiliadaethau;
- Lleihau dibyniaeth ar geir a gwella seilwaith teithio actif;

- Darparu cysylltiadau trafnidiaeth gwell ac estynedig, trafnidiaeth gyhoeddus a gwell seilwaith cyfathrebu, i gymunedau ac yn ardal CBSC ac i gyrchfannau allweddol mewn awdurdodau ffiniol;
- Gwarchod a gwella mynediad at gyfleusterau chwaraeon awyr agored, parciau a mannau agored o ansawdd da;
- Gwarchod, cadw, diogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, cenedlaethol a lleol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd ecolegol, pwysigrwydd geolegol neu arwyddocâd treftadaeth, mewn ffyrdd sydd yn briodol i'w statws.
- Datblygu technegau ymgysylltu effeithiol â'r gymuned er mwyn ymateb i safbwyntiau cymunedau ehangach a hwyluso cydlyniant cymunedol effeithiol;
- Hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau, yn cynnwys symud tuag at economi carbon isel, defnyddio dŵr fel adnodd, adeiladau ynni effeithlon, ac ynni adnewyddadwy a charbon isel priodol.
- Cymryd camau i warchod lefelau ansawdd aer ac amcanu at liniaru unrhyw weithgaredd allai effeithio ar lefelau ansawdd aer ar draws ardal CBSC;
- Sicrhau nad oes yna unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar safleoedd natur dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol (gweler Adroddiad Sgrinio Cychwynnol Asesu Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân i gael mwy o fanylion);
- Rhoi ystyriaeth lawn i effeithiau posibl ar ddŵr, yn cynnwys ansawdd dŵr, ecosystemau, defnyddio dŵr yn gynaliadwy, capasiti carthffosiaeth, risg llifogydd a cyfleoedd i wella camau rheoli risg llifogydd;
- Ceisio ffyrdd o wneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd amlbwrpas a sicrhau eu bod yn darparu rhwydwaith o goridorau bywyd gwyllt cysylltiedig (ar draws ystod eang o feintiau a chynyddu gwasanaethau ecosystemau yn cynnwys bioamrywiaeth;
- Ceisio ffyrdd o wneud y mwyaf o fuddion iechyd seilwaith gwyrdd;
- Defnyddio tir yn effeithlon drwy ddefnyddio tir sydd wedi ei ddatblygu eisoes;
- Ystyried ansawdd pridd a dosbarthiad tir amaethyddol wrth asesu safleoedd datblygu posibl;
- Cydnabod y gwahanol dirluniau yn ardal CBSC a Pharc Cenedlaethol Eryri a'u capasiti i gynnal newid; a
- Hyrwyddo datblygu sydd yn lleihau effeithiau ar dirluniau ac sydd yn gwarchod tirluniau mewn modd sydd yn briodol i'w harwyddocâd

3.3.3 Fel yn achos y materion cynaliadwyedd allweddol, ymdrinnir â'r materion polisi allweddol a arenwyd mewn Papurau Cefndir a Thestun a baratowyd ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl ac a adlewyrchir yn y cynigion sylweddol ar gyfer yr RLDP arfaethedig a nodir yn y Papurau Ymgynghori. Mewn termau cyffredinol, mae hynny yn helpu i sicrhau bod yr RLDP arfaethedig yn ymateb i ofynion deddfwriaethol a pholisi cymwys.

# 4 Y Broses Werthuso Cynaliadwyedd

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r broses SA, gan ymgorffori SEA, a gynhaliwyd hyd yma ar gyfer RLDP arfaethedig Conwy. Wrth wneud hynny mae'r adran hon yn egluro'r ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal SA yr Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo.

## 4.2 Pwrpas ac Amcanion SA a SEA

4.2.1 Yn unol â Rheoliadau SEA, pwrpas y SEA yw clustnodi, asesu a gwerthuso effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol cynllun, rhaglen neu strategaeth gymwys (PSS). O dan Ddeddf 24, pwrpas SA yw asesu cyfraniad CDLl tuag at ddarparu datblygu cynaliadwy. Felly, mae SA a SEA n rhannu ffocws cyffredin ar asesu perfformiad amgylcheddol a pherfformiad cynaliadwyedd ehangach, ac felly gellir eu cynnal gyda'i gilydd ac adrodd arnynt gyda'i gilydd, fel yn yr adroddiad yma.

4.2.2 Un o amcanion cyffredin SA, gan gynnwys SEA, yw gwella perfformiad amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach cynlluniau a rhaglenni arfaethedig. Cyflawnir hynny drwy glustnodi unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol o ganlyniad i weithredu'r cynllun arfaethedig fel y'i drafftiwyd, gan gynnig camau lliniaru er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol a ganfyddir, a nodi camau cyfoethogi er mwyn gwella perfformiad cyffredinol y cynllun wrth iddo esblygu. Oherwydd hynny, mae SA gan ymgorffori SEA yn rhan hanfodol o gynllunio datblygu da a ni ddylid ei ystyried fel gweithgaredd ar wahân neu ôl-weithredol. Mae hynny yn golygu y dylid cynnal SA, gan ymgorffori SEA, mewn perthynas â phob elfen neu gynnig sylweddol arfaethedig sy'n rhan o gynllun arfaethedig ar yr adeg pan ymgynghorir ar yr elfen neu gynnig perthnasol ei hun.

## 4.3 Tîm Prosiect SA

4.3.1 Mae SA o RLDP arfaethedig Conwy yn cael ei gynnal yn annibynnol gan Peter Brett Associates ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Bu i PBA gynnal yr SA eisoes, gan ymgorffori SEA, ar CDLl cyntaf Conwy, a fabwysiadwyd gan CBSC yn 2013.

4.3.2 Mae annibyniaeth y tîm ymgynghori sydd yn ymwneud â chynnal yr SA yma yn helpu i sicrhau gwrthrychedd yr SA a chlustnodi elfennau sydd angen eu gwella drwy gydol y broses o'i ddatblygu. Mae hynny yn caniatáu datblygu a gweithredu camau lliniaru annibynnol ar argymhellion i wella wrth i'r RLDP arfaethedig esblygu er mwyn gwella ei effeithiolrwydd.

## 4.4 Adroddiadau SA ac SEA Blaenorol

4.4.1 Yr unig gamau SA blaenorol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r RLDP arfaethedig oedd paratoi ac ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu SA (gan ymgorffori Sgrinio SEA) (Awst 2018), a ddilynwyd gan gyhoeddiad CBSC ar Benderfyniad Sgrinio SEA.

4.4.2 Pwrpas deuol Adroddiad Sgrinio SA oedd darparu gwybodaeth berthnasol er mwyn galluogi i Gyrff Ymgynghori'r SEA i ystyried yr angen am SEA ac er mwyn ffurfio barn am y cyfnod ymgynghori a chwmpas/lefel manylder priodol ar gyfer Adroddiadau SA fydd yn ategu pobl elfen sylweddol o'r RLDP arfaethedig. Un o amcanion allweddol Adroddiad Cwmpasu SA oedd clustnodi Fframwaith SA seiliedig ar dystiolaeth er mwyn asesu, mewn ffordd systematig, effeithiau cynaliadwyedd tebygol elfennau sylweddol yr RLDP arfaethedig. Mae'r Fframwaith SA yma yn cynnwys cyfres o Amcanion Cynaliadwyedd a Chwestiynau Canllaw mewn perthynas â materion economaidd gymdeithasol a materion amgylcheddol perthnasol a glustnodwyd mewn perthynas ag ardal CBSC.

4.4.3 Ar ôl cyflwyno Adroddiad Cwmpasu SA i'r Cyrff Ymgynghori SEA yn Awst 2018, cafwyd ymatebion i Ymgynghoriad SEA ar Adroddiad Cwmpasu SA o fewn yr amserlenni statudol, ac roeddent yn cytuno â'r farn a fynegwyd y dylid cynnal SEA llawn o ystyried yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu'r RLDP arfaethedig. Fel y nodir yn **Nhabl 4.1** isod, bu i Gyrff Ymgynghori SEA argymell nifer o fân addasiadau i'r Fframwaith SA arfaethedig ac i'r dadansoddiad gwaelodlin, adolygiad polisi a materion cynaliadwyedd fel y nodwyd hynny yn yr Adroddiad Cwmpasu SA. Yn unol â'r gofynion gwybodaeth a ragnodwyd yn y Rheoliadau SA, ymdriniwyd â'r materion hynny yn yr Adroddiad SA yma a bydd yn cael ei gario ymlaen i Adroddiadau SA yn y dyfodol er mwyn ategu dogfennau'r CDLl Cyn Adneuo ac Adneuo.

Tabl 4.1: Adolygiad o Ymatebion Cwmpasu SA

| Corff Ymgynghori SEA | Sylwadau | Ymateb SA |
|---|---|---|
| Cadw | Dylid nodi bod gan dreftadaeth y potensial i gynhyrchu effeithiau tebygol ac oherwydd hyn y dylid cyfeirio at hynny yn y Penderfyniad Sgrinio SEA. | Erbyn hyn mae'r Penderfyniad Sgrinio SEA a gyhoeddwyd gan CBSC yn cynnwys cyfeiriad at effeithiau arwyddocaol tebygol mewn perthynas â threftadaeth. |
| | Croesawyd nodi treftadaeth ddiwylliannol fel mater cynaliadwyedd allweddol | Nodwyd. |
| | Cefnogwyd yr Amcan DA arfaethedig a'r Cwestiynau Canllaw mewn perthynas â threftadaeth ddiwylliannol. | Nodwyd. |
| | Argymhellwyd egluro mwy ar y dangosyddion cynaliadwyedd a gynhwysir yn y Fframwaith SA er mwyn asesu effeithiau arwyddocaol tebygol ar dreftadaeth ddiwylliannol fyddai'n deillio o safleoedd arfaethedig. | Mae'r dangosyddion cynaliadwyedd yn Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy (**Atodiad C**) wedi cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu argymhellion Cadw. Bydd agosrwydd at asedau treftadaeth yn parhau i fod yn un offeryn ar gyfer asesu safleoedd arfaethedig, ond hefyd bydd effeithiau gosodiad ehangach yn cael eu hystyried. |
| | Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r gofrestr a luniwyd gan Weinidogion Cymru o Dirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol. | Mae'r esboniadau yma wedi eu nodi yn **Nhabl A2.1** yr Adroddiad SA yma. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Croesawyd y Fframwaith SA a'r fethodoleg, fel un sydd yn addas ar gyfer tanategu asesiad cydnerth o effeithiau amgylcheddol o'r Adolygiad o'r CDLl. | Nodwyd. |
| | Cefnogwyd yr ymagwedd arfaethedig o leoli datblygiadau nad ydynt mewn ardaloedd ble ceir risg llifogydd. | Nodwyd. |

| Corff Ymgynghori SEA | Sylwadau | Ymateb SA |
|---|---|---|
| | Argymhellwyd y dylai'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd amlinellu y gwahanol ffynonellau llifogydd a chydnabod dylanwad newid yn yr hinsawdd ar lifogydd. | Mae'r materion cynaliadwyedd allweddol a restrir yn **Nhabl 3.1** wedi cael eu hymestyn er mwyn adlewyrchu argymhellion NRW. |
| | Argymhellwyd y dylid nodi bod adfer mawn yn fater cynaliadwyedd allweddol. | |
| | Argymhellwyd y dylid cydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd o ran darparu cysylltedd cynefinoedd mewn hinsawdd newidiol fel mater cynaliadwyedd allweddol. | |
| | Argymhellwyd y dylid cyfeirio at gymeriad morlun a morol mewn perthynas a materion cynaliadwyedd allweddol o dan destun tirlun yr SEA. | |
| | Awgrymwyd ychwanegiadau i Dabl 5.1 Adroddiad Cwmpasu Adolygiad o CDLl Conwy oedd yn asesu dilysrwydd parhaus y Fframwaith SA a fabwysiadwyd ar gyfer CDLl cyntaf Conwy (2013). | Cynhwyswyd y tabl yma yn yr Adroddiad Cwmpasu SA er mwyn dangos yr angen am Fframwaith SA newydd i ategu'r Adolygiad o'r CDLl. Mae'r Fframwaith SA newydd (Atodiad C) wedi ei ategu gan Gyrff Ymgynghori'r SEA. Oherwydd hynny, nid oes angen ailymweld â Thabl 5.1 Adroddiad Cwmpasu'r SA. Hefyd, mae'r adolygiad o gynlluniau a pholisïau a ddarparwyd yn **Nhabl B2.1** eisoes yn nodi bod Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi dyletswyddau penodol ar gyfer CBSC fel corff cyhoeddus, i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth. Mae'r Cynllun Rheoli'r Glannau y cyfeirir ato gan NRW hefyd yn gynwysedig yn yr adolygiad o gynlluniau a pholisïau a ddarparwyd yn **Nhabl B2.1**. |
| | Argymhellwyd y dylid ymestyn Amcan 1 yr SA - Dŵr a Risg llifogydd, er mwyn cyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd ble ceir risg llifogydd. | Mae'r mân newidiadau yma a argymhellwyd wedi cael eu hymgorffori yn Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy a ddarperir yn **Nhabl C.1**. |

| Corff Ymgynghori SEA | Sylwadau | Ymateb SA |
|---|---|---|
| | Argymhellwyd y dylid ymestyn y Cwestiynau Canllaw mewn perthynas ag Amcan 8 yr SA - Newid yn yr Hinsawdd, er mwy cyfeirio at fesurau osgoi. | |
| | Argymhellwyd y dylid ymestyn y Cwestiynau Canllaw mewn perthynas ag Amcan 1 yr SA - Dŵr a Risg Llifogydd, er mwyn cyfeirio at ddraenio dŵr wyneb. | |
| | Argymhellwyd defnyddio dangosydd cynaliadwyedd ychwanegol mewn perthynas â pheryglon amgylcheddol er mwyn asesu safleoedd arfaethedig mewn perthynas ag Amcan 1 yr SA - Dŵr a Risg Llifogydd. | |
| | Argymhellwyd ymestyn Amcan 9 yr SA - Bioamrywiaeth, er mwyn mynd i'r afael â darnio cynefin. | Roedd yr angen i ddiogelu yn erbyn colli neu ddarnio cynefin wedi ei nodi eisoes fel cwestiwn canllaw mewn perthynas ag Amcan 9 yr SA. Ni ystyriwyd bod angen unrhyw newid i'r fframwaith SA a ddarparwyd yn **Atodiad C**. |
| | Cadarnhawyd yr SSSIau ecolegol a geolegol deuol ychwanegol y dylid eu hystyried yn yr SA. | Mae'r SSSIau deuol ychwanegol yma wedi cael eu hychwanegu at **Dabl A2.1**. |
| | Cadarnhawyd y LNRau ychwanegol y dylid cyfeirio atynt ac eglurwyd bod LNRau yn cael eu dynodi gan NRW yn hytrach na CBSC. | Mae'r LNRau ychwanegol yma a'r esboniadau wedi cael eu hymgorffori yn **Nhabl A2.1**. |
| | Cynghorwyd y dylid ymestyn ar yr adolygiad o safleoedd dynodedig a gynhwysir yn yr Adroddiad Cwmpasu SA er mwyn cyfeirio at ystyriaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â Pharc Cenedlaethol Eryri. Hefyd, dylid cyfeirio at Arfordir Treftadaeth y Gogarth ac Ardaloedd Tirlun Arbennig. | Mae'r adolygiad o safleoedd dynodedig a ddarparwyd yn **Nhabl A2.1** wedi cael ei ymestyn er mwyn ymgorffori'r ystyriaethau yma. |

| Corff Ymgynghori SEA | Sylwadau | Ymateb SA |
| --- | --- | --- |
| | Argymhellwyd y dylid ychwanegu cyfeiriad at rywogaethau blaenoriaethol a neilltuol yn y trosolwg o amodau amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol presennol yn yr ardal y mae'n debygol y bydd yr Adolygiad o'r CDLl yn effeithio arno. | Mae'r esboniad hwnnw wedi cael ei gynnwys yn y trosolwg o amodau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol a ddarparwyd yn **Nhabl A3.1**. |
| | Cynghorwyd nad oedd y trosolwg o amodau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol yn yr ardal y bydd yr Adolygiad o'r CDLl yn debygol o effeithio arni, a ddarparwyd yn Adroddiad Cwmpasu SA, yn cyfeirio at Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA). | Cyfeiriwyd at SPAau yn y trosolwg o amodau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol a'r adolygiad o safleoedd dynodedig a ddarparwyd yn Adroddiad Cwmpasu SA Adolygiad o CDLl Conwy. Mae hynny wedi ei gario ymlaen i **Dablau A2.1** a **Thabl 3.1**. Er byrdra, ac oherwydd y bydd HRA ar wahân yn cael ei gynnal gan CBSC er mwyn asesu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd, ni ystyrir ei bod yn berthnasol manylu ar nodweddion cymwys unigol pob Safle Ewropeaidd a nodir yn yr Adroddiad SA yma. |
| | Cynghorwyd y dylid ychwanegu cyfeiriad at Ganllawiau Llywodraeth Cymru (CL-3-16 Ystyriaethau Newid yn yr Hinsawdd at Ddibenion Cynllunio. | Erbyn hyn ni chyfeirir at y ddogfen hon y yr adolygiad o gynlluniau a pholisïau a ddarperir yn **Nhabl B2.2**. Hefyd, mae'r testun yn **Nhabl A2.1** mewn perthynas ag allyriadau nwy tŷ gwydr wedi cael ei gywiro. |
| | Argymhellwyd y dylai'r trosolwg o amodau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol yn yr ardal y bydd yr Adolygiad o'r CDLl yn debygol o effeithio arni gydnabod pwysigrwydd glannau a chymeriad morlun. | Mae cyfeiriad at bwysigrwydd glannau a cymeriad morlun wedi cael ei gynnwys yn y trosolwg o amodau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol a ddarparwyd yn **Nhabl A3.1**. |
| | Argymhellwyd y dylid cyfeirio at ddisgrifiadau cymeriad SLA ac amcanion rheoli tirlun. | Am resymau sy'n ymwneud â chymesuredd, nid yw'r newid hwn wedi cael ei ymgorffori ar hyn o bryd oherwydd ni fyddai yn effeithio ar SA yr elfennau lefel strategol y CDLl a ystyrir yn yr adroddiad yma. Bydd yr angen i nodi disgrifiadau o gymeriad SLA unigol ac amcanion rheoli yn caei ei adolygu wrth baratoi'r Adroddiad SA nesaf fydd yn ategu Dogfennau Cyn Adneuo Strategaeth a Ffafrir y CDLl. |

| Corff Ymgynghori SEA | Sylwadau | Ymateb SA |
|---|---|---|
| | Cynghorwyd am fân gywiriadau y dylid eu gwneud a dogfennau polisi ychwanegol y dylid cyfeirio atynt yn yr adolygiad o gynlluniau a pholisïau. | Mae'r cywiriadau a awgrymwyd a'r ychwanegiadau a argymhellwyd wedi eu hymgorffori i'r adolygiad o gynlluniau a pholisïau a ddarparwyd yn **Nhabl B2.1**. |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. | Nodwyd. |

4.4.4 Gan ystyried y mân addasiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Cyrff Ymgynghori SEA, mae'r Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy terfynol fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu'r RLDP arfaethedig yn cael ei ddarparu'n llawn yn **Atodiad C – Fframwaith SEA** .

## 4.5 Paratoi'r Adroddiad SA Yma

### Trosolwg

4.5.1 Yn unol â Chytundeb Cyflawni Adolygiad o CDLl Conwy (2018) a'r Rheoliadau SEA, bu i Adroddiad Cwmpasu SA Adolygiad o CDLl Conwy (Awst 2018) nodi'r angen i gynnal SA o'r holl elfennau sylweddol arfaethedig sydd yn perthyn i'r RLDP arfaethedig. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai hynny drwy gynnal SA o Ddogfennau Cyn Adneuo y CDLl, yn cynnwys Strategaeth a Ffafrir y CDLl (disgwyliedig ym Mehefin 219) ac yna Dogfennau'r CDLl Adneuo (disgwyliedig yn Ionawr 22). Fodd bynnag, yn dilyn hynny penderfynodd CBSC y dylid cynnal ymgynghoriad anstatudol ychwanegol mewn perthynas â Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl, a swît o opsiynau twf ac aneddiadau posibl, ac y byddai canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw yn cael ei ddefnyddio i hysbysu datblygu Dogfennau Cyn Adneuo, yn cynnwys Strategaeth a Ffafriwyd y CDLl. Oherwydd bod yr Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo yma yn nodi elfennau sylweddol a chynigion sydd yn debygol o danategu'r RLDP arfaethedig, mae'n amlwg bod angen i'r rhain fod yn destun SA ar hyn o bryd.

4.5.2 Cafodd Papurau Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo eu cymeradwyo gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen CBSC ym Medi 2018, ac ar ôl hynny bu i PBA ddechrau'r gwaith ar y SA o'r Ymgynghoriad ar Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau yn Hydref 2018 (ar ôl gorffen proses Cwmpasu SA). Er mwyn hysbysu'r SA yma, darparwyd Papurau Cefndir perthnasol i'r Papurau Ymgynghori gan CBSC i PBA ar ddiwedd Hydref 2018.

4.5.3 Mae'r Adroddiad SA yma yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad a gynhaliwyd er mwyn canfod, asesu a gwerthuso effeithiau arwyddocaol tebygol cynigion gaiff eu cynnwys yn y Papurau Ymgynghori. Wrth wneud hynny, mae pob elfen sylweddol ym mhob papur Ymgynghori, yn ogystal ag unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol (gweler isod), wedi bod yn destun asesiad yn erbyn yr 14 o Amcanion yr SA a ddiffiniwyd yn y Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy terfynol (a ddarperir yn **Atodiad C**). Mae canfyddiadau'r SA yma wedi ei dogfennu yn yr adroddiad yma.

### Ystyriaeth i Ddewisiadau Amgen Rhesymol

4.5.4 Mae Rheoliadau SEA yn ei gwneud yn ofynnol i archwilio effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu cynllun neu raglen ( h.y. yr RLDP arfaethedig) a'r dewisiadau amgen rhesymol, yn ogystal â disgrifio'r sail resymegol dros glustnodi dewisiadau amgen rhesymol. Mae Rheoliadau SEA hefyd yn nodi, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol (e.e. meini prawf polisi amgen neu dyraniadau safle), mae'n rhaid i opsiynau fod yn gysylltiedig ag amcanion a chwmpas daearyddol cyfatebol y cynllun neu raglen. Er mwyn bod yn gymwys i gael eu hystyried yn y broses SA yma (gan ymgorffori SEA), mae'n rhaid i ddewisiadau amgen rhesymol felly fod yn:

- Realistig, yn yr ystyr eu bod yn ddewisiadau amgen dichonadwy ellid eu gweithredu yn hytrach na'r cynigion yn yr RLDP arfaethedig a'u bod yn gyson â fframweithiau polisi cenedlaethol perthnasol ac eraill;
- Cysylltiedig ag amcanion yr RLDP arfaethedig; ac

- O fewn cwmpas daearyddol yr RLDP arfaethedig h.y. byddai angen i unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol fod yn gysylltiedig â dosbarthiad neu nodweddion datblygiadau yn ardal CBSC i'r dyfodol.

4.5.5 Oherwydd natur strategol ac ymgynghorol y cynigion sylweddol a'r opsiynau a nodir yn y papurau Ymgynghori, ni fu'n bosibl nodi unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol ychwanegol. Yn benodol:

- **Gweledigaeth ac Amcanion:** Oherwydd bod raid i ddewisiadau amgen rhesymol fod yn gysylltiedig ag amcanion y cynllun dan sylw, ni llid canfod unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol i'r Weledigaeth neu'r Amcanion arfaethedig yn y Papur Ymgynghori Cyn Adneuo 1, oherwydd y byddai unrhyw ddewis amgen yn newid cyfeiriad strategol yr RLDP arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r SA wedi ceisio canfod unrhyw ddiffygion yng Ngweledigaeth ac Amcanion y CDLl arfaethedig, gydag argymhellion ynghylch sut y gellid atgyfnerthu'r elfennau hyn wedi eu nodi yn Adran 6 - Argymhellion Lliniaru a Gwella; ac

- **Opsiynau Twf a Gofodol:** Mae'r swît o opsiynau twf a gofodol sydd ym Mhapur Ymgynghori Cyn Adneuo 2 ynddynt eu hunain yn cynrychioli 'dewisiadau amgen rhesymol'. gyda gwahanol opsiynau yn destun ymgynghoriad er mwyn hysbysu datblygu Strategaeth a Ffafrir y CDLl (yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol, yn ystod cam Cyn Adneuo y CDLl). Mae'r opsiynau twf a gofodol sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad yn cynrychioli ;rhestr fer' o opsiynau, sydd wedi deillio o 'restr hir' mwy amrywiol o opsiynau posibl a nodir mewn tri phapur cefndir ategol[3]. Fel y nodwyd yn y Papurau Cefndir yma, mae nifer o opsiynau twf a gofodol posibl o'r rhestr hir wreiddiol o opsiynau wedi cael eu diystyru oherwydd nad ydynt yn ddewisiadau amgen rhesymol, gan gyfeirio at tri maen prawf a restrir uchod.

## Adroddiad SA

4.5.6 Gwerthuswyd yr holl elfennau sylweddol a'r cynigion a nodir yn y Papurau Ymgynghori gan ddefnyddio metrigau er mwyn canfod eu cydnawsedd â'r Amcanion SA a ddiffiniwyd yn Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy (**Atodiad C**).

4.5.7 Oherwydd natur lefel uchel Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl arfaethedig a'r opsiynau twf a gofodol posibl, nid oedd yn bosibl nodi gydag unrhyw sicrwydd a fyddai'r elfennau strategol yma ynddynt eu hunain yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Yn hytrach, mae ffocws yr SA ar hyn o bryd ar sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i'r materion cynaliadwyedd allweddol yng Ngweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl o'u darllen fel cyfanwaith, er mwyn caniatáu gallu ymdrin yn fanylach â'r materion hyn drwy elfennau eraill anstrategol y CDLl fydd yn y pen draw yn llifo o'r Weledigaeth a'r Amcanion. Roedd y metrigau a'r system sgorio a fabwysiadwyd hefyd yn caniatáu nodi unrhyw elfennau anghydnaws, anghysonderau neu ansicrwydd, ac i ddatblygu argymhellion lliniaru a gwella cysylltiedig.

4.5.8 Adroddir ar SA o Weledigaeth ac Amcanion y CDLl a'r opsiynau twf a gofodol posibl gan ddefnyddio set safonol o fertigau cydnawsedd SA yn **Atodiad D** ac **E**, gyda'r canfyddiadau allweddol wedi eu crynhoi yn **Adran 5** isod. Pan fo'r SA wedi canfod ansicrwydd, anghysonderau neu anghydnawsedd posibl mewn perthynas ag elfen a aseswyd gydag Amcan SA (neu, yn fwy eang, gyda Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy), mae camau argymhellion cyfatebol ynghylch lliniaru a gwella er mwyn mynd i'r afael â'r materion yma wedi eu nodi yn **Adran 6.** Dylai'r argymhellion yma gael eu gweithredu mewn fersiynau o'r RLDP arfaethedig yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r mater a nodwyd.

[3] BP/1 papur Opsiynau Dosbarthiad Gofodol; ; BP/2 BP/2 Papur Opsiynau Dosbarthiad Gofodol; a BP/3 BP/3 Papur hierarchaeth Aneddiadau.

# 5 Canfyddiadau'r SA

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r adran yma yn darparu canlyniadau'r SA a baratowyd ar gyfer yr Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo. Mae'r elfennau canlynol o'r RLDP arfaethedig wedi bod yn destun SA ac fe'u hystyrir isod yn eu tro:

- Gweledigaeth y CDLl;
- Amcanion y CDLl;
- Opsiynau Twf posibl y CDLl; ac
- Opsiynau Gofodol posibl y CDLl (yn cynnwys hierarchaeth aneddiadau;

5.1.2 Mae rhan yma o'r Adroddiad SA yn crynhoi canfyddiadau'r SA tra bod y metrigau SA manwl ar gyfer pob elfen yn cael eu darparu ar wahân yn yr atodiadau canlynol:

- **Atodiad D - SA o Weledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl; a,**
- **Atodiad E - SA o Opsiynau Twf a Gofodol.**

5.1.3 Mae **Adrannau 5.2 – 5.3** isod yn nodi (cyn lliniaru) effeithiau'r elfennau sylweddol yma, fel y nodir hynny ym Mhapurau Ymgynghori Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo ('Y Papurau Ymgynghori'). Yna mae'r argymhellion ynghylch camau lliniaru a gwella er mwyn ymdrin â'r anghysonderau, ansicrwydd neu elfennau anghydnaws posibl â'r Amcanion SA o Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy yn cael eu nodi yn **Adran 6** yr adroddiad yma.

## 5.2 SA o Weledigaeth ac Amcanion Arfaethedig y CDLl

5.2.1 Mae'r adran yma yn ystyried goblygiadau cynaliadwyedd Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl arfaethedig fel y nodir hynny ym Mhapur Ymgynghori 1 - Materion Blaenoriaethol, Gweledigaeth ac Amcanion. Mae'r elfennau arfaethedig yn amcanu at ddarparu fframwaith strategol trosfwaol er mwyn tanategu holl elfennau eraill yr RLDP arfaethedig yn cynnwys polisïau strategol, dyraniadau safleoedd a pholisïau rheoli datblygu. Oherwydd hynny mae'n hanfodol bod Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl yn cynnwys sylw digonol a diamwys i'r holl faterion cynaliadwyedd er mwyn gallu ymdrin â nhw yn fanylach drwy elfennau eraill anstrategol y CDL.

### Gweledigaeth

5.2.2 Wedi ei hysbysu gan Gynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Polisi Cynllunio Cymru Drafft (PPW) - 10fed Argraffiad a Deilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, mae Papur Ymgynghori 1 yn nodi gweledigaeth ofodol arfaethedig ar gyfer datblygu ardal CBSC hyd at 233. Mae'r datganiad o weledigaeth yn cael ei ddangos yn **Ffigwr 5.1** isod ac yna fe'i harchwilir mewn perthynas â'i sylw i faterion cynaliadwyedd ac aliniad â Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy. Mae SA llawn o Weledigaeth y CDLl arfaethedig yn cael ei ddarparu yn **Atodiad D**, tra bod asesiad o'r berthynas rhwng Gweledigaeth y CDLl arfaethedig a blaenoriaethau a themâu Cynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych (2018) yn cael ei ddarparu yn Atodiad 2 Papur Ymgynghori 1.

Ffigwr 5.1: Gweledigaeth CDLl arfaethedig Conwy

| ***Conwy 2033*** |
|---|
| *Erbyn 233 bydd Conwy yn ardal sydd wedi cyfrannu yn gadarnhaol at greu a gwella 'Lleoedd Cynaliadwy'. Bydd hynny wedi ei gyflawni drwy 'Greu Lleoedd Cynaliadwy'' a chynhwysol, sydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo a darparu 'Lleoedd Actif a Chymdeithasol', 'Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus', a 'Lleoedd Neilltuol a Naturiol'.* |

5.2.3 Mae Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn canolbwyntio llawer ar greu lleoedd fel galluogydd deilliannau llesiant cadarnhaol. Fel datganiad lefel uchel, mae Gweledigaeth y CDLl felly yn debygol o gefnogi mwy o bwyslais ar ddarparu strategaeth ofodol newydd a pholisïau seiliedig ar leoedd yn y RLDP arfaethedig na'r CDLl mabwysiedig presennol, fyddai'n gwella neilltuedd lleol a gweithredu polisïau fydd yn bodloni anghenion gwahanol cymunedau. Felly, ystyrir bod Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn gydnaws â chyflawni datblygu cynaliadwy. Hefyd, dylai alinio Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Llesiant Cynllunio Cenedlaethol (2018) a themâu Polisi Cynllunio Cymru Drafft - 10fed Argraffiad ganiatáu i'r RDLP arfaethedig gyfrannu at ddeilliannau llesiant cadarnhaol a chefnogi gweithredu polisïau cynllunio cenedlaethol. Oherwydd bod llesiant yn cael ei ddefnyddio fel yr edefyn trawsffiniol er mwyn uno'r holl Amcanion SA o fewn Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy, dylai Gweledigaeth y CDLl arfaethedig felly allu cyfrannu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at gyflawni'r Amcanion SA yma.

5.2.4 Fodd bynnag, mae yna ddiffyg manylder yng Ngweledigaeth y CDLl arfaethedig mewn perthynas â sut y dylid ymdrin â materion cynaliadwyedd allweddol unigol (fel y nodwyd hynny drwy Gwmpasu SA) a phroblemau cynllunio allweddol (fel y nodir hynny yn Nhabl 2 Papur Ymgynghori 1) drwy'r RLDP arfaethedig. Mae hynny yn symptomatig o ystyried creu lleoedd fel deilliant yn hytrach na galluogydd deilliannau gofodol penodol, oherwydd nid yw gwir bwrpas creu a gwella "lleoedd cynaliadwy" yn cael ei ddiffinio'n llawn yn y weledigaeth. Yn hytrach, mae materion cynaliadwyedd/cynllunio allweddol a phroblemau y dylai'r RLDP arfaethedig ymateb iddynt yn cael eu nodi ar ôl i Weledigaeth y CDLl arfaethedig gael eu nodi yn y Papur Ymgynghori, ac felly fe adawir i'r swît o Amcanion cysylltiedig y CDLl fynd i'r afael â nhw. Rydym hefyd yn nodi bod Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn dibynnu ar ddefnyddio termau cyfalafu a ddiffinnir ym Mholisi Cynllunio Cymru -10fed Argraffiad (2018) a Chynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych (2018) allai fod yn anghyfarwydd i ddarllenwyr y CDLl, a bod angen mwy o esboniad, fel y dangosir hynny ym Mhapur Ymgynghori 1. Felly, er bod Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn darparu datganiad lefel uchel priodol er mwyn tanategu'r RLDP arfaethedig, mae'r argymhellion gwella a nodir yn Adran 6 yn canolbwyntio ar wella ei sylw uniongyrchol i faterion cynaliadwyedd a deilliannau gofodol, yn ogystal ag esbonio termau allweddol mewn ffordd gynnil.

## Amcanion

5.2.5 Mae Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn cael ei chefnogi gan set o 16 o Amcanion sydd yn nodi sut fydd y weledigaeth yn cael ei gwireddu. Mae'r Amcanion yn cael eu nodi yn Nhabl 3 Papur Ymgynghori 1 ac yn cael eu rhestru yn **Nhabl 5.1** isod.

Tabl 5.1: Amcanion y CDLl arfaethedig (Tabl 3 Papur Ymgynghori 1)

| Teitl yr Amcan | Geiriad yr Amcan |
|---|---|
| *Cyfrannu at greu a gwella Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy drwy Greu Lleoedd cynhwysol.* | |
| *Amcan Strategol 1 (SO1) Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy* | *Cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a gwell llesiant yn gyffredinol yng Nghonwy drwy greu lleoedd cynhwysol ac adfywio sydd yn sicrhau bod lefelau twf i'r dyfodol a datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, sydd yn ceisio hyrwyddo dylunio da a lleoedd iachach, yn gwarchod yr iaith Gymraeg ac sydd yn cael eu cefnogi gan seilwaith cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd angenrheidiol er mwyn creu lleoedd gwych.* |
| *Lleoedd Actif a Chymdeithasol yng Nghonwy* | |
| *Amcan Strategol 2 (SO2) Tai* | *Hyrwyddo strategaeth twf cyflogaeth a thai holistig a chydleoledig drwy ddarparu tai newydd yn cynnwys tai fforddiadwy ac anghenion llety sipsiwn a theithwyr mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, a sicrhau bod yr ystod priodol o fathau o dai, meintiau a deiliadaeth yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r seilwaith cymunedol angenrheidiol.* |
| *Amcan Strategol 3 (SO3) Canolfannau Manwerthu a Masnach* | *Darparu canol trefi bywiog, deniadol a hyfyw a chanolfannau masnachol i Gonwy drwy ailddiffinio eu rôl a thrwy annog amrywiaeth o weithgareddau a defnyddiau.* |
| *Amcan Strategol 4 (SO4) Cyfleusterau Cymunedol* | *Cyfrannu at deimlad o le ac iechyd cyffredinol, llesiant ac amwynder cymunedau lleol drwy sicrhau bod gan grwpiau poblogaeth presennol ac i'r dyfodol fynediad at gymysgedd gynaliadwy o gyfleusterau cymunedol.* |
| *Amcan Strategol 5 (SO5) Gofodau Hamdden* | *Annog llesiant corfforol a meddyliol drwy ddarparu a gwarchod rhwydweithiau o fannau gwyrdd a mannau hamdden hygyrch o ansawdd da.* |
| *Amcan Strategol 6 (SO6) Trafnidiaeth* | *Darparu datblygu cynaliadwy ac amcanu at daclo achosion newid yn yr hinsawdd drwy ymestyn y dewis o ddulliau teithio cynaliadwy er mwyn galluogi i gymunedau Conwy gael mynediad at swyddi a gwasanaethau allweddol drwy hyrwyddo llwybrau cerdded a seiclo byrrach a mwy deniadol a thrafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy ddylanwadu ar leoliad, maint, dwysedd, cymysgedd o ddefnydd a dyluniad datblygiadau newydd.* |
| *Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus yng Nghonwy* | |
| *Amcan Strategol 7 (SO7) Datblygiad Economaidd* | *Cefnogi ffyniant, arallgyfeirio ac adfywio economaidd hirdymor, drwy fanteisio ar le strategol Conwy o fewn y fargen twf ranbarthol ehangach a thrwy hyrwyddo strategaeth cyflogaeth a thai holistig a chydleoledig, fydd yn hwyluso twf swyddi newydd o'r math priodol mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, cefnogi rhwydweithiau a* |

| Teitl yr Amcan | Geiriad yr Amcan |
|---|---|
| | *chlystyrau busnes, cynyddu sgiliau mewn cyflogaeth gwerth uchel a darparu'r seilwaith newydd angenrheidiol, fydd at ei gilydd yn galluogi i fusnesau newydd leoli yng Nghonwy ac i fusnesau presennol dyfu.* |
| *Amcan Strategol 8 (SO8) Twristiaeth* | *Annog a chefnogi darparu twristiaeth gynaliadwy pan fo'n cyfrannu at ffyniant economaidd a datblygiad, cadwraeth, arallgyfeirio gwledig, adfywio a chynhwysiant cymdeithasol, tra'n cydnabod anghenion ymwelwyr, busnesau, cymunedau lleol a'r angen i warchod amgylcheddau hanesyddol a naturiol.* |
| *Amcan Strategol 9 (SO6) Economi Wledig* | *Hyrwyddo a chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog drwy sefydlu mentrau newydd, ymestyn busnesau presennol a thrwy fabwysiadu ymagwedd adeiladol tuag at amaeth ac arferion ffermio newidiol.* |
| *Amcan Strategol 1 (SO1) Ynni a Newid yn yr Hinsawdd* | *Sicrhau cymysgedd briodol o ddarpariaeth ynni, yn cynnwys hyrwyddo Lagŵn Llanwol, sydd yn gwneud y mwyaf o fuddion i economi a chymunedau Conwy ran lleihau'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol posibl.* |
| *Amcan Strategol 11 (SO11) Mwynau a Gwastraff* | *Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effeithiau amgylcheddol bychan a sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn cynnwys cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.* |
| *Lleoedd Neilltuol a Naturiol yng Nghonwy* | |
| *Amcan Strategol 12 (SO12) Tirluniau ac Amgylcheddau Hanesyddol* | *Gwarchod a gwella asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol o ansawdd uchel yng Nghonwy.* |
| *Amcan Strategol 13 (SO13) Ardaloedd Arfordirol* | *Cefnogi cyfleoedd i dyfu, adfywio a datblygu mewn Ardaloedd Arfordirol, ac ar yr un pryd bod yn ymwybodol ac yn ymatebol i'r heriau sydd yn deillio o bwysau naturiol.* |
| *Amcan Strategol 14 (SO14) Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth* | *Gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu rhwydweithiau ecolegol cydnerth.* |
| *Amcan Strategol 15 (SO15) Dŵr, Aer, Seinlun a Golau* | *Lleihau effaith llygredd aer a sŵn, cydbwyso darpariaeth datblygu a goleuo er mwyn gwella diogelwch, a gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn cynnwys ansawdd a swm dŵr wyneb a dŵr tir.* |
| *Amcan Strategol 16 (SO16) datgloi Potensial datblygu drwy Ddadrisgio* | *Datgloi potensial twf, adfywio a datblygu yng Nghonwy drwy ddefnyddio ymagwedd o ddadrisgio.* |

5.2.6 Mae Adran 5 Papur Ymgynghori 1 yn esbonio mai bwriad Amcanion y CDLl arfaethedig yw adlewyrchu Gweledigaeth y CDLl arfaethedig a mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd a chynllunio allweddol a glustnodwyd o ddadansoddiad gwaelodlin ehangach, adolygiadau polisi a thrwy Gwmpasu SA. Mae'r materion yma a glustnodwyd ac Amcanion y CDLl arfaethedig a ddeilliodd o hynny wedi eu grwpio'n thematig yn Nhablau 2 a 3 papur Ymgynghori 1 er mwyn cyfateb i strwythur thematig arfaethedig yr RLDP arfaethedig a strwythur Polisi Cynllunio Cymru Drafft (PPW) - 10fed Argraffiad (2018).

5.2.7 Fel yn achos Gweledigaeth y CDLl arfaethedig, mae Amcanion y CDLl arfaethedig yn ddyheadol ac yn gyffredinol gydnaws â chyflawni deilliannau cynaladwyedd buddiol. Hefyd, mae'r gwerthusiad a ddarperir yn **Atodiad D** yn dangos, o'u darllen fel cyfanwaith, bod y swît o Amcanion y CDLl arfaethedig yn rhoi sylw da i'r rhan fwyaf o'r Amcanion SA o fewn Fframwaith SA CDLl Conwy. Mewn gwirionedd mae geiriad rhai o Amcanion y CDLl arfaethedig (yn arbennig SO2, SO6, SO11, SO12, SO14 a SO16) yn cydweddu ag Amcanion SA thematig a geir yn Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy (**Atodiad C**) tra bod SO1 yn darparu ffocws cryf ar wella llesiant ac ansawdd amgylcheddol.

5.2.8 O'u darllen fel cyfanwaith, mae Amcanion y CDLl arfaethedig felly yn ymateb yn briodol i faterion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd a phroblemau cynllunio. Fodd bynnag, o'u darllen ar eu pennau eu hunain, dim ond un o'r 16 o Amcanion y CDLl all weithredu Gweledigaeth y CDLl arfaethedig neu gyflawni datblygu cynaliadwy yn ehangach. Yr eithriad posibl yw SO1, sydd, fel y mae wedi ei eirio, yn amcanu at "*greu lleoedd cynaliadwy*" ac at fynd i'r afael ag ystod o faterion economaidd gymdeithasol ac amgylcheddol mewn ffordd holistig. Felly gellid dehongli SO1 fel datganiad o weledigaeth thematig ynddo ei hun, er ei fod ar hyn o bryd yn perthyn i Weledigaeth y CDLl arfaethedig. Felly, mae'r berthynas rhwng SO1 a Gweledigaeth y CDLl arfaethedig yn aneglur a dylid ei hesbonio yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig.

5.2.9 Gall ffocws thematig unigol Amcanion y CDLl arfaethedig a'u swm, ynghyd â'r ystyriaeth gyfyngedig a roddwyd i faterion cynaliadwyedd allweddol a deilliannau gofodol yng Ngweledigaeth y CDLl arfaethedig (gweler uchod) arwain at anhawster o ran defnyddio fframwaith strategol y CDLl newydd (h.y. Gweledigaethau ac Amcanion y CDLl) er mwyn mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd allweddol a phroblemau cynllunio. Gallai hynny arwain at densiynau polisi pryd y gellid datblygu polisïau gwrthgyferbyniol fel ymateb i Amcanion unigol y CDLl arfaethedig yn hytrach na gweithredu Gweledigaeth lefel uwch y CDLl a chyfrannu ar lwyddiant Amcanion perthnasol y CDLl drwy wneud hynny. mae argymhellion ynghylch mynd i'r afael â'r mater hwn yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig yn cael eu darparu yn **Adran 6**.

## 5.3 SA o Opsiynau Twf a Gofodol

5.3.1 Papur Ymgynghori 2: Mae'r Opsiynau Lefel Twf a Dosbarthiad Gofodol yn nodi ystod o opsiynau twf a gofodol allai danategu'r Strategaeth a ffafrir ar gyfer yr RLDP arfaethedig. Mae'r papur yma yn amlinellu tri phrif fath o ystyriaethau gofodol ar gyfer yr RLDP arfaethedig ac mae nifer o opsiynau wedi eu nodi ar gyfer pob un:

- Hierarchaeth Aneddiadau;
- Opsiynau Twf (Lefelau Twf Tai a Chyflogaeth hyd at 233); a
- Opsiynau Dosbarthiad Gofodol ar gyfer Twf.

5.3.2 Mae'r opsiynau twf a gofodol yma yn destun SA manwl yn Atodiad E, ac amlinellir y canfyddiadau allweddol isod. Dylid nodi nad yw'r opsiynau hierarchaeth aneddiadau a restrir ym Mhapur Cefndir 2 wedi eu gwerthuso ar wahân oherwydd nad yw clustnodi unrhyw anheddiad unigol yn ardal CBSC fel un sydd â lle penodol yn Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLl ynddo ei hun yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol. Yn hytrach, lefel y twf (tai, cyflogaeth, a datblygiadau eraill) ar draws ardal CBSC a dosbarthiad hynny mewn ardaloedd

penodol ar draws yr hanarchiaeth aneddiadau sydd â'r potensial i arwain at effeithiau arwyddocaol, ac sydd felly angen bod yn destun SA.

5.3.3 Yn **Atodiad E**, mae **Tabl E2.1** yn darparu gwerthusiad o'r opsiynau twf a glustnodwyd, tra bod gwerthusiad o'r opsiynau dosbarthiad gofodol a glustnodwyd yn cael eu nodi yn **Nhabl E3.1**. Fel yn achos yr SA o Weledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl, mae'r SA yma yn canolbwyntio asesu cydnawsedd pob un o'r opsiynau twf a dosbarthiad gofodol unigol gyda Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy, heb rancio'r opsiynau nac argymell set o opsiynau a ffafrir.

5.3.4 Y prif ganlyniadau o'r SA o Opsiynau Twf (**Tabl E2.2**) yw:

- Asesir bod GO2, GO3 a GO4 yn arwain at effeithiau cynaliadwyedd cyffelyb at ei gilydd oherwydd eu bod yn cynnwys lefelau twf cyffelyb at ei gilydd. Er bod yna ansicrwydd anochel yn ystod y cam yma, mae'r effeithiau ar Amcanion SA cysylltiedig ag economeg cymdeithasol yn debygol o fod yn gadarnhaol o dan yr opsiynau twf yma, ac mae yna rai pryderon mewn perthynas ag effeithiau niweidiol tebygol ar yr Amcan SA sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd; ac

- Ystyrir bod GO1 yn debygol o arwain at effeithiau ansicr neu niweidiol o bosibl ar yr Amcanion SA sy'n gysylltiedig ag economeg gymdeithasol ni chynllunnir ar gyfer twf digonol. Fodd bynnag, nid yw hynny yn golygu y byddai'r opsiwn twf yn perfformio'n dda yn nhermau amgylcheddol, oherwydd y tebygolrwydd cynyddol o 'gynllunio ar apêl' petai graddfa twf uwch yn ymddangos yn organig. I'r gwrthwyneb, mae GO5 yn rhagweld graddfa twf sydd o bosibl yn rhy uchelgeisiol ac na ellir ei gyflawni. Mae'n debygol y byddai hynny yn arwain at ymagwedd anghyson tuag at dwf, gydag effeithiau niweidiol dilyniannol mewn perthynas â nifer o'r Amcanion SA.

5.3.5 Y prif ganlyniadau o'r SA o Opsiynau Dosbarthiad Gofodol (**Tabl E3.2**) yw:

- Asesir bod SDO2, SDO3, SDO4, SDO5 yn arwain at effeithiau cynaliadwyedd cyffelyb at ei gilydd oherwydd eu bod yn cynnwys canolbwyntio twf mewn lleoliadau cyffelyb. Er bod yna ansicrwydd anochel yn ystod y cam yma, mae'r effeithiau ar Amcanion SA cysylltiedig ag economeg cymdeithasol yn debygol o fod yn gadarnhaol o dan yr opsiynau dosbarthiad gofodol yma, ac mae yna rai pryderon mewn perthynas ag effeithiau niweidiol tebygol ar yr Amcanion SA sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd; ac

- Mae SDO1 yn ymagwedd ddosbarthu gyffredinol at ei gilydd, allai arwain at effeithiau niweidiol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r Amcanion SA. Yn yr un modd, mae SDO6 yn cynnig anheddiad newydd ond heb gyfiawnhad eglur, ac mae hynny yn arwain at ymagwedd llawn risgiau sydd yn debygol o arwain at effeithiau niweidiol ar draws y sbectrwm o Amcanion SA.

5.3.6 Beth bynnag fo'r hierarchaeth aneddiadau unigol, y lefel twf a'r opsiynau dosbarthiad gofodol a ddewisir i danategu Strategaeth a Ffafrir y CDLl yn Nogfen Cyn Adneuo CDLl Newydd Conwy (y disgwylir fydd yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym Mehefin 219), dylai'r camau liniaru a gwella cyffredinol a ddiffinnir yn **Adran 6** gael eu gweithredu yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig er mwyn sicrhau bod effeithiau niweidiol tebygol yn cael eu hosgoi ac er mwyn gwella perfformiad cynaliadwyedd y cynllun.

# 6 Argymhellion Lliniaru a Gwella

## 6.1 Trosolwg

6.1.1 Mae clustnodi unrhyw dybiaethau ac ansicrwydd yn elfen bwysig o'r SA, oherwydd mae angen i bobl elfen o'r RLDP arfaethedig fod yn ddiamwys er mwyn sicrhau y gellir eu gweithredu yn ôl y bwriad. Hefyd, mae Rheoliadau SEA yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried "*y camau a ragwelir er mwyn atal, lleihau a gwrthbwyso cymaint a phosibl unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu'r cynllun neu raglen".* Felly, un o rolau allweddol y broses SA, gan ymgorffori SEA, yw dyfeisio argymhellion lliniaru a gwella priodol er mwyn mynd i'r afael ag ansicrwydd, datrys diffygion a chryfhau perfformiad cynaliadwyedd y cynllun neu raglen a asesir.

6.1.2 Mae yna nifer o ddulliau cyffredinol y gellir eu defnyddio i liniaru effeithiau niweidiol neu ansicr posibl o ganlyniad i elfennau'r CDLl, ac i wella cyfraniad yr RLDP arfaethedig at ddarparu datblygiadau cynaliadwy yn ehangach. Mewn perthynas ag elfennau strategol y CDLl yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd drwy'r Papurau Ymgynghori Cyn Adneuo, mae'r dulliau yma yn canolbwyntio ar:

- Addasu neu ymestyn geiriad elfennau presennol y CDLl a gynigir er mwyn sicrhau y gellir gweithredu'r rhain yn llwyddiannus ac yn ôl y bwriad wrth amcanu at ddatblygu cynaliadwy. Gallai hynny gynnwys esbonio mecanweithiau cyflenwi neu gryfhau'r geiriad er mwyn helpu i gyflawni'r allbwn a dymunir o bob elfen o'r RLDP arfaethedig; a/neu

- Dyfeisio a gweithredu elfennau CDLl ychwanegol yn yr RLDP arfaethedig er mwyn sicrhau materion cynaliadwyedd allweddol na ymdrinnir yn llawn â nhw yn elfennau'r CDLl fel y'u cynigir ar hyn o bryd, neu er mwyn lliniaru effeithiau newidiol posibl o ganlyniad i'r elfennau a gynigir ar hyn o bryd. Maes o law, gallai hynny gynnwys datblygu briffiau safle benodol er mwyn sicrhau bod dyraniadau safle unigol, fel rhan o opsiynau twf a gofodol ehangach, yn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol.

6.1.3 Mae asesiad o bob elfen sylweddol o'r CDLl neu gynnig yn y Papurau Ymgynghori Cyn Adneuo wedi cael ei gynnal ar sail cyn lliniaru er mwyn caniatáu i unrhyw amwyseddau neu wendidau eraill gael eu clustnodi. Mae hynny wedi galluogi i'r tîm ymgynghori annibynnol sydd yn cynnal yr SA i ddatblygu argymhellion lliniaru a gwella priodol, fel y manylir ar hynny isod. Er mwyn mynd i'r afael â'r ansicrwydd, anghysonderau a'r materion a glustnodir yn **Adran 5** ac **Atodiad D** ac **E,** dylid ymdrin â'r argymhellion yma yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig. Bydd hynny yn helpu i ddangos sut mae'r SA wedi hysbysu ac wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygu'r RLDP arfaethedig.

## 6.2 Addasiadau a Argymhellir i Weledigaeth Arfaethedig y CDLl

6.2.1 Mae SA o Weledigaeth arfaethedig y CDLl (**Adran 5.2** ac **Atodiad D**) yn dod i'r casgliad, er bod yr elfen arfaethedig yma o'r CDLl yn gydnaws â Fframwaith SA CDLl Conwy, mae ganddi ymgysylltiad uniongyrchol cyfyngedig a materion cynaliadwyedd allweddol unigol a phroblemau cynllunio. Bu i'r SA hefyd ddod i'r casgliad y gallai dibyniaeth ar dermau cyfalafedig o gynlluniau eraill (yn benodol y PPW Drafft - 10fed Argraffiad[4]) wanhau natur weledigaethol yr elfen hon a'i gallu i lywio holl elfennau sylweddol eraill yr RLDP arfaethedig. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, argymhellir, yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig y dylai Gweledigaeth arfaethedig y CDLl gael ei ymestyn i:

[4] Mae Polisi Cynllunio Cymru Drafft - 10fed Argraffiad nawr wedi cael ei ddisodli gan y Polisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad Terfynol (Rhagfyr 2018). Mae'r Polisi Cynllunio Cymru blaenorol - 9fed Argraffiad wedi cael ei ddirymu.

- Glustnodi materion cynaliadwyedd a chynllunio penodol neu heriau y dylai'r RLDP arfaethedig fynd i'r afael â nhw. Mewn perthynas â hynny, byddai'n briodol i Weledigaeth y CDLl gydnabod yn bendant yr angen i gefnogi twf economaidd, gwella ansawdd amgylcheddol, diogelu amwynderau a gwella ansawdd bywyd i bobl sydd yn byw neu'n

- gweithio yn ardal CBSC. Hefyd, dylai elfennau thematig Amcan SO1 y CDLl gael eu hymgorffori mewn Gweledigaeth estynedig i'r CDLl;

- Wedi ei gysylltu â'r argymhelliad blaenorol, dylid ystyried creu lleoedd fel galluogydd deilliannau gofodol cadarnhaol yn hytrach nag amcan terfynol ynddo ei hun. Oherwydd hynny, byddai Gweledigaeth y CDLl yn elwa o fwy o eglurder mewn perthynas ag ystyr "creu lleoedd cynhwysol" a'r nod o greu a gwella "lleoedd cynaliadwy". Dylid defnyddio termau normadol er mwyn darparu darlun clir o'r newid a ddymunir drwy'r RLDP arfaethedig o'i gymharu â'r sefyllfa waelodlin neu senarios dim CDLl; a

- Dylid ystyried lleihau dibyniaeth ar delerau cyfalafog cynlluniau eraill o fewn y CDLl arfaethedig, neu gynnwys croesgyfeiriad manwl yng Ngweledigaeth y CDLl i esbonio tarddiad y telerau hynny a pham eu bod yn briodol i fod yn sail i'r RLDP newydd. Tra bo'r telerau y cyfeiriwyd atynt yng Ngweledigaeth y CDLl arfaethedig yn parhau i fod yn berthnasol yng nghyd-destun y Polisi Cynllunio Cymru terfynol - 10fed Argraffiad (Rhagfyr 2018) ac maent yn crynhoi ystod o gynaliadwyedd perthnasol a materion cynllunio, mae dibynnu ar y telerau hyn yn atal y Weledigaeth rhag nodi datganiad clir a gweledigaethol.I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, awgrymir y weledigaeth drafft canlynol:

*GWELEDIGAETH CONWY 2033*
*Bydd Sir Conwy yn parhau i fod yn ardal ffyniannus yng Ngogledd Cymru, gyda economi cynaliadwy sy'n seiliedig ar egwyddorion sy'n hyrwyddo twf ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bawb, wrth ddiogelu tirwedd unigryw yr ardal, treftadaeth ac asedau amgylcheddol ehangach. Bydd canolbwynt newydd ar ddylunio mannau cyhoeddus ac adfywio yn sicrhau bod datblygiad o safon uchel yn cefnogi creu lleoedd iachach a bywiog, gyda thai, gwaith a thwf isadeiledd ar gyfer lleoliadau cynaliadwy i fodloni anghenion preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr. Drwy gwell mewnfuddsoddi, darpariaeth isadeiledd a diogelu'r Gymraeg yn dda, bydd Conwy yn beiriant twf economaidd a diwylliannol i Ogledd Cymru. Bydd yn le cystadleuol ac yn fwy cynhwysol, a fydd yn cynnwys ansawdd bywyd da i bawb, ansawdd amgylcheddol gwell a lefelau lles gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd gan Gonwy rwydwaith ffyniannus o bentrefi a threfi, yn ogystal â economi gweledig hyfyw sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd naturiol.*

*Caiff y weledigaeth hon i Gonwy ei chyflawni drwy gynnwys pob budd-ddeiliaid ymg mhroses gynllunio'r 5 ffordd canlynol o weithio (cydweithio, atal, integreiddio tymor hir a chyfranogi) ac anelu i ddarparu datblygu cynaliadwy. Bydd ymdrechion creu lleoedd ac adfywio felly'n canolbwyntio ar ddarparu datrysiadau'n seiliedig ar leoedd ar gyfer heriau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n wynebu'r ardal. Caiff y weledigaeth ei gweithredu felly drwy fynd i'r afael â'r nodau a'r amcanion strategol canlynol, ac yn ei dro, drwy weithredu polisïau a chynigion cysylltiedig.*

6.2.2 Mae drafft Gweledigaeth wahanol y CDLl yn cwmpasu hanfod y Polisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad a'r rhaglen lles a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd ag adlewyrchu materion amgylcheddol a economaidd-gymdeithasol yng Nghonwy. Mae'n osgoi cyfeirio at themâu a phenawdau uniongyrchol o ddogfennau polisi eraill er mwyn diogelu ei bwrpas gweledigaethol a gosod ffocws benodol. Awgrymir y gellir cael cyfeiriadaeth briodol at themâu a phenawdau'r polisi cynllunio cenedlaethol o fewn Amcanion thematig unigol y CDLl o dan y Weledigaeth, fel y manylir arno isod.

6.2.3 Mae drafft arall Gweledigaeth y CDLl wedi cael ei gynnig fel lliniariad gan y Tîm Prosiect SA ar y cam hwn ac nid yw'n cynrychioli Gweledigaeth CDLl arfaethedig CBSC. Bydd gofyn i unrhyw Weledigaeth CDLl arall sy'n cael ei gymryd ymlaen fel cydran sylweddol o'r RDLP newydd fod yn amodol i'r SA, ymgorffori SEA, mewn perthynas ag unrhyw ddogfen ymgynghori CDLl

sylweddol lle y caiff ei nodi fel cynnig ffurfiol. Mae hyn yn golygu, efallai y bydd agen ail asesu Gweledigaeth y CDLl yn yr Adroddiad SA nesaf sy'n dod gyda Strategaeth CDLl a Ffafrir a'r Dogfennau Cyn-Adneuo.

## 6.3 SA o Amcanion

6.3.1 Mae'r SA o Amcanion y CDLl arfaethedig (**Adran 5.2** ac **Atodiad D**) yn dod i'r casgliad bod yr elfennau yma yn gyffredinol gydnaws â chyflawni deilliannau cynaliadwyedd buddiol, ac mewn nifer o achosion mae eu geiriad yn debyg iawn i'r Amcanion SA a ddiffiniwyd yn Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy (**Atodiad C**). Fodd bynnag, gall ffocws thematig unigol Amcanion y CDLl arfaethedig a'u swm (16), ynghyd â'r ystyriaeth gyfyngedig a roddwyd i faterion cynaliadwyedd allweddol a deilliannau gofodol yng Ngweledigaeth y CDLl arfaethedig (gweler uchod) arwain at anhawster o ran defnyddio fframwaith strategol y CDLl newydd (h.y. Gweledigaethau ac Amcanion y CDLl) er mwyn mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd allweddol a phroblemau cynllunio. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a gwella perfformiad cynaliadwyedd yr RLDP arfaethedig, argymhellir, yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig y dylai'r swît o 16 o Amcanion arfaethedig y CDLl gael ei addasu i:

- Ymgorffori Amcan 1 y CDLl arfaethedig mewn Gweledigaeth CDLl estynedig yn hytrach na fel amcan unigol. Gallai cynnwys mwy o gynnwys normadol a thematig yng Ngweledigaeth y CDLl ddarparu cyfleoedd i leihau nifer yr Amcanion thematig yn y CDLl o dan y Weledigaeth;
- Amcanion thematig cysylltiedig â sail resymegol er mwyn lleihau eu niferoedd. Bydd angen hynny ar Amcanion y CDLl arfaethedig er mwyn darparu set o flaenoriaethau clir y gellir eu rheoli er mwyn llywio holl elfennau sylweddol eraill y RLDP arfaethedig ac er mwyn lleihau tensiynau polisi posibl. Er mwyn cadw ffocws ar yr holl faterion cynaliadwyedd a chynllunio perthnasol a nodwyd yn Amcanion y CDLl arfaethedig fel y'u drafftiwyd, gellid ailffurfio agweddau thematig fel 'deilliannau' o dan set resymedig o Amcanion y CDLl ehangach; a
- Dylid ystyried dyrchafu statws ac ymestyn cynnwys y pedwar is bennawd a ddefnyddiwyd yn Nhablau 2 a 3 Papur Ymgynghori 1 er mwyn grwpio Amcanion y CDLl arfaethedig. Gallai'r penawdau yma fod yn 'nodau strategol' defnyddiol, a thrwy hynny fod yn elfennau sylweddol o'r RLDP arfaethedig ynddynt eu hunain, gydag Amcanion thematig y CDLl oddi tanynt.

## 6.4 SA o Opsiynau Twf a Dosbarthiad Gofodol

6.4.1 Beth bynnag fo'r hierarchaeth aneddiadau unigol, y lefel twf a'r opsiynau dosbarthiad gofodol a ddewisir i danategu Strategaeth a Ffafrir y CDLl yn Nogfen Cyn Adneuo CDLl Newydd Conwy (y disgwylir fydd yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori ym Mehefin 219), dylai'r camau liniaru a gwella cyffredinol a restrir isod gael eu gweithredu yn y fersiwn nesaf o'r RLDP arfaethedig er mwyn sicrhau bod effeithiau niweidiol tebygol yn cael eu hosgoi ac er mwyn gwella perfformiad cynaliadwyedd y cynllun:

- Y prif gam lliniaru er mwyn osgoi a lliniaru effeithiau o ganlyniad i'r hierarchaeth aneddiadau a ddewisir a'r opsiynau twf a dosbarthiad gofodol fydd drwy fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth tuag at ddatblygu strategaethau isardal a dewis safleoedd arfaethedig addas ar gyfer dyrannu safleoedd y CDLl er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy. Drwy leihau twf a dyraniadau safle mewn ardaloedd sydd o werth cadwraeth natur hysbys, dyrannu safleoedd sydd â mynediad da at ystod o wasanaethau, swyddi a chyfleusterau o fewn pellter cerdded neu â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol; osgoi ardaloedd â sensitifrwydd tirlun uchel, etc.;

- Dylai'r SA o safleoedd arfaethedig a gynhelir gan CBSC ganiatáu lliniaru lefel polisi priodol a chlustnodi egwyddorion dylunio safle benodol er mwyn helpu i osgoi a lliniaru effeithiau posibl;

- Os bwrir ymlaen â'r opsiynau twf a dosbarthiad gofodol gan gynnwys crynodi twf mewn ardaloedd trefol, dylai CBSC astudiaethau capasiti seilwaith er mwyn sicrhau y gellir cynllunio ar gyfer pwysau datblygu ar aneddiadau y byddir yn effeithio arnynt, ac y gellir osgoi effeithiau niweidiol cronnol arwyddocaol.

## 6.5 Y Camau Nesaf

6.5.1 Mae'r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd ('Adroddiad SA'') wedi dogfennu canfyddiadau'r SA a gynhaliwyd mewn perthynas â cham cyntaf yr Adolygiad o'r CDLl, sef Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo. Yn ystod y cam hwn, mae Gweledigaeth o Amcanion a swît o opsiynau twf a gofodol posibl y CDLl arfaethedig yn destun ymgynghoriad er mwyn hysbysu cynnwys yr RLDP arfaethedig. Yn dilyn ymgynghoriad chwe wythnos ar yr elfennau CDLl yma a'r Adroddiad SA yma, bydd CBSC yn adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn datblygu Strategaeth a Ffafrir y CDLl. Bydd hynny yn cadarnhau'r Weledigaeth, Amcanion, Opsiwn Twf a Dosbarthiad Gofodol a Blaenoriaethau Polisi fydd yn tanategu'r RLDP arfaethedig.

6.5.2 Bydd Strategaeth a Ffafrir y CDLl a'r Dogfennau Cyn Adneuo'r CDLl ehangach yn destun SA, a byddit yn ymgynghori ar yr Adroddiad SA cysylltiedig ar yr un pryd a dogfennau ymgynghori sylweddol y CDLl ym Mehefin 2018. Ar ôl hynny, bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu a bydd CBSC yn bwrw ymlaen i ddatblygu Dogfen y CDLl Adneuo, fydd yn nodi CDLl arfaethedig newydd cyflawn ar gyfer ardal CBSC. Yna, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad arall yn Ionawr 22 (yn cynnwys ar Adroddiad SA ar Ddogfen y CDLl Adneuo) ac Archwiliad Cyhoeddus dilynol, mae CBSC yn bwriadu mabwysiadu CDLl Newydd terfynol Conwy yn 221 (h.y. cyn y daw CDLl presennol Conwy i ben).

# Appendix A Adolygiad Gwaelodlin

## A.1 Cyflwyniad

A.1.1 Mae'r Atodiad yma yn ategu **Adran 4** Sgrinio ac Adroddiad SA Adolygiad o CDLl Conwy (gan ymgorffori SEA) drwy ddarparu adolygiad o amodau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol yn yr ardal sydd yn debygol o gael eu heffeithio gan yr Adolygiad o CDLl Conwy a'r RLDP arfaethedig, yn benodol (ond nid yn unig) ardal weinyddol CBSC. Wrth wneud hynny, mae'r adolygiad yma yn:

- Clustnodi agweddau a nodweddion perthnasol o'r amgylchedd, yn cynnwys y rhai hynny y mae'n debygol y byddir yn effeithio'n arwyddocaol arnynt o ganlyniad i ddeilliant yr Adolygiad o'r CDLl (h.y. y RLDP arfaethedig). Mae hynny yn cynnwys dynodi safleoedd a ddynodwyd ar lefelau rhyngwladol neu genedlaethol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd geolegol, treftadaeth neu werth tirluniol, y mae'n bosibl y bydd yr Adolygiad o'r CDLl yn effeithio arnynt;

- Clustnodi tueddiadau cymdeithasol economaidd ac amodau gwaelodlin perthnasol, ac eto'n canolbwyntio ar faterion y mae'n debygol y byddir yn effeithio'n arwyddocaol arnynt o ganlyniad i ddeilliant yr Adolygiad o'r CDLl (h.y. y RLDP arfaethedig); ac

- Amlinellu sut y dylid ymdrin â'r nodweddion amgylcheddol a chymdeithasol economaidd a glustnodwyd a'r amodau gwaelodlin mewn CDLl newydd i Gonwy a sut y dylid eu hystyried yn yr SA yma. Mae'r termau "rhaid" a "dylai" yn cael eu defnyddio er mwyn gwahaniaethu rhwng gofynion statudol i ystyried materion penodol ac ystyriaethau anstatudol, er enghraifft, tystiolaeth o ddadansoddiad gwaelodlin sydd yn dangos angen i wella ansawdd amgylcheddol.

A.1.2 Yna defnyddir y dystiolaeth yma er mwyn:

- Amlinellu esblygiad yr amodau cynaliadwyedd gwaelodlin (yn cynnwys amgylcheddol) yn absenoldeb yr Adolygiad o'r CDLl; a

- Diffinio swît o faterion cynaliadwyedd allweddol y bydd angen ymdrin â nhw yn yr Adolygiad o'r CDLl ac y dylid eu hystyried drwy gydol proses yr SA yma (gan ymgorffori SEA).

A.1.3 Felly, pwrpas yr adolygiad gwaelodlin yma yw hysbysu cynigion arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl a chynnwys Fframwaith SA fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu holl elfennau sylweddol yr Adolygiad o'r CDLl (h.y. yr holl bolisi arfaethedig ac opsiynau safle, yn cynnwys dewisiadau amgen rhesymol i'r rhai a ffafrir gan CBSC).

## A.2 Trosolwg o'r Safleoedd Dynodedig

A.2.1 Mae **Tabl A2.1** yn dynodi safleoedd a ddynodwyd ar lefelau rhyngwladol neu genedlaethol neu leol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd geolegol, treftadaeth neu werth tirluniol, yr ystyrir ei bod yn bosibl y bydd yr Adolygiad o'r CDLl yn effeithio arnynt; Mae angen ystyried cyd-destun safle benodol y safleoedd dynodedig yma wrth gyfleu nodweddion y safle waelodlin o ran cynaliadwyedd, a nodi perthnasedd materion a phroblemau presennol i'r Adolygiad o'r CDLl, fel y manylir ar hynny yn **Adran A.3**.

Tabl A2.1: Safleoedd Dynodedig sy'n berthnasol i Adolygiad o CDLl Conwy

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| **Bioamrywiaeth** | | | | |
| **Rhyngwladol/Ewropeaidd** | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 3 SPA:<br>- Migneint-Arennig-Dduallt<br>- Traeth Lafan, Bae Conwy<br>- Bae Lerpwl | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA) | Mae'r SPAau a glustnodwyd wedi cael eu dynodi oherwydd eu bod yn cefnogi adar prin sydd yn agored i niwed (fel y'u rhestrir yn Atodiad 1 Cyfarwyddeb 29/147/EC ar gadwraeth adar prin - 'y Gyfarwyddiaeth Adar') a rhywogaethau mudol rheolaidd. | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl gefnogi rheoli pob safle dynodedig rhyngwladol (yn cynnwys Safleoedd Ewropeaidd posibl neu newydd arfaethedig) wrth amcanu at gyflawni eu hamcanion cadwraethol diffiniedig. | Mae'n rhaid i'r Amcanion SA roi gwarchodaeth ddigonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan ystyried eu nodweddion safle benodol a nodweddion cymwys. |
| Mae ardal y SAC yn gartref i 8 SACs:<br>- Coedwigoedd Dyffryn Elwy<br>- Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn<br>- Coedydd Aber<br>- Eryri<br>- Pen y Gogarth<br>- Migneint-Arennig-Dduallt<br>- Mwyngloddiau Fforest Gwydir<br>- Y Fenai a Bae Conwy | Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) | Mae'r SACau a arenwyd wedi eu dynodi oherwydd eu cyfraniad arwyddocaol at gadwraeth y 189 a fathau o gynefinoedd a'r 788 o rywogaethau a arenwyd yn Atodiad I a II Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (y 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd'). | | |
| Mae yna un safle Ramsar yn ardal CBSC:<br>- Llyn Idwal | Safle Ramsar | Mae Safleoedd Ramsar yn wlypdiroedd yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol o dan Gonfensiwn Ramsar. Ar hyn o bryd mae gan Gymru 1 safle Ramsar a ddynodwyd fel "Gwlypdiroedd o Bwysigrwydd rhyngwladol", yn cynnwys Llyn Idwal. | | |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| **Cenedlaethol** | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 51 SSSI a ddynodwyd am resymau cadwraeth bioamrywiaeth neu nodweddion ecolegol pwysig:<br>Aber Afon Conwy<br>- Porfeydd Afon Conwy<br>- Coed Benarth<br>- Cors Blaen Y Wergloedd<br>- Bryn Euryn<br>- Cae'r Felin<br>- Ceunant Dulyn<br>- Chwythlyn<br>- Coed Cae-Awr<br>- Coed Dolgarrog<br>- Coed Ffordd-Las<br>- Coed Gorswen<br>- Coed Llys-Aled<br>- Coed Merchlyn<br>- Coed Nant-Y-Merddyn-Uchaf<br>- Coed Y Gopa<br>- Coedydd Aber<br>- Coedydd Derw Elwy<br>- Coedydd Dyffryn Alwen<br>- Corsydd Nug A Merddwr<br>- Creuddyn<br>- Porfeydd Eidda<br>- Coed Fairy Glen<br>- Calchfaen Llanddulas a Choed Castell Gwrych<br>- Llyn Bychan<br>- Llyn Creiniog<br>- Llyn Goddionduon<br>- Llyn Ty'n Y Llyn<br>- Llyn Ty'n Y Mynydd<br>- Llyn Y Fawnog | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) | Mae'r SSSIau a arenwyd wedi eu dynodi oherwydd presenoldeb mathau o gynefinoedd prin o bwysigrwydd cenedlaethol ynddynt. | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl gefnogi rheoli pob safle dynodedig cenedlaethol wrth amcanu at gyflawni eu hamcanion cadwraethol diffiniedig. | Mae'n rhaid i'r Amcanion SA roi gwarchodaeth ddigonol i ddynodiadau cenedlaethol, gan ystyried eu nodweddion safle benodol a buddiannau cymwys. |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| - Llynnau Bodgynydd<br>- Morfa Uchaf, Dyffryn Conwy<br>- Mosshill<br>- Mynydd Hiraethog<br>- Mynydd Marian<br>- Cronfeydd Dŵr Pandora<br>- Cors Plas Iolyn<br>- Plas Maenan<br>- Pont Bancog<br>- Bwlch Sychnant<br>- Traeth Lafan<br>- Traeth Pensarn<br>- Y Glyn-Diffwys<br>- Afon Llugwy<br>- Chwareli A Glaswelltir Degannwy<br>- Coedydd Ac Ogofau Elwy A Meirchion<br>- Creigiau Rhiwledyn<br>- Eryri<br>- Migneint-Arennig-Dduallt<br>- Mwyngloddiau A Chreigiau Gwydyr<br>- Pen Y Gogarth | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 6 NNR:<br>- Coed Dolgarrog<br>- Coed Gorswen<br>- Cwm Glas Crafnant<br>- Cwm Idwal<br>- Hafod Elwy Moor<br>- Maes-Y-Facrell, Pen Y Gogarth | Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) | Dynodwyr NNRau er mwyn ymestyn cadwraeth ac astudiaeth o fywyd gwyllt, cynefinoedd a nodweddion geolegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r holl NNRau yng Nghymru hefyd wedi eu dynodi'n statudol fel SSSIau. | | |
| **Lleol** | | | | |
| Mae CBSC wedi dynodi dros 4 o Ardaloedd Bioamrywiaeth ar dir sydd yn eiddo i'r Cyngor neu e reolir ganddo. | Ardaloedd Bioamrywiaeth | Mae CBSC yn rheoli Ardaloedd Bioamrywiaeth er lles bywyd gwyllt ac | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ddarparu lefel briodol o | Mae'n rhaid i amcanion SEA perthnasol roi lefel ddigonol o warchodaeth i bob safle |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| | | mae'n annog mynediad atynt i bobl eu mwynhau. | warchodaeth a chyfleoedd i wella ar gyfer safleoedd bioamrywiaeth a ddynodwyd ar lefel leol. | dynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. |
| Mae'r LNRau canlynol wedi eu dynodi gan NRW yn ardal weinyddol CBSC.<br>- Bryn Cadno<br>- Fairy Glen<br>- Nant y Groes<br>- The View<br>- Bryn Euryn<br>- Twyni Cinmel<br>- Traeth Pensarn<br>- Llwybr darganfod CoedPwllycrochan<br>- Mynydd Marian<br>- Coed Pwllycrochan<br>- Pen y Gogarth<br>- Coed Bodlondeb<br>- Coed Nant Eirias Uchaf<br>- Traeth Lafan | Gwarchodfa Natur Leol (LNR) | Mae LNRau yn safleoedd sydd a bywyd gwyllt neu geoleg diddorol and maent hefyd yn bwysig i drigolion lleol, ysgolion, ac yn lleoedd ble gall pobl nad oes ganddynt ddiddordeb penodol mewn astudiaethau natur fwynhau mynediad at fyd natur. Mae CBSC yn amcanu at wneud LNRau yn esiamplau o ran rheoli safleoedd dynodedig a mannau gwyrdd, gydag amcanion ar gyfer cadwraeth natur, darparu cyfleoedd i astudio a chaniatáu mynediad at hamdden. | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ddarparu lefel briodol o warchodaeth a chyfleoedd i wella ar gyfer gwarchodfeydd natur a ddynodwyd ar lefel leol. | Mae'n rhaid i amcanion SEA perthnasol roi lefel ddigonol o warchodaeth i bob safle dynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. |
| **Geolegol** | | | | |
| **Cenedlaethol** | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 12 SSSI a ddynodwyd am resymau pwysigrwydd geolegol:<br>- Afon Llugwy<br>- Cloddfa Bwlch<br>- Cadnant<br>- Chwareli A Glaswelltir Degannwy<br>- Coedydd Ac Ogofau Elwy A Meirchion<br>- Cors Geuallt<br>- Creigiau Rhiwledyn<br>- Eryri | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) | Mae SSSIau wedi eu dynodi oherwydd presenoldeb nodweddion geolegol cenedlaethol bwysig neu brin. | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl gefnogi rheoli pob safle dynodedig cenedlaethol er mwyn cynnal neu wella eu cyflwr presennol. | Mae'n rhaid i'r Amcanion SA roi gwarchodaeth ddigonol i ddynodiadau cenedlaethol, gan ystyried eu nodweddion safle benodol a buddiannau cymwys. |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| - Migneint-Arennig-Dduallt<br>- Mwyngloddiau A Chreigiau Gwydyr<br>- Pen Y Gogarth<br>- Chwarel Ty'n Y Ffordd | | | | |
| **Lleol** | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 24 RIGS, ac mae 18 ohonynt yn ardal CBSC sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri:<br>- Llyn Aled Isaf (Hiraethog)<br>- Bryn Pydew<br>- Ffridd y mynydd<br>- Creigiau Rhiwledyn<br>- Llyn Aled (Ynys)<br>- Chwarel Bodysgallen<br>- Glannau Gogledd Llandudno<br>- Pen y Gogarth<br>- Maen Crwydr Bodysgallen<br>- Pant Ffernant<br>- Gwthiad Rhiwledyn<br>- Bryniau Cochion<br>- Ty Mawr<br>- Nant y Graig, Llednant Elwy<br>- Nant y Croen-llwm<br>- Cefn yr Ogof<br>- Cloddfa Llanfair<br>- Pen y Gogarth (Marcham) | Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Bwysig (RIGS) | Mae RIGS yn safleoedd a ddynodir yn lleol o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer geoamrywiaeth. | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ddarparu lefel briodol o warchodaeth i safleoedd geoamrywiaeth a ddynodwyd yn lleol o bwysigrwydd rhanbarthol. | Mae'n rhaid i amcanion SEA perthnasol roi lefel ddigonol o warchodaeth i bob safle dynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. Hefyd, mae angen asesu effeithiau tebygol ar nodweddion geolegol o dan destun amgylcheddol 'pridd' fel y rhagnodir hynny yn Atodlen 2 Rheoliadau SEA. |
| **Treftadaeth Ddiwylliannol** | | | | |
| **Rhyngwladol** | | | | |
| Castell Conwy | Safleoedd Treftadaeth y Byd | Mae UNESCO yn ystyried bod Castell Conwy yn "*un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth milwrol diwedd y 13eg ganrif a dechrau'r 14eg ganrif yn Ewrop*". | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl gefnogi gwarchod a gwella pob ased treftadaeth a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn | Mae'n rhai i amcanion SA perthnasol roi digon o warchodaeth i asedau treftadaeth a ddynodir yn genedlaethol, gan ystyried |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| | | | cynnwys eu gosodiadau. Mae'r asedau treftadaeth a glustnodwyd yn elwa o warchodaeth statudol y mae'n rhaid eu hystyried mewn polisïau, cynigion a chanllawiau yn y CDLl newydd. | nodweddion safle benodol a pherthnasedd asedau treftadaeth i ardal CBSC. |
| **Cenedlaethol** | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 162 o Henebion Rhestredig. | Henebion Rhestredig (SM) | Mae ystod eang o strwythurau hanesyddol yn CBSC wedi cael eu dynodi, yn cynnwys bryngaerau, capeli, meini hir, pontydd, cestyll a charneddau, y mae pwysigrwydd hanesyddol i bob un ac sydd yn nodweddion pwysig yn y tirlun. | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl gefnogi gwarchod a gwella pob ased treftadaeth a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn cynnwys eu gosodiadau. Mae'r asedau treftadaeth a glustnodwyd yn elwa o warchodaeth statudol y mae'n rhaid eu hystyried mewn polisïau, cynigion a chanllawiau yny CDLl newydd. | Mae'n rhai i amcanion SA perthnasol roi digon o warchodaeth i asedau treftadaeth a ddynodir yn genedlaethol, gan ystyried nodweddion safle benodol a pherthnasedd asedau treftadaeth i ardal CBSC. |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 1735 o adeiladau rhestredig, y mae 29 ohonynt yn Radd I, 161 yn Radd 2 a 96 yn Radd 2*. | Adeiladau Rhestredig | Mae ystod eang o strwythurau ac adeiladau wedi cael eu rhestru oherwydd eu nodweddion o bwysigrwydd pensaernïol. | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 24 o Ardaloedd Cadwraeth:<br>- Afon Llugwy<br>- Cloddfa Bwlch<br>- Cadnant<br>- Chwareli A Glaswelltir Degannwy<br>- Coedydd Ac Ogofau Elwy A Meirchion<br>- Cors Geuallt<br>- Creigiau Rhiwledyn<br>- Eryri<br>- Migneint-Arennig-Dduallt | Ardaloedd Cadwraeth | Mae'r Ardaloedd Cadwraeth dynodedig wedi eu cysylltu â chlystyrau o Adeiladau rhestredig neu strwythurau eraill o bwysigrwydd pensaernïol. | | |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| - Mwyngloddiau A Chreigiau Gwydyr<br>- Pen Y Gogarth<br>- Chwarel Ty'n Y Ffordd | | | | |
| Mae ardal CBSC yn gartref i 29 o Dirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol.<br><br><u>Tirluniau Hanesyddol</u><br>- Dyffryn Conwy Isaf<br>- Creuddyn a Conwy<br>- Gogledd Arllechwedd (yn croesi ffin LPSA)<br>- Mynydd Hiraethog (yn croesi ffin LPSA)<br><br><u>Parciau a Gerddi Hanesyddol</u><br>- Happy Valley<br>- Gerddi Heulfre<br>- Neuadd Benarth<br>- Bryn y Neuadd<br>- Wern Isaf (Rosebriars)<br>- Plas Madoc<br>- Gwydir<br>- Hafodunos<br>- Foelas<br>- Garthewin<br>- Parc Cinmel<br>- Coed Coch<br>- Castell Gwrych<br>- Plas Uchaf<br>- Plas yn llan<br>- Bodnant<br>- Oak Bank/Melin Bulkeley<br>- Neuadd Caer Rhun<br>- Gloddaeth (Coleg Dewi Sant)<br>- Bodysgallen | Tirluniau, Parciau a Gerddi Hanesyddol | Bu i Ddeddf amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 roi cyfrifoldeb statudol ar Weinidogion Cymru i gwblhau a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rhestr yn gatalog cynhwysfawr o barciau a gerddi Cymru o ddiddordeb hanesyddol arbennig, ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o safleoedd. | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl gefnogi gwarchod a gwella pob ased treftadaeth a ddynodwyd yn rhyngwladol, yn cynnwys eu gosodiadau.<br><br>Yng ngoleuni'r adolygiad parhaus o Barciau a Gerddi Rhestredig, gallai safleoedd newydd gael eu hychwanegu at y gofrestr yn ystod yr Adolygiad o'r CDLl a byddai angen eu hystyried. | Mae'n rhai i amcanion SA perthnasol roi digon o warchodaeth i asedau treftadaeth a ddynodir yn genedlaethol, gan ystyried nodweddion safle benodol a pherthnasedd asedau treftadaeth i ardal CBSC.<br><br>Mae angen rhoi ystyriaeth yn yr SA i unrhyw safle newydd fydd yn cael eu hychwanegu at y gofrestr yn ystod yr Adolygiad o'r CDLl |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| - Bryn Eisteddfod<br>- Bae Colwyn - Cotswold<br>- Tŷ Condover<br>- Bae Colwyn – The Flagstaff<br>- Hendre | | | | |
| **Tirlun** | | | | |
| **Cenedlaethol** | | | | |
| . | Parc Cenedlaethol Eryri | Wedi ei ddynodi fel Parc Cenedlaethol yn 1951, Parc Cenedlaethol Eryri yw'r un mwyaf a'r cyntaf i gael ei ddynodi yng Nghymru. Mae'n cynnwys ardal sy'n 2013,2 hectar. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys rhannau o Wynedd a rhannau o ardal CBSC. Mae'r Parc Cenedlaethol yn destun rheolaeth gynllunio ar wahân gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'n gynwysedig yn CDLl Eryri. Mabwysiadwyd y CDLl Eryri cyntaf yng Ngorffennaf 2011, ac ar adeg ysgrifennu hyn (Gorffennaf 2018) mae archwiliad annibynnol o Adolygiadau Ffurf Byr arfaethedig o'r CDLl yn mynd rhagddo.<br><br>Amcanion statudol Parc Cenedlaethol Eryri yw<br>- "Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal", a<br>- *"Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal."* | Mae gosodiad Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyriaeth berthnasol, sydd yn golygu y bydd raid ystyried effeithiau gweledol datblygiadau yn ofalus fel na ymyrrir yn arwyddocaol ar olygfeydd o'r ardal tirlun dynodedig.<br><br>Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ddarparu lefel briodol o warchodaeth a chyfleoedd i wella'r rhinweddau arbennig ac asedau treftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Eryri. | Mae'n rhaid i amcanion SA perthnasol roi lefel ddigonol o warchodaeth i bob safle dynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. |
| Arfordir Treftadaeth Pen y Gogarth | Arfordir Treftadaeth | | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r | Mae'n rhaid i amcanion SA perthnasol roi lefel ddigonol o |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| | | | CDLl ddarparu lefel briodol o warchodaeth a chyfleoedd i wella ar gyfer tirluniau a ddynodwyd ar bob lefel. | warchodaeth i bob safle dynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. |
| Dim | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Lleol** | | | | |
| Ar hyn o bryd mae'r 6 SLA canlynol wedi eu dynodi ar lefel leol yn ardal CBSC.<br>- Pen y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn<br>- Dyffryn Conwy<br>- Cefn gwlad Abergele<br>- Dyffrynnoedd Elwy ac Aled<br>- Hiraethog<br>- Cerrigydrudion a choridor yr A5 | Ardaloedd Tirlun Arbennig (SLA) | Mae SLA yn cael eu cymhwyso gan yr awdurdod cynllunio lleol er mwyn diffinio ardaloedd o bwysigrwydd tirluniol uchel. Mae polisi NTE/4 yn CDLl mabwysiedig Conwy (2013) yn nodi bod y 6 SLA yma yn bwysig mewn perthynas â chymeriad a neilltuedd lleol. | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ddarparu lefel briodol o warchodaeth a chyfleoedd i wella ar gyfer tirluniau a ddynodwyd ar lefel leol. | Mae'n rhaid i amcanion SA perthnasol roi lefel ddigonol o warchodaeth i bob safle dynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. |
| Mae'r 12 lletem las canlynol yn ddynodedig ar lefel leol yn ardal CBSC sydd y tu allan i B:arc Cenedlaethol Eryri<br>- Lletem Las 1 rhwng Dwygyfylchi a Phenmaenmawr<br>- Lletem Las 2 rhwng Deganwy, Llandudno a Llanrhos<br>- Lletem Las 3 rhwng Llandudno a Craigside<br>- Lletem Las 4 rhwng Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos<br>- Lletem Las 5 rhwng Mochdre a Bae Colwyn<br>- Lletem Las 6 rhwng Cyffordd Llandudno a Mochdre | Lletemau Glas | Mae polisi NTE/2 CDLl mabwysiedig Conwy (2013) yn dynodi'r 12 Lletem Las yma er mwyn "atal cyfuno aneddiadau a chadw cymeriad agored yr ardal". Mae Polisi NTE/1 hefyd yn nodi pwrpas y Lletemau Glas er mwyn "rheoli hunaniaeth aneddiadau unigol, atal cyfuno a gwarchod y tirlun sydd yn amgylchynu ardaloedd trefol". | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ddarparu lefel briodol o warchodaeth a chyfleoedd i wella ar gyfer dynodiadau cynllunio lleol presennol, gan ystyried eu pwrpas a'r angen i gyflawni datblygiad cynaliadwy. | Mae'n rhaid i amcanion SEA perthnasol roi lefel ddigonol o warchodaeth i bob ardal ddynodedig, sydd yn gymesur â'u statws a'u pwrpas. |

| Safleoedd Perthnasol yn Ardal CBSC | Math o Ddynodiad | Nodweddion / Buddiannau Cymwys | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| - Lletem Las 7 rhwng Bryn y Maen a Bae Colwyn<br>- Lletem Las 8 rhwng Llaneilian a Bae Colwyn<br>- Lletem Las 9 rhwng Ffordd Coed Coch a Heol Peulwys<br>- Lletem Las 1 rhwng Hen Golwyn a Llysfaen<br>- Lletem Las 11 rhwng Rhyd y Foel, Llanddulas ac Abergele<br>- Lletem Las 12 rhwng  Towyn a Belgrano | | | | |

## A.3 Amodau Gwaelodlin Amgylcheddol ac Economaidd Gymdeithasol

A.3.1 Wedi ei hysbysu gan **Dabl A2.1**, mae **Tabl A3.1** isod yn amlinellu'r amodau amgylcheddol ac economaidd gymdeithasol presennol yn yr ardal y mae'r Adolygiad o'r CDLl yn debygol o effeithio arni, yn arbennig (ond nid yn unig) ardal weinyddol CBSC. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi problemau amgylcheddol a chymdeithasol economaidd presennol, a materion y dylai'r Adolygiad o'r CDLl fynd i'r afael â nhw ac y dylid eu hystyried yn ystod y broses SA yma drwyddi draw (gan ymgorffori SEA).

Tabl A3.1: Adolygiad o Agweddau, Materion a Phroblemau Amgylcheddol Perthnasol

| Testun SEA | Nodwedd Allweddol Waelodlin | Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| 1. Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora | **Safleoedd dynodedig:** Fel y manylir yn **Nhabl A.1**, mae CBSC yn gartref i nifer o safleoedd dynodedig ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol am resymau cadwraeth a gwerth bioamrywiaeth y gallai'r Adolygiad o'r CDLl effeithio arnynt.<br><br>Ar lefel Ewropeaidd mae ardal CBSC yn gartref i 8 SAC, 3 SPA ac 1 Safle Ramsar. Ar y lefel genedlaethol mae CBSC yn gartref i gyfanswm o 55 SSSI y mae 43 ohonynt yn ddynodedig am resymau cadwraeth bioamrywiaeth neu bwysigrwydd ecolegol. O blith yr SSSIau yma, mae 7 hefyd wedi eu dynodi fel NNRau.<br><br>Ar lefel leol mae CBSC wedi dynodi dros 4 ardal o dir sy'n eiddo i'r Cyngor fel Ardaloedd Bioamrywiaeth oherwydd eu eilwaith gwyrdd a nodweddion bioamrywiaeth o bwysigrwydd lleol. | Mae'r holl safleoedd a nodwyd yn ddynodedig am resymau penodol mewn perthynas â phwysigrwydd ecolegol neu gadwraeth bioamrywiaeth ac mae ganddynt amcanion cadwraeth sydd yn gysylltiedig â'r rhain e.e. gwarchod nodweddion cymwys perthnasol. Mae **Tabl A.1** uchod yn nodi nodweddion cymwys safleoedd Ewropeaidd perthnasol (SACau a safleoedd Ramsar). Mae angen diogelu'r nodweddion cymwys yma rhag effeithiau niweidiol, gwarchod uniondeb y safleoedd dynodedig a gweithio ar gyflawni amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd. | Gallai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu yn ardal CBSC effeithio'n niweidiol ar safleoedd dynodedig a bioamrywiaeth drwy amryw o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, sydd o bosibl yn cynnwys colli cynefinoedd clwydo, porthianna ac eraill, aflonyddwch ffisegol neu sŵn, echdynnu dŵr afonydd, gollwng elifion a llygredd aer. Oherwydd hynny, mae'n rhaid i'r holl gynigion a pholisïau yn y CDLl newydd arfaethedig fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl ystyried sensitifrwydd ecolegol perthnasol. Mae hynny yn cynnwys yr angen i gefnogi rheoli pob safle dynodedig mewn perthynas â'u statws wrth amcanu at gyflawni eu hamcanion cadwraeth diffiniedig. Hefyd mae'n rhai i unrhyw CDLl newydd ddarparu lefel ddigonol o warchodaeth i rywogaethau gwarchodedig a diddordebau ecolegol nad ydynt wedi eu dynodi. | Mae'n rhai i Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchodaeth, cadwraeth a gwella safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol. |
| | **Cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol a nodedig eraill:** Mae ardal CBSC yn gartref i ystod eang o fathau o gynefinoedd pwysig, sydd yn adlewyrchu ei hamodau daearyddol ac amgylcheddol amrywiol o ardaloedd arfordirol i ardaloedd mewndirol. Mae'r cynefinoedd yma yn cefnogi fflora a ffawna, yn cynnwys nifer o rywogaethau gwarchodedig, prin, nodedig neu rai sy'n dirywio. | | | Dylai Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol er mwyn asesu effeithiau posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau rhag cynigion (yn cynnwys datblygiadau cronnus) a pholisïau yn y CDLl newydd arfaethedig. Dylai hynny gynnwys ystyriaeth i effeithiau megis colli cynefinoedd, effeithiau gweithgareddau hamdden, echdynnu dŵr, llygredd ac effeithiau aflonyddu. |
| 2. Poblogaeth (yn cynnwys amodau economaidd gymdeithasol perthnasol). | **Rheoli ac Unedau Daearyddol Ystadegol:** CBSC yw'r awdurdod unedol sydd yn gyfrifol am lywodraeth leol ar draws ardal o 113km$^2$ yng Ngogledd Cymru, sydd yn ymestyn tua 3 cilomedr o'r dwyrain i'r gorllewin. Fel awdurdod unedol, CBSC hefyd yw'r unig awdurdod cynllunio lleol (LPA) ar gyfer yr ardal y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, sydd yn destun rheolaeth gynllunio ar wahân. Mae ardal CBSC yn ffinio â Bwrdeistref Gwynedd i'r gorllewin a'r de a Sir Ddinbych i'r Dwyrain.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol CBSC wedi eu canolbwyntio ar arfordir gogleddol Môr Iwerddon, gyda mwy o aneddiadau gwledig i'r de. Y prif aneddiadau yn ardal CBSC yw Cyffordd Llandudno, Llandudno, Abergele, Conwy a Bae Colwyn. Mae ardal CBSC yn gartref i wyth o Gynghorau Tref lefel is a dau ddeg pump o Gynghorau Cymuned.<br><br>Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar y lefel ranbarthol (gweler **Atodiad B** i gael mwy o fanylion). Disgwylir y bydd SDP yn cael ei baratoi maes o law ar gyfer coridor yr A55, sydd yn cynnwys ardal CBSC ynghyd â 5 awdurdod lleol arall: Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.<br><br>Yn nhermau unedau ystadegol, mae yna 71 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAau) yn ardal CBSC, sydd yn cynrychioli 3.7% o'r cyfanswm o 199 o LSOAau yng Nghymru. | | Bydd y broses o baratoi unrhyw CDLl newydd angen cael ei alinio'n agos â pharatoi SDP Rhanbarth y Gogledd er mwyn sicrhau y bydd y ddwy ddogfen, ar ôl eu mabwysiadu, yn darparu fframwaith cydlynus er mwyn ,mynd i'r afael yn effeithiol ac effeithlon â materion cynllunio perthnasol. | bydd angen cynnal proses SA/SEA ar gyfer SDP arfaethedig Rhanbarth y Gogledd Orllewin ar ôl penderfynu ar yr Awdurdod Cyfrifol arweiniol ar gyfer y gwaith o baratoi'r cynllun yma. Fel yn achos yr Adolygiad o'r CDLl yma, bydd angen Cwmpasu SA/SEA er mwyn pennu fframwaith asesu cyn datblygu cydrannau SPD sylweddol.<br><br>Dylai'r Fframwaith SA a gynigir ar gyfer ei ddefnyddio yn SA o'r Adolygiad o'r CDLl (**Adran 5**) gael ei adolygu a'i brofi ar gyfer cydnawsedd yn erbyn y fframwaith SA ar gyfer SPD Rhanbarth y Gogledd Orllewin ar ôl i hynny gael ei gynhyrchu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Demograffeg:** Amcangyfrifir bod gan CBSC boblogaeth o 116,9 (217[5]), sef tua 3.7% o boblogaeth Cymru (3,125,2).<br><br>mae rhagamcanion seiliedig ar 2014 yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn cynyddu o 116,287 yn 2014 i 117,42 erbyn 221. Mae hynny yn gynnydd o tua .99%.<br><br>Canolrif yr oedran yn CBSC yw 48.7 (Cymru 42.4). Mae poblogaeth CBSC dros 65 oed yn cyfateb i 27% o'r boblogaeth (Cymru - 2.4% a'r DU - 18%).<br>Rhwng canol 2015 a chanol 2016 roedd y newid yn y boblogaeth yn ganlyniad i newid naturiol negyddol o -4o bobl (1,1 o enedigaethau a 1,5 o farwolaethau) ac enilliad ymfudo net o 7 o bobl.<br><br>Disgwylir y bydd nifer y bobl oedran gwaith ac o dan 18 oed yn gostwng.<br><br>Heb ymfudiad, nodir y byddai poblogaeth CBSC yn gostwng oherwydd bod marwolaethau yn uwch yn nifer y genedigaethau bob blwyddyn.[6] | Mae twf poblogaeth araf, newidiadau naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau) a'r rhagamcan y bydd y boblogaeth yn heneiddio yn debygol o greu problemau mewn perthynas ag amnewid y gweithlu yn yr hirdymor a chynyddu'r pwysau ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus. Mae allfudo'r boblogaeth oedran gweithio cynnar yn CBSC yn creu problem o ran cadw'r boblogaeth o oedolion ifanc. | Mae'n rhaid i'r Adolygiad o'r CDLl ystyried nodweddion poblogaethau preswyl a gweithio ardal CBSC, yn arbennig mewn perthynas â chyflenwadau llafur a ragamcanir i'r dyfodol, anghenion cyflogaeth, lefelau sgil a ffactorau economaidd gymdeithasol (fel y manylir ar hynny isod).<br><br>Bydd yn bwysig i'r CDLl newydd nodi strategaethau cydlynol mewn perthynas â thir tai a darpariaeth seilwaith cymunedol er mwyn bodloni anghenion presennol ac anghenion disgwyliedig i'r dyfodol. Felly, dylai tystiolaeth gydnerth gael ei chasglu hefyd a'i diweddaru drwy gydol cyfnod Adolygu'r CDLl. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol er mwyn asesu gallu'r CDLl newydd arfaethedig i fodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. |
| | **Tai:** Mae'r JHLAS (217[5]) yn dangos bod gan CBSC gyflenwad tir tai, a aseswyd yn erbyn gofyniad tai presennol CDLl Conwy, o 3.1 blynedd. Mae'r cyflenwad a aseswyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn amrywio o 4.1 blynedd yn 212-13, 4.8 blynedd yn 2013-14, 4. blynedd yn 2014-15 a 3.7 blynedd yn 2015-16. Mae hynny yn dangos bod cyflenwad tir wedi gostwng yn barhaus ers 2013-14.<br><br>Mae yna chwe ardal marchnad dai yn ardal CBSC. LHMA3 Menai, LHMA9 Bala, LHMA11 Llandudno, LHMA12 Bae Colwyn, LHMA13 Rhyl a LHMA15 Llanelwy.<br>Amcangyfrifir bod yna gyfanswm o 57,23 (2016[6]) o anheddau ar draws ardal CBSC, gyda tua 73% o'r rhai hynny yn rhai perchen-feddiannaeth, 16% yn cael eu rhentu'n breifat a'r 11% arall yn cael eu rhentu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.<br><br>Roedd y LHMA ar gyfer Conwy yn amcangyfrif bod angen cyflenwi 372 o dai fforddiadwy rhwng 217 a 222[7]. Mae hynny yn cynnwys yr 141 o unedau tai fforddiadwy yr ymrwymwyd iddynt eisoes, sydd yn awgrymu bod angen 231 o unedau ychwanegol bob blwyddyn. 51.2% yw'r ganran o brynwyr tro cyntaf ac aelwydydd newydd yng Nghonwy sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad i rentu neu brynu.<br><br>Bu i CBSC ddarparu targed o 6,52 o anheddau (478 bob blwyddyn) yn y CDLl Mabwysiedig (27-222). Mae'r targedau tai fforddiadwy yn ardal CBSC fel a ganlyn:<br>Llandudno a Bae Penrhyn, Llandrillo-yn-Rhos 35%<br>Conwy, Cyffordd Llandudno, Glan Conwy, Llanrwst: 3%<br>Llanfairfechan, Penmaenmawr, Bae Colwyn, Dwygyfylchi, Llanddulas & Llysfaen: 2% ac Abergele, Towyn a Bae Cinmel 1%.<br><br>Bu cynnydd o 3.1% mewn prisiau tai cyfartalog yn CBSC o Gorffennaf 2016 (£149,243) i Orffennaf 217 (£153,862), sydd yn £3,16 yn uwch na chyfartaledd gwerth eiddo yng Nghymru, sef £15,846 (Gorffennaf 217[8]). | Mae nodi diffyg tir tai presennol yn golygu na fydd digon o dai yn cael eu cyflenwi drwy'r system gynllunio er mwyn bodloni anghenion a glustnodwyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i CDLl newydd gael ei danategu gan gyfrifiadau cyfredol a gwrthrychol o'r angen am dai, allai fod yn wahanol i'r gofynion tir a nodwyd o dan wahanol amodau economaidd yn 2013 ar gyfer y CDLl presennol. Yn ogystal â'r boblogaeth sydd yn heneiddio, disgwylir y bydd y galw am dai yn cynyddu a rhagamcanir y bydd cynnydd yn nifer yr aelwydydd unigolion sengl/rhiant sengl. Ar hyn o bryd, nid yw lefel y galw yn gyffredinol yn cael ei fodloni ar draws ardal CBSC. | Mae'r Adolygiad o'r CDLl yn cyfrifo lefel yr angen am dai (OAN) sydd wedi ei asesu'n wrthrychol ar gyfer ardal CBSC yn ystod cyfnod bwriedig y CDLl newydd ac wedi pennu gofyniad tir tai newydd yn unol â hynny. Yna bydd angen i unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl gael ei danategu gan strategaeth tir tai clir a bydd angen iddo ddyrannu swm digonol ac ystod priodol o safleoedd tai er mwyn bodloni'r gofyniad tir tai a nodwyd ac unioni'r diffyg presennol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â darpariaeth tai er mwyn bodloni anghenion a glustnodwyd, o ran argaeledd a ansawdd y stoc tai. |

[5] NOMIS: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157385/report.aspx
Ystadegau Cymru: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojections-by-localauthority-year
[6] http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Statistics-and-research/Population/Assets/documents/Population-profile-bulletin-August-2017.pdf
[7] http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Housing/Information-for-Developers/Assets/Documents/Local-Housing-Market-Assessment-LHMA-2018-2022.pdf
[8] Mynegai Prisiau Tai y DU - Cymru (Gorffennaf 2017): https://www.gov.uk/government/publications/uk-house-price-index-wales-july-2017/uk-house-price-index-wales-july-2017

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tua 713 o anheddau fforddiadwy wedi cael eu darparu hyd yma yn ystod cyfnod y CDLl presennol (2007-8 i 2016-17[6]). Hefyd, bwriedir cyflenwi 5 o dai fforddiadwy ychwanegol yn 2017-18. | | | |
| | **Cyrhaeddiad/Cymwysterau Addysgol[9]:**<br>Yn 217 nid oedd gan 5.9% o boblogaeth oedran gweithio (16 i 64 oed) ynn ardal CBSC unrhyw gymwysterau, sydd yn is na'r ganran o'r boblogaeth nad oes ganddynt gymwysterau ar draws Cymru (8.7%). Mae'r lefel cyrhaeddiad gan y boblogaeth oedran gweithio sydd â chymwysterau yn uwch yng Nghonwy nag ar draws Cymru. Mae gan 56.3% yn Nghonwy gymwysterau lefel NVQ3 neu uwch o'i gymharu â 54.6% ar draws Cymru, ac mae gan 37.1% gymwysterau lefel NVQ4 eu uwch o'i gymharu â 35.1% yn genedlaethol.<br><br>Mae'r cyrhaeddiad addysgol yng Nghonwy ar draws yr holl gymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru. | Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn amlygu bod gan y boblogaeth oedran gweithio yn ardal CBSC gymwysterau uwch na'r cyfartaledd ar draws Cymru, er bod cyrhaeddiad addysgol cyfredol ymysg pobl oedran ysgol yn debyg yn y ddwy ardal ddaearyddol.<br><br>O ystyried y lefel y cymwysterau uwch na'r cyfartaledd ar draws lefelau NVQ 1-4 yng Nghonwy o'i gymharu â Chymru, dylid cymryd camau i sicrhau bod y duedd gadarnhaol yma yn parhau. | Dylai'r Adolygiad o CDLl nodi darpariaeth ddigonol o seilwaith cymunedol er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â chapasiti seilwaith addysg a'r dewis er mwyn annog parhad lefelau cyrhaeddiad addysgol uwch na'r cyfartaledd yng Nghonwy. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol er mwyn asesu gallu'r CDLl newydd arfaethedig i fodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â digonolrwydd, ansawdd a dosbarthiad gofodol darpariaeth seilwaith addysg. |
| | **Seilwaith cymunedol:**<br><br>Ar hyn o bryd mae yna 53 o ysgolion cynradd a 7 ysgol uwchradd yn ardal CBSC Mae pob ysgol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i raddau gwahanol.<br><br>Mae CBSC yn gweithredu 1 o lyfrgelloedd (Abergele, Conwy, Llanfairfechan, Bae Penrhyn, Cerrigydrudion, Bae Cinmel, Llanrwst, Bae Colwyn, Llandudno a Phenmaenmawr). Mae yna hefyd bedair canolfan hamdden yng Nghonwy (Abergele, Colwyn, Llandudno a Llanrwst).<br><br>Mae cyfleusterau cymunedol eraill yn cynnwys neuaddau tref. canolfannau cymunedol, Sw Mynydd Cymru, Gerddi Bodnant (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Pharc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Mae gan bum ardal yn ardal CBSC statws Baner Werdd: Parc Bodlondeb Park, Happy Valley, Gerddi'r Frenhines, rhandiroedd a Gwarchodfa Natur Leol Bryn Euryn, Mynwent Lawnt Llanrhos, Gerddi Wynn, Cae Derw a Pharc Pentre Mawr.<br><br>Yn y WIMD (2014) mae'r ardaloedd canlynol yng Nghonwy ymysg y 1% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau: Uwchaled; Llansannan; Uwch Conwy; Llangernyw; Eglwysbach; Betws yn Rhos; Caerhun; Trefriw; Betws-y-Coed. | Bydd angen mwy o seilwaith cymunedol: er mwyn cefnogi'r boblogaeth y rhagamcanir fydd yn heneiddio yn ardal CBSC. Mae mynediad at wasanaethau; mewn ardaloedd gwledig yn broblem benodol, gyda'r 9 LSOA ymysg y 1% mwyaf difreintiedig mewn perthynas â mynediad at wasanaethau yn genedlaethol. | Dylai'r Adolygiad o'r CDLl nodi darpariaeth ddigonol o seilwaith cymunedol er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â darpariaeth chwaraeon awyr agored, gofod chwarae plant, neuaddau cymuned, mannau agored naturiol hygyrch a darpariaeth rhandiroedd. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol er mwyn asesu gallu'r CDLl newydd arfaethedig i fodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â darparu seilwaith cymunedol o safon. |
| | **<u>Cyflogaeth[10]:</u>**<br>Yn 217, o blith y 76.6% o'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghonwy, roedd 73.3% mewn gwaith ac roedd hynny yn uwch nag ar draws Cymru (72.4%) ond yn is na Phrydain Fawr (74.9%).<br><br>Mae 23.4% o boblogaeth oedran gweithio Conwy yn economaidd anweithgar (Cymru - 24.%) (Prydain Fawr - 21.6%).<br><br>Roedd y gyfradd ddiweithdra swyddogol yn ardal CBSC yn 4.2% yn 217, oedd yn is na'r gyfradd ddiweithdra ar draws Cymru (4.8%) a Phrydain Fawr (4.4%). Mewn perthynas â hynny, yn 2016 roedd gan ardal CBSC ddwysedd swyddi o .78 (cymhareb swyddi i boblogaeth oedran gweithio preswyl) o'i gymharu â .76 a draws Cymru a .84 ar gyfer Prydain Fawr. | Mae gan Gonwy gyfran uwch o'i phoblogaeth oedran gweithio sy'n economaidd anweithgar na gweddill Prydain Fawr ac mae bron or uchel â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae hynny yn dangos bod cyfleoedd cyflogaeth annigonol/ansefydlog yn cael eu darparu i drigolion ardal CBSC o'i gymharu â Phrydain Fawr - ond o gymharu â Chymru, mae CBSC yn perfformio'n well, gan ystyried addysg a lefelau sgiliau. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth gweithio yn teithio allan o Gonwy a Sir Ddinbych i weithio ac mae hynny yn cyfrannu mwy at golli'r boblogaeth weithio. | Dylai'r Adolygiad o'r CDLl ddatblygu strategaeth ddatblygu tir cyflogaeth ac economaidd briodol ar gyfer y CDLl newydd.<br><br>Bydd yn bwysig i bolisïau, cynigion a chanllawiau arfaethedig gefnogi creu ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth newydd sydd yn cyfateb i lefel sgiliau'r farchnad lafur bresennol, tra hefyd yn ceisio denu sectorau gwerthu uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch, logisteg a phorthladdoedd i ardal CBSC. Hefyd, dylai'r CDLl newydd ddatblygu polisïau, cynigion a chanllawiau er mwyn taclo amddifadedd drwy gyflwyno mesurau i leihau nifer y bobl ddi-waith/economaidd anweithgar. | Dylai'r SA asesu a fydd y CDLl newydd yn effeithiol o ran darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth mewn lleoliadau priodol ac arallgyfeirio priodol mewn sectorau i ddiwydiannau gwerth uchel. Felly dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â chyflogaeth o ansawdd uchel, twf economaidd, arallgyfeirio mewn sectorau a mewnfuddsoddiad. |

[5]http://spp.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/691/Conwy_JHLAS_2017_Report.pdf

[6] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Households/Estimates/households-by-localauthority-year

[9] Ystadegau cyrhaeddiad addysgol wedi eu cael gan NOMIS: Proffil y Farchnad Lafur - Conwy

[10]cafwyd yr holl ddata gan NOMIS: Proffil y Farchnad Lafur– Conwy: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157385/report.aspx#tabempunemp

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae tua 15, (17% o'r boblogaeth gweithio) yn teithio allan o Gonwy a Sir Ddinbych i weithio, a thua 5,4 o'r rhai hynny yn teithio ymhellach i Loegr.<br><br>Mae'r ystadegau mwyaf diweddar sydd ar gael yn dangos mai'r sectorau cyflogaeth mwyaf yng Nghonwy yw Galwedigaethau Proffesiynol (17.2%), Proffesiynol, Cyswllt a Thechnegol (13.7%) a Galwedigaethau Crefftau Sgiliedig yw'r trydydd cyflogwr mwyaf (13.2%).<br><br>Mae yna tua 79, o swyddi PAYE yn yr ardal (41,5 yng Nghonwy a 38,4 yn Sir Ddinbych) a 93,4 o drigolion sy'n gweithio (51,2 yng Nghonwy a 42,2 yn Sir Ddinbych). Mae hynny yn creu diffyg o 13,5 o swyddi[11].<br><br>Ym Mawrth 217 roedd Paru â Swyddi Cyffredinol y Canolfannau Gwaith yn dangos bod 55 o swyddi ar gael o fewn radiws o 1milltir o Landudno a dim ond 1,9 o swyddi o fewn radiws o 2 milltir. Ar yr adeg honno roedd 6,1 o bobl yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar ac yn chwilio am waith yn yr un ardal[12].<br><br>Yn 217 cyfartaledd cyflog wythnosol gweithwyr llawn amser yng Nghonwy oedd £576.4, oedd yn £1. yn is na'r lefel yng Nghymru ond yn £89. yn uwch na lefel Prydain Fawr. Roedd benywod yng Nghonwy yn derbyn £1.8 yn llai yn eu cyflog gros wythnosol na'r cyfartaledd cyfansymiol.<br><br>Amcangyfrifwyd yn 2015 bod canolrif incwm aelwydydd ardal Conwy a Sir Ddinbych yn ddim ond 83% o gyfartaledd Prydain.[13]. | | | |
| | **Anghydraddoldeb, Allgau Cymdeithasol ac Amddifadedd:** Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) yn nodi clystyrau o amddifadedd yng Nghymru drwyddi draw.<br><br>Yn 2014, o'r 71 LSOA yn ardal CBSC, roedd 4 yn y 1% mwyaf difreintiedig yng Nghymru; roedd 6 yn yr 2%mwyaf difreintiedig.<br>- W11928 Abergele Pensarn 2,<br>- W1144 Glyn (Conwy) 2,<br>- W1187 Tudno 2,<br>- W1163 Llysfaen 1.<br><br>Hefyd roedd 7 LSOA yn ardal CBSC yn y 3% mwyaf difreintiedig ac roedd 6 yn yr 5% mwyaf difreintiedig..<br><br>Mae canran yr aelwydydd di-waith yng Nghonwy yn 1.4% yn uwch na'r ganran ar gyfer Prydain Fawr. Mae 13.7% o'r rhai hynny yng Nghonwy yn hawlio budd-daliadau'r llywodraeth; .7% yn is na Chymru a 2.7% yn uwch na Phrydain Fawr.<br>Mae hynny yn cael ei adlewyrchu yn incwm gwario gros aelwydydd ar draws Conwy (mae'r data wedi ei gyfuno â Sir Ddinbych, sydd yn £16,4 yn is na chyfartaledd y DU, sef £17, 965). | Mae rhai rhannau o ardal CBSC, yn arbennig yn y cymunedau trefol Arfordirol Gogleddol, ymysg yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o weithgaredd economaidd a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn arbennig i blant, pobl ifanc a'r boblogaeth henoed. I'r gwrthwyneb, mae gan y De gwledig yn CBSC rai o'r cymunedau lleiaf difreintiedig yng Nghymru. | Mae angen strategaeth holistig er mwyn mynd i'r afael ag amddifadedd lluosog mewn rhannau o ardal CBSC, yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, greu cyfleoedd cyflogaeth newydd o ansawdd uchel.<br><br>Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r CDLl yma nodi strategaeth tir cyflogaeth glir er mwyn cefnogi darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd mewn lleoliadau priodol a hygyrch. Hefyd, dylai'r CDLl newydd gynnwys strategaeth adfywio a pholisïau a chynigion cysylltiedig er mwyn cataleiddio ystod o welliannau ffisegol, amgylcheddol, iechyd ac economaidd-gymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig a glustnodir. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol mewn perthynas ag ansawdd, cynhwysiant cymdeithasol, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd cyflogaeth, mynediad at ofal iechyd, mynediad at fannau agored a chysylltiad â llygredd (aer, dŵr, pridd etc..).<br>. |

[11] https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/english-local-employment-opportunities/

[12] http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Statistics-and-research/Assets/documents-economy/Monitoring-the-economy-research-bulletin-August-2017.pdf

[13] https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/english-poverty-and-deprivation/

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. Iechyd Pobl | **Disgwyliad oes[14]:** Mae gan wrywod sydd yn byw yng Nghonwy ddisgwyliad oes amcangyfrifiedig (212-14 ar adeg eu genedigaeth o 79.1 o flynyddoedd sydd yn uwch o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru sydd yn 78.51.<br>Mewn ardaloedd amddifadedd uchel (degradd 1) mae disgwyliad oes gwrywod ar adeg genedigaeth yn 73.2 o'i gymharu â 81.9yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (degradd 1).<br><br>Mae gan fenywod sydd yn byw yng Nghonwy ddisgwyliad oes amcangyfrifiedig (212-14 ar adeg eu genedigaeth o 82.9 o flynyddoedd sydd ychydig yn uwch o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru sydd yn 82.35.<br>Mewn ardaloedd amddifadedd uchel (degradd 1) mae disgwyliad oes benywod ar adeg genedigaeth yn 78. o'i gymharu â 85.3 yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (degradd 1).<br><br>Y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes: iach ar gyfer gwrywod sydd yn byw yn y cymunedau lleiaf-mwyaf difreintiedig yw 13.3 ac yng Nghymru ei hun mae'n 15.2[15].<br><br>Y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes: iach ar gyfer gwrywod sydd yn byw yn y cymunedau lleiaf-mwyaf difreintiedig yw 1.2 sydd yn is na Chymru ar 14.9. Mae hynny yn dangos bos yna fwy o anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yn achos gwrywod yng Nghonwy. | Mae'n amlwg bod yna fylchau mawr mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn CBSC.<br><br>mae angen cymryd camau er mwyn taclo amddifaded i ddechrau, a dylai hynny wedyn arwain at effaith gadarnhaol ar ddisgwyliad oes gwrywod a benywod. | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl ystyried y gwahaniaethau sylweddol rhwng disgwyliadau oes iach gwrywod a benywod sydd yn byw yn ardal CBSC.<br><br>Dylai hefyd nodi'r anghydraddoldeb iechyd ymysg poblogaeth breswyl ardal CBSC o'i gymharu â chyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai nodi cynigion, polisïau a chanllawiau er mwyn diogelu a gwella amwynderau, ansawdd bywyd a deilliannau iechyd (corfforol a meddyliol) i bawb yn ardal CBSC h.y. ar gyfer y gweithlu a'r trigolion. | Dylai'r fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag amwynderau, ansawdd bywyd, deilliannau iechyd, iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant a diogelwch. Dylid ystyried y materion yma yn holistig wrth asesu cydrannau arfaethedig y CDLl newydd arfaethedig. |
| | **Iechyd Corfforol/Dewisiadau Ffordd o Fyw:** Yn ôl 'Offeryn Rhyngweithiol Ein Dyfodol Iach 2015', roedd oedolion oedd yn byw yng Nghonwy yn 2013 -2014 yn ymgymryd â gweithgaredd corfforol cymedrol i galed am 3 munud neu fwy 2.2. o weithiau yr wythnos ar gyfartaledd, sydd yn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (2.4)[16].<br><br>O'i gymharu ag awdurdodau eraill, yn ystadegol mae trigolion CBSC yn fwy tebygol o gael dewisiadau ffordd o fyw iach na chyfartaledd Cymru, mae angen gwella ychydig o hyd.<br>Roedd 36% o oedolion yn CBSC yn adrodd eu bod yn bwyta'r 5 dogn y dydd o ffrwythau neu lysiau a argymhellir (Cyfartaledd Cymru - 32%).<br><br>Mae tua 54% o oedolion CBSC yn ordew (Cymru - 58%). Canfuwyd bod 25.2% o blant 4-6 oed yn CBSC yn ordew neu'n ordrwm (tua 283 o blant).<br><br>Mae gan CBSC gyfraddau uchel o dderbyniadau i ysbytai sy'n benodol gysylltiedig ag alcohol gyda chyfraddau oedran safonedig o 389 o achosion cysylltiedig ag oedran am bob 1, o'r boblogaeth yn 2014/2015 (Cyfartaledd Cymru - 333 o dderbyniadau)[17].<br><br>Mae tua 9.8% o boblogaeth CBSC yn cael eu trin am salwch meddyliol (Cyfartaledd Cymru - 12.1%).<br><br>Adroddodd 38% o oedolion Conwy eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir o leiaf unwaith bob wythnos. Bu i 2% yng Nghonwy a Sir Ddinbych adrodd eu bod wedi yfed mewn pyliau o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos ddiwethaf (ffigyrau Cymru = 41% a 25%). | Yn gyffredinol, mae trigolion CBSC yn perfformio'n ychydig gwell na chyfartaledd Cymru yn achos dangosyddion iechyd megid gordewdra, iechyd meddyliol a defnyddio alcohol. Fodd bynnag, mae cysondeb ymarfer corff a derbyniadau i ysbytai sy'n benodol gysylltiedig ag alcohol yn llawer gwaeth na gweddill Cymru. | | |

[14] Ystadegau Cymru, Disgwyliad oes benywod/gwrywod https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/datasets/lifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasinenglandandwalesreferencetable1

[15] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy (2017) Asesiad o Lesiant: https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/english-healthy-life-expectancy-for-all/

[16] Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Offeryn Rhyngweithiol Ein Dyfodol Iach 2015, Nifer cyfartalog y dyddiau o 30
munud neu fwy o weithgaredd corfforol cymhedrol i galed (wedi ei gapio) a adroddiwyd gan oedolion, oed wedi ei safoni.

[17] https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Iechyd Meddwl a Lles:**<br>Disgwylir y bydd y nifer a ragamcanir o drigolion Conwy sydd ag o leiaf un anhwylder meddwl yn aros yn sefydlog ar tua 16, o 2015 i 235.[18] | Yn unol â Chynllun Llesiant Conwy (2018 - 223) mae angen gwella pob agwedd o iechyd a llesiant poblogaeth breswyl ardal CBSC, yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd meddylion a llesiant cymdeithasol. | | |
| | **Seilwaith Iechyd:** Mae seilwaith iechyd yn ardal CBSC yn rhan o gylch gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br><br>Mae yna dri phrif ysbyty Damweiniau ac Achosion Brys yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd yn gwasanaethu Conwy. Ond dim ond un Uned mân anafiadau a geir yng Nghonwy ar hyn o bryd, sef Ysbyty Cyffredinol Llandudno, ac mae'n darparu gwasanaethau iechyd aciwt i'r boblogaeth leol[19].<br><br>Yn ardal CBSC mae yna 2 meddygfa a 16 o Bractisau Deintyddol[12]. | Mae'n rhaid lleoli seilwaith iechyd digonol mewn lleoliadau hygyrch er mwyn bodloni anghenion poblogaethau heddiw ac i'r dyfodol. Mae angen ystod o gyfleusterau iechyd corfforol a meddyliol o ansawdd uchel er mwyn mynd i'r afael ag anghenion newidiol y boblogaeth, yn arbennig o ystyried yr heneiddio a ragamcanir yn y boblogaeth. | Dylai'r Adolygiad o CDLl nodi darpariaeth ddigonol o seilwaith cymunedol er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â chyfleusterau gofal iechyd, gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth i ardaloedd gwledig CBSC. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol er mwyn asesu gallu'r CDLl newydd arfaethedig i fodloni anghenion y boblogaeth heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â digonolrwydd, ansawdd a dosbarthiad gofodol cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd. |
| 4. Pridd | **Amodau Geolegol a Thir:**<br>Mae gan CBSC nodweddion geolegol a phridd amrywiol[13], sydd yn bennaf yn til, ond mae'n cynnwys pocedi o bridd mawnog, llifwaddod (clai, silt a thywod), tywod a gro rhewlifol, tywod wedi ei chwythu a Dyddodion Glannau Afon.<br><br>Mae'r ardal ddatblygedig a llawer o'r Gonwy wledig ar gorwedd yn bennaf ar 'galchfaen gydag is-haen o dywodfaen/cleiog' a charreg laid, carreg silt a thywodfaen', gyda rhai ardaloedd o graigwely igneaidd ymwthiol i'r Gorllewin. Er nad yw calchfaen yn hydraidd, mae'n hydoddi mewn sylweddau asid gwan, ac yn ystod cyfnodau geolegol mae amrywiaeth eang o nodweddion yn datblygu megis holltau, ogofau, ceunentydd a llyncdyllau. Mae'r duedd yma i erydu yn darparu llwybrau draenio i ddŵr drwy'r galchfaen.<br><br>mae yna dal bocedi ynysig o fawn yn rhannau deheuol o ardal CBSC sydd yn gyffredinol mewn ardaloedd o goedwigoedd a thybir eu bos yn cyd-ddigwydd â phantiau a dyffrynnoedd lleol. Yn yr ardaloedd gogleddol isel a rhannau morydol Afon Conwy, mae'r ddaeareg drifft bron yn gyfan gwbl yn dywod a dyddodion afon. | Mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd gael eu lleoli'n briodol a'u dylunio er mwyn adlewyrchu nodweddion daearegol a phridd ardal CBSC. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r CDLl yma nodi cynigion a pholisïau priodol er mwyn diogelu nodweddion daearegol pwysig ac adnoddau pridd yn ardal CBSC, yn ogystal â fframwaith ar gyfer adfer tir halogedig. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag adfer tir halogedig, ansawdd pridd a llygredd i dderbynyddion ar y tir. Hefyd dylid ystyried risgiau canlyniadol i iechyd pobl a daeareg, mewn ffordd holistig. |

[18] Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru: http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Policies-Plans-and-Reports/assets/assets/documents/population-assessment/NW-Population-Assessment-1-April-2017.pdf
[19]: Prifysgol Betsi Cadwaladr: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/home
[13] Arolwg Daearegol Prydeinig: http://mapapps.bgs.ac.uk/geologyofbritain/home.html

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. Dŵr | **Cyrff Dŵr:** Mae ardal CBSC yn Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Mae hon yn gartref i 25 o gyrff dŵr tir, ac mae 6% ohonynt wedi cael statws cyffredinol dda yn 2015 (yn feintiol a chemegol). Ar draws Gorllewin Cymru mae gweithgaredd cloddio hanesyddol yn fygythiad parhaus i ansawdd dŵr- mae'n agored i halogiad llygredd nitrad[20].<br><br>Mae yna 63 o gyrff dŵr a 9 llyn yn nalgylch Conwy a Chlwyd. O blith y rhain mae 16 o'r afonydd ac 8 o'r llynnoedd yn artiffisial neu wedi eu haddasu'n sylweddol[21]. | Mae cyrff dŵr ar draws ardal CBSC yn amrywio o ran ansawdd, gwerth ecolegol a chyflwr presennol. Mae rheoli ansawdd dŵr yn hanfodol ar gyfer gwella iechyd hirdymor poblogaethau a'r amgylchedd. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau a chanllawiau er mwyn diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn cynnwys maint ac ansawdd dŵr wyneb a dŵr tir. Dylai hynny gynnwys mesurau i waredu ffynonellau halogiad sydd yn niweidio'r amgylchedd dŵr a rheoleiddio gollyngiadau llygredd o ddatblygiadau newydd i gyrsiau dŵr sy'n derbyn. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag ansawdd yr amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn ogystal â rheoli risgiau dŵr. |
| | **Risg Llifogydd:** Mae ardaloedd sylweddol ar hyd cyrsiau dŵr Afon Conwy ym Mwrdeistref Conwy wedi eu nodi fel rhai sydd yn wynebu risg o lifogydd [14]. Mae afonydd yn ffynhonnell llifogydd sylweddol yng Nghonwy, a thir a môr (llanwol) ar hyd glannau'r gogledd. Aneddiadau megis Conwy a Llandudno.<br><br>Dynodwyd CBSC fel un o Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) yng Nghymru ac mae'n ofynnol iddo gynnal, cymhwyso a monitro Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS) gan arwain y gwaith o gydlynu a rheoli risg llifogydd yn lleol[22].<br><br>Mae ardaloedd trefol presennol Conwy, Llandudno ac Abergele wedi eu cyfyngu'n sylweddol gan orlifdiroedd arfordirol ac afonol - gyda mwy o risg o ganlyniad i lifogydd llanwol ac ymchwydd stormydd. | Mae risg llifogydd yn broblem barhaus oherwydd lleoliad yr awdurdod lleol, a'u brif ganolfan wrth ymyl Afon Conwy. Dylai datblygiadau tai gael eu rhwystro pan fo'n bosibl rhag cael eu datblygu ar orlifdiroedd. Gellir lleihau costau cyhoeddus a phreifat sydd yn gysylltiedig â lifogydd gyda strategaethau amddiffynfeydd llifogydd hirdymor. Dylid ystyried hynny yn yr Adolygiad o'r CDLl. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma amcanu at reoli risgiau lifogydd mewn ffordd gynaliadwy, yn cynnwys cyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd risg lifogydd hysbys. | |
| 6. Aer | **Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMSau) ac Ansawdd Aer Gwael:**<br><br>Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos nad yw safonau ansawdd aer yn ardal CBSC mewn perygl o fod y uwch nag Amcanion Ansawdd Aer yr Undeb Ewropeaidd ac nid oes angen cynlluniau asesu neu reoli manwl ar lefel y Cyngor ar gyfer unrhyw lygryddion..[23] | Byd angen monitro ansawdd aer yn barhaus yn CBSC, yn benodol ffordd ddeuol yr A55 yw'r briffordd rhwng Gogledd Orllewin Lloegr a phorthladd Caergybi, yn cynnwys twnnel yr A55 yng Nghonwy ac mae'r A47 yn mynd rhagddi i mewn i'r tir tuag at Eryri. Dylai traffig ychwanegol ar y ffyrdd yma fyddai'n deillio o ddatblygiadau newydd gael ei fonitro'n barhaus. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau a chanllawiau er mwyn taclo ardaloedd hysbys o ansawdd aer gwael ac effeithiau tebygol datblygiad newydd ar ansawdd aer, yn cynnwys o draffig.<br>Dylai unrhyw CDLl newydd amcanu at leihau llygredd aer lleol drwy nodi polisïau a chynigion er mwyn hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ac actif. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag ansawdd aer lleol ac effeithiau cysylltiedig ar iechyd. Hefyd, dylai'r SA gydnabod y gall newidiadau i ansawdd aer effeithio ar wasanaethau ecosystem sydd yn effeithio ar fioamrywiaeth ac asedau amgylcheddol eraill. |
| 7. Ffactorau hinsawdd | **Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr:** Mae ystadegau 2015 gan InfoBase Cymru[24] yn dangos bod cyfanswm allyriadau nwy tŷ gwydr (GHG) o ardal CBSC (4.9) yn dangos bod lefelau CO2 am bod preswylydd (tunelli) yn is na chyfartaledd Cymru (8.) yn 2016. Roedd CBSC yn cynhyrchu 2.7%[15] o ynni carbon isel Cymru yn 2015. Ond, gellir gwella hynny drwy gynhyrchu mwy o gapasiti adnewyddadwy i'r dyfodol. | Oherwydd natur wledig CBSC, dylid lliniaru allyriadau nwy tŷ gwydr o drafnidiaeth nwyddau trwm, gyda datblygiadau lleol yn cael eu ffafrio mewn lleoliadau mwy hygyrch er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion a chanllawiau a chefnogi newid i economi carbon isel. Dylai hynny gynnwys darparu fframwaith polisi cefnogol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn lleoliadau priodol. Hefyd, dylai'r CDLl newydd gynnwys polisïau i annog dyluniad carbon isel a dylai nodi strategaeth trafnidiaeth cynaliadwy sydd yn manteisio ar: | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â defnyddio ynni, effeithiolrwydd adnoddau, trafnidiaeth gynaliadwy, allyriadau GHG a lliniaru newid yn yr hinsawdd. |

[20] Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynllun Rheoli Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru, 2015): https://naturalresources.wales/media/674895/ww-rbmp.pdf
[21] Cynllun Rheoli Basn Afonydd: https://naturalresources.wales/media/674895/ww-rbmp.pdf
[22] http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Environmental-problems/assets-Air-Quality/documents/Conwy-County-Borough-Council-2016-Air-Quality-Progress-Report.pdf
[23] Monitro Ansawdd Aer http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Environmental-problems/Air-Quality-Monitoring.aspx
[24] InfoBase Cymru http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/environmentandsustainability/environment/tabular?viewId=518&geoId=1&subsetId
[14] Mapiau Risg Llifogydd: Cyfoeth Naturiol Cymru: https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/Flood_Risk/viewers/Flood_Risk/virtualdirectory/Resources/Config/Default&layerTheme=0
[15] Ystadegau Cymru Cynhyrchiant Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdodau Lleol: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Energy/lowcarbonenergygeneration-by-localauthority

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | seilwaith rheilffyrdd a phorthladdoedd presennol yn ardal CBSC er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. | |
| | **Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd:** Mae ymchwil i newid yn yr hinsawdd yn rhagfynegi cynnydd yn nifrifoldeb ac amledd digwyddiadau sy'n gysylltiedig â glaw. Felly mae llifogydd o afonydd, carthffosiaeth a dŵr wyneb yn debygol o gynyddu yn ardal CBSC drwyddi draw yn y dyfodol. Hefyd disgwylir i CBSC fod yn fwy agored i niwed mewn perthynas â llifogydd llanwol wrth i lefel y môr godi.<br><br>Bu i adroddiad Foresight ar Lifogydd yn y Dyfodol awgrymu y bydd y niwed economaidd blynyddol yng Nghymru yn codi o £7 miliwn yn 24 i £1,235 miliwn yn y 28au<br>o dan y senario mwyaf tebygol. Ond, fel y canfu Adroddiad Strern, gall gweithredu nawr leihau cyfanswm y niwed economaidd yn yr hirdymor. | Bydd yr effeithiau a ragfynegir o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd hyd at 25 yn rhoi straen sylweddol ar seilwaith a'r adnoddau sydd ar gael ar draws y DU yn cynnwys yn ardal CBSC a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â risg llifogydd. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLL yma nodi polisïau, cynigion a chanllawiau sydd yn ymateb i'r effeithiau a ragfynegir o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd ac sydd yn caniatáu i gymunedau a busnesau yn ardal CBSC addasu i'r hinsawdd newidiol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag addasu i newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd asedau amgylcheddol yn ardal CBSC. |
| 8. Asedau Perthnasol | **Defnydd Tir:** Mae trefi arfordirol y Gogledd, Conwy, Bae Colwyn a Llandudno, yn gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer gwasanaethau, cyflogaeth, tai a datblygiadau manwerthu ar gyfer y cymunedau amgylchynol. Mae gan y trefi ym yma yn benodol statws presennol fel y prif ganolfannau gwasanaethau.<br><br>Mae Canol Trefi Conwy a Bae Colwyn wedi eu gosod ar frig yr hierarchaeth manwerthu a masnachu yn y fwrdeistref Sirol ac fe'u diffinnir fel Canolfannau Isranbarthol. Mae Llanrwst, Betws-y-Coed, Abergele, Penmaenmawr a Llanfairfechan yn chwarae rôl strategol yn y Fwrdeistref Sirol fel pwyntiau ffocws ar gyfer gwasanaethau, trafnidiaeth a gweithgaredd cymunedol. Mae Llandudno yn yr un modd yn chwarae rôl bwysig fel cyrchfan hamdden a thwristaidd.<br><br>Mae'r cymunedau gwledig yn y de yn cynnwys nifer uchel o gymunedau pentrefol bach sydd â nodweddion lleol cryf. Mae'r cymunedau yma wedi eu lleoli o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Mae'r CDLl mabwysiedig yn nodi Ardal Twf Adnewyddu Strategol allweddol (SRGAau) yn ardal CBSC sydd yn targedu canol a dwyrain Conwy a Bae Colwyn. Mae nifer o Safleoedd Datblygu Cyflogaeth Trefol (Parc Masnach Mochdre, Cyffordd Llandudno, Llandudno 'ar-lein', Parc Busnes Abergele, Lynx Express, Parc Busnes Morfa Conwy, Tir ar Ffordd Maelgwyn, Hen Laethdy ym Mochdre a Ty Gwyn) wedi cael eu dyrannu, tra bod safleoedd gwledig wedi bod yn gyfyngedig.<br><br>Hefyd mae'n bwysig nod Uwch Gynllun Bae Colwyn, sydd yn gynwysedig yn y CDLl mabwysiedig. | Mae yna angen parhaus i adfywio cymunedau yn ardal CBSC sydd â lefelau uchel o amddifadedd. Hefyd mae angen darparu defnydd tir cynaliadwy er mwyn bodloni anghenion a glustnodir, yn cynnwys mwy o ddarpariaeth tai a chyflogaeth, tra'n manteisio ar gryfderau CBSC a gwarchod defnyddiau tir sensitif megis amaeth. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma gefnogi a hyrwyddo defnyddio asedau perthnasol yn briodol. Dylai nodi strategaeth ofodol, cynigion a chanllawiau er mwyn optimeiddio'r defnydd tir, adnoddau naturiol a seilwaith. Yn benodol, dylai'r CDLl newydd nodi strategaeth ofodol, cynigion a pholisïau sydd yn optimeiddio'r defnydd o seilwaith presennol yn ardal CBSC ac sydd yn ei ddiogelu.<br><br>Dylai unrhyw ofyniad i ddarparu seilwaith newydd neu wedi ei uwchraddio er mwyn delio â chyfyngiadau capasiti presennol, datgarboneiddio sectorau economaidd allweddol neu gefnogi twf poblogaeth, cyflogaeth ac economaidd gael ei gynllunio drwy'r Adolygiad o'r CDLl ac mae'n rhaid i hynny ystyried materion amgylcheddol perthnasol. Mae hynny yn golygu y dylai'r CDLl newydd gynnwys fframwaith polisi er mwyn cefnogi defnyddio technolegau ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, adnoddau naturiol, lliniaru newid yn yr hinsawdd, cysylltedd a hygyrchedd. |
| | **Seilwaith trafnidiaeth:**<br><br>*Rhwydwaith Ffyrdd*<br>Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn cysylltu ardal CBSC â Bwrdeistrefi Sirol ffiniol ac ardaloedd consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r ffyrdd canlynol yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Allweddol yn ardal CBSC. A55 (llwybr Arfordirol y Gogledd) a'r A47 (llwybr Canolog).<br><br>Mae'r ddwy brif ffordd graidd yn cysylltu ardaloedd lleol o boblogaethau a phrif aneddiadau, ac yn cysylltu â'r rhwydweithiau o fyfyrdd B a'r holl ffyrdd dosbarthedig heb rifau yn ardal CBSC.<br><br>*Trafnidiaeth Cyhoeddus:*<br>Mae gan Gonwy nifer o orsafoedd trenau mewn trefi ((Abergele & Pensam, Bae Colwyn, Cyffordd Llandudno, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan) Hefyd, mae rheilffordd Dyffryn Conwy yn mynd o orsaf | Ar hyn o bryd, ceir tagfeydd mewn rhannau o'r rhwydwaith priffyrdd yn ardal CBSC yn ystod cyfnodau brig (A55 ac A47).<br><br>Bydd gwelliannau i seilwaith ardaloedd gwledig yn arwain at newid arwyddocaol mewn cysylltedd trafnidiaeth cyhoeddus y dylid ei ddefnyddio i gataleiddio twf economaidd a gwella mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus yn ardal CBSC. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Llandudno, ac yn cysylltu nifer o bentrefi gwledig; Deganwy, Glan Conwy, Tal-y-Cafn, Dolgarrog, Gogledd Llanrwst, Llanrwst, Betws-y-Coed, Pont-y-pant, Dolwyddelan, Y Bont Rufeinig a Blaenau Ffestiniog (ac mae'r olaf o yn sir ffiniol Meirionnydd.)<br><br>Mae yna lawer o wasanaethau bysiau yn cysylltu prif aneddiadau'r Gogledd, ac mae gwasanaeth bysiau Sherpa yn cysylltu'r chwe phrif lwybrau yn Eryri a'r pentrefi amgylchynol.<br><br>*Hedfanaeth a Morol*<br>Mae Maes Awyr Lerpwl John Lennon a Maes Awyr Manceinion o fewn taith 75 milltir o Gonwy, ac mae Maes Awyr Ynys Môn 9gyda hediadau i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd) 4 munud i ffwrdd. Mae hynny yn caniatáu mynediad at gyrchfannau Cenedlaethol a Rhyngwladol i deithwyr a nwyddau.<br><br>Mae dau brif borthladd gogledd Cymru (Porthladd Caergybi a Phorthladd Mostyn) o fewn 4 munud o Gonwy, sydd yn cynnig mynediad at longau nwyddau a mordeithiau rhyngwladol a chenedlaethol. Mae Porthladdoedd Mostyn yn un o brif leoliadau gosod/cydosod tyrbinau gwynt Ewrop. Mae Porthladd Caergybi yn cynnig cysylltiadau llongau i Weriniaeth Iwerddon, ac mae'n cael ei weithredu gan Stena Line.<br><br>*Teithio Actif*<br>Disgrifir bod llwybrau teithio actif yn ardal CBSC[25] yn wael a bod diffyg buddsoddi ynddynt. Ers 2013 mae Deddf teithio Actif (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i lwybrau teithio actif map o rwydwaith integredig (INM) gael eu darparu. Ar hyn o bryd mae CBSC wedi llunio cynigion ar gyfer pob tref (Abergele, Bae Colwyn , Conwy, Deganwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Llansanffraid Glan Conwy, Llysfaen Llanddulas, Hen Golwyn, Penmaenmawr, Bae Penrhyn, Llandrillo-yn-Rhos, Towyn a Bae Cinmel), sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. | | | |
| | **Seilwaith cyfleustodau:**<br><br><u>Ynni Solar:</u><br>Roedd gan CBSC 1,272 o brosiectau Solar PV[21] yn mynd rhagddynt yn 2016 oedd yn cynhyrchu 4,523Mwhe o drydan. Hefyd yn yr un flwyddyn roedd 256 o brosiectau Solar Thermol yn cynhyrchu 587Mwhth o wres.<br><br><u>Ffermydd Gwynt</u><br>Roedd gan CBSC 36 o brosiectau hwynt ar y tir[21] yn mynd rhagddynt yn 2016 oedd yn cynhyrchu 46,93Mwhe o drydan. Ond, roedd gan CBSC prosiect gwynt ar y môr ar hyd ei arfordir goleddol. | Mae angen parhau i ddatgarboneiddio'r sector cynhyrchu ynni ar draws Cymru er mwyn cefnogi newid i economi carbon isel a helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd. Ar yr un pryd, mae angen cymysgedd o ffynonellau cynhyrchu ynni er mwyn sicrhau sicrwydd cyflenwad parhaus er mwyn goresgyn materion anwadaledd sy'n gysylltiedig â thechnolegau gwynt a solar. Ar hyn o bryd mae grwpiau cymunedol yng Nghonwy yn gymwys i wneud cais i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr gan Fferm Wynt Ar y Môr GYM sydd yn cynnig £19 miliwn i gymunedau yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Dylid archwilio buddion cyfranogiad CBSC mewn prosiectau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â materion amddifadedd yn ardal CBSC drwy gyfleoedd ariannu ychwanegol.[26] | | |
| | **Rheoli Gwastraff**<br>Mae gwaredu, ailgylchu a thrin gwastraff yn cael ei wneud yng Nghanolfan Ailgylchu Cyngor Conwy. Yn 2016-217, o'r 62,56 tunnell o wastraff trefol a gynhyrchwyd, ailddefnyddiwyd, ailgylchwyd neu compostiwyd 39,149 tunnell ohono, a llosgwyd 5,438 tunnell ac roedd 62.6% o'r gwastraff wedi ei | Mae ardal CBSC yn rhagori ar gyfraddau ailgylchu cyfartalog y DU a Chymru yn gyffredinol, ac mae Cymru hefyd yn parhau â'r duedd gynyddol. Dylid cynnal medrusrwydd ailgylchu yng Nghonwy a dylid gwella hynny yn barhaus os yn bosibl. | | |

[25] Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (2015): http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/LDP-evidence-base/Local/North-Wales-Joint-Local-Transport-Plan-2015.pdf

[19] Deddf Teithio Actif (Cymru) 2013: http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Active-Travel/Active-Travel-Wales-Act-2013.aspx

[20] Ymgynghoriad Cyhoeddus Map Rhwydwaith Integredig (INM): http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Parking-Roads-and-Travel/Active-Travel/Integrated-Network-Map-INM-Routes-in-Conwy.aspx

[26] Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr http://cvsc.org.uk/en/gwynt-y-mor/

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ailddefnyddio/ailgylchu/compostio. Roedd hynny yn gadael 17,813 tunnell yn unig a anfonwyd i dirlenwi.[27]<br><br>Cyfradd ailgylchu'r DU ar gyfer Gwastraff Aelwydydd yn 2016 oedd 45.2% o'i gymharu â chyfartaledd o 57.3% yng Nghymru[28]. | | | |
| | **Adnoddau naturiol:** Un o nodweddion amlycaf CBSC yw'r dyffrynnoedd bychan sydd yn gysylltiedig â'r uwchdiroedd sydd yn rhan o hen Feysydd Glo Cymru. Yn fwy nodedig mae mapiau adnoddau mwynau/pyllau glo Gogledd Orllewin Cymru a Gogledd-ddwyrain Cymru yn cynnwys cyfran fawr o Ddyffryn Conwy.<br>Er bod gweithgaredd cloddio yn ardal wedi dod i ben, mae nifer o loddfeydd segur yn dal i fodoli a gallant effeithio ar lwybrau hydrolig islaw ac ar yr wyneb. | Mae angen parhau ag ymdrechion i adfer tirluniau yr effeithiwyd arnynt gan echdynnu mwynau. | | |
| 9. Treftadaeth Ddiwylliannol | **Asedau hanesyddol:** Fel a nodir yn **Nhabl A.1** uchod, mae yna 162 o Henebion Rhestredig yn ardal CBSC, 1735 o Adeiladau Rhestredig a 24 o Ardaloedd cadwraeth. Hefyd, mae Castell Conwy wedi ei ddynodi'n rhyngwladol fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. | Mae ardal CBSC yn gartref i ystod o asedau treftadaeth dynodedig, ac mae angen gwarchod pob un yn briodol rhag effeithiau ar eu huniondeb a'u gosodiad. Dylid cadw, diogelu a hyrwyddo eu cyfraniad i ardal CBSC a thref Conwy yn arbennig (tref treftadaeth y byd) er mwyn annog twristiaeth yn yr ardal. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau a chynigion er mwyn gwella asedau treftadaeth ar draws ardal CBSC, yn cynnwys yn nhermau effeithiau ar osodiad asedau o'r fath ac adnoddau archeolegol anhysbys. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchodaeth, cadwraeth, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol. |
| | **Yr Iaith Gymraeg:** Mae Strategaeth Iaith Gymraeg CBSC yn ymrwymo'r Cyngor i drin yr Iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ei fusnes cyhoeddus. Hefyd mae CBSC yn rhwymedig i helpu i godi proffil yr Iaith Gymraeg a diwylliant ymysg trigolion a gweithwyr.<br><br>Nododd cyfrifiad 2011[29] bod 27.4% o boblogaeth breswyl ardal CBSC (3,6) wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos bod canran uwch o drigolion iau yn siarad Cymraeg, a nod hynny yn gostwng gydag oedran. | Mae angen diogelu a chefnogi'r defnydd cynyddol o'r Iaith Gymraeg ymysg y boblogaeth breswyl yn ardal CBSC. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma gynnwys darpariaethau polisi er mwyn cefnogi twf yn y defnydd o'r Iaith Gymraeg. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchodaeth i'r iaith Gymraeg. |
| 10. Tirlun | **Ardaloedd dynodedig:** Fel a nodir yn **Nhabl A.1** uchod, nid oes yna'r un AONB yn ardal CBSC, ond mae rhan o ardal CBSC yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri, ac mae 6 SSSI yn yr ardal wedi eu dynodi hefyd fel NNRau. Hefyd, ar lefel leol mae gan CBSC 6 SLAau dynodedig. | Mae angen darparu gwarchodaeth briodol i dirluniau dynodedig, nodweddion tirlun pwysig, nodweddion tirlun sensitif a rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri. Hefyd mae angen diogelu golygfeydd allweddol a diogelu amwynderau gweledol. Mae'n rhaid i'r Adolygiad o'r CDLl ystyried yr ystod o nodweddion sensitif a chapasiti tirluniau ar draws ardal CBSC er mwyn cynnal datblygiadau newydd. | Mae'n rhaid i unrhyw CDLl fydd yn deilli o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi strategaeth ofodol, polisïau a chynigion sydd yn gwarchod a gwella nodweddion tirlun allweddol, gwella ansawdd cymeriad y tirlun lleol, yn sensitif i dderbynyddion gweledol perthnasol ac annog neilltuedd lleol. Hefyd dylai'r CDLl newydd sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu hintegreiddio'n dda â chymunedau presennol er mwyn creu teimlad cryf o le. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â nodweddion tirlun, cymeriad tirlun ac effeithiau gweledol. Dylai'r SA asesu effeithiau strategaethau gofodol, cynigion, polisïau a chanllawiau arfaethedig mewn perthynas â'r agweddau hyn er mwyn sicrhau bod yr Adolygiad o'r CDLl yn diogelu, a phan fo'n briodol, yn gwella lefel y warchodaeth a roddir i'r tirlun. |
| | **Gwead, cymeriad a chapasiti tirlun:**<br><br>T tu allan i'r prif aneddiadau, sydd yn gyffredinol ar hyd arfordir gogleddol Môr Iwerddon, mae ardal CBSC yn cynnwys cymysgedd o uwchdiroedd ynysig a gwyllt a chorstiroedd i orlifdiroedd afonol eang, porfeydd iseldirol, arfordiroedd a dyffrynnoedd serth. Un o nodweddion amlycaf y tirlun yw'r dyffrynnoedd bychan sydd yn gysylltiedig â'r uwchdiroedd sydd yn rhan o hen Feysydd Glo Gogledd Orllewin Cymru. Ymhellach i'r de mae'r tirlun yn agor i ddyffryn eang ac Eryri i'r de orllewin.<br><br>Mae cymeriad arfordirol a morlun ardal CBSC, yn arbennig y golygfeydd o a gosodiad Pen y Gogarth (Arfordir Treftadaeth a SLA) yn chwarae rôl bwysig o ran diffinio tirlun yr ardal.<br><br>Mae tirluniau hanesyddol cofrestredig ar draws Conwy a Sir Ddinbych yn cynnwys:<br>Pen Isaf Dyffryn Conwy , Creuddyn a Chonwy, Gogledd Arllechwedd, Pen Isaf Dyffryn Elwy a Mynydd Hiraethog. | | | |

21 Ystadegau Cymru: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Energy/lowcarbonenergygeneration-by-technology

[27] Ystadegau Cymru: Gwastraff a reolwyd (tunelli) yn ôl dul rheoli a blwyddyn https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal-Waste/wastemanaged-by-management-year

[28] Ystadegau'r DU ar Wastraff https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/683051/UK_Statisticson_Waste_statistical_notice_Feb_2018_FINAL.pdf

[29]Ystadegau Cymru Yr Iaith Gymraeg: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LA-BroaderAge-2001And2011Census

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bu i asesiad sensitifrwydd a chapasiti tirlun ar gyfer Datblygu Ynni Gwynt a gynhaliwyd yng Nghonwy a Sir Ddinbych arenwi nifer o leoedd oedd a sensitifrwydd uchel neu uchel iawn i ddatblygiadau ffermydd gwynt[30].<br><br>Mae ardal CBSC yn cael ei chroesi gan briffyrdd yr A47, A55 a rheilffordd Gogledd Cymru-Conwy, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar y tirlun amgylchynol. | | | |
| | **Amwynder gweledol:**<br><br>Mae tirlun naturiol a threftadaeth hanesyddol Castell Conwy yn cyfrannu at ei amgylchfyd naturiol. Ond, effeithir yn niweidiol ar amwynderau gweledol mewn rhai rhannau o ardal CBSC gan lefelau uchel o amddifadedd, ac mae hynny yn arwain beidio cynnal a chadw adeiladau a seilwaith. | | | |

[30] https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/local-development-plan/ldp-evidence-monitoring-information/conwy-denbighshire-landscape-sensitivity.pdf

## A.4 Esblygiad amodau gwaelodlin yn absenoldeb Adolygiad o'r CDLl

A.4.1 Mae'r adran hon yn ymateb i'r gofyniad yn y Rheoliadau SEA i ystyried esblygiad tebygol cyflwr presennol yr amgylchedd yn absenoldeb y cynllun neu raglen sy'n cael ei ystyried, sef yr Adolygiad o'r CDLl.

### Yr angen am yr Adolygiad o'r CDLl

A.4.2 Mae CBSC wedi penderfynu bod agen adolygiad o'r CDLl presennol (a fabwysiadwyd yn Hydref 2013) er mwyn gallu paratoi a mabwysiadu CDLl newydd cyn i gyfnod y CDLl presennol ddod i ben yn 222. Mae'r Adroddiad ar yr Adolygiad o CDLl Conwy (CBSC Ebrill 2018) yn casglu bod angen defnyddio'r weithdrefn 'Adolygiad Llawn' er mwyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r CDLl presennol a pharatoi CDLl newydd yn hytrach na gweithdrefn 'Ffurf Byr' fyddi ond yn arwain at fân adolygiadau (e.e. newidiadau i eiriad polisïau unigol neu ychwanegu safleoedd dyranedig unigol) at y CDLl presennol. Ystyrir bod angen CDLl newydd er mwyn ystyried ystod o Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mabwysiadu'r CDLl presennol.

A.4.3 Yn absenoldeb cynnal unrhyw Adolygiad o'r CDLl, ni fyddai CBSC yn gallu paratoi CDLl newydd (fel y cynigir hynny) na chynnig mân adolygiadau i'r CDLl presennol cyn iddo ddod i ben yn 222. Byddai hynny yn arwain at wactod polisi ar y lefel leol oherwydd nad yw Deddf 24 yn caniatáu i CDLlau Cymru barhau i fod mewn grym ar ôl iddynt ddod i ben. Mae hynny yn golygu, ar ôl 222 y byddai ardal CBSC sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri (sydd yn gynwysedig o dan CDLl ar wahân) heb Gynllun datblygu statudol cymwys. Byddai hynny hefyd yn mynd yn groes i TAN1 sydd yn  cynghori y byddai arenwi unrhyw ddiffyg mewn cyflenwad tir pum mlynedd yr awdurdod yn ysgogi adolygiad o CDLl er mwyn sicrhau y gellir cynnal digon o gyflenwad tir.

A.4.4 Mae'r Adroddiad ar Adolygiad o CDLl Conwy (Ebrill 2018) yn egluro y byddai'n debygol y byddai absenoldeb Cynllun datblygu ar gyfer ardal CBSC yn cael ei ecsbloetio gan y diwydiant datblygu, a hynny i raddau helaeth oherwydd y diffyg cyflenwad tir tai allai gael ei arenwi. O dan yr amgylchiadau hynny byddai'n debygol o ddod i'r amlwg na fyddai hynny yn unol â strategaeth ofodol y CDLl a byddai yna bwysau sylweddol i ryddhau safleoedd tir glas mewn lleoliadau anaddas. Mae'n debygol y byddai'r ddau ddeilliant yma yn arwain at amrywiaeth o effeithiau niweidiol arwyddocaol annerbyniol ar y testunau amgylcheddol a ragnodir yn Atodlen 2 Rheoliadau SEA, yn cynnwys:

- **Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna:** Gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl roi pwysau ar fioamrywiaeth yn cynnwys colli a darnio cynefinoedd, tra gallai cynnydd mewn traffig a sŵn aflonyddu ar rywogaethau sensitif;

- **Poblogaeth:** Gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl arwain at anghydnawsedd gofodol rhwng cyflenwad tai a'r galw am ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a seilwaith trafnidiaeth. Gallai hefyd arwain at anallu gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith cymunedol i fodloni anghenion y boblogaeth a arenwyd,  yn cynnwys mewn perthynas â galwadau poblogaeth sydd yn heneiddio.

- **Iechyd:** Byddai absenoldeb CDLl cymwys a chyfredol yn cyfyngau ar allu CBSC i wella iechyd corfforol a meddwl y boblogaeth drwy bolisïau ac ymyriadau cynllunio gofodol. Os na chyflawnir cynnydd mewn gweithgaredd corfforol a theithio actif, bydd materion iechyd megis gordewdra, anweithgarwch a dewisiadau ffordd o fyw gwael n parhau i effeithio ar boblogaeth ardal CBSC, gan achosi cynnydd mewn afiechyd, gwaethygu anghydraddoldeb iechyd a chyfyngu ar ddisgwyliad oes. Hefyd byddai absenoldeb Adolygiad o'r CDLl yn atal CBSC rhag gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llawn, ac yn benodol rhag cyflawni'r ddyletswydd sector cyhoeddus o dan Adran 3 y Ddeddf, oherwydd na fyddai unrhyw fecanwaith ar gael er mwyn alinio

framwaith polisi cynllunio CBSC â'r amcanion a nodir yng Nghynllun Llesiant Conwy a Sir Ddinbych 2018-223. Hefyd, gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl arwain at golli ardaloedd o fannau agored, lleihau cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol gyda deilliannau iechyd niweidiol cysylltiedig.

- **Pridd** Gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl atal tir halogedig rhag cael ei adfer a byddai hynny yn arwain at golli adnoddau tir pwysig am byth (e.e. mawndiroedd o ansawdd uchel). Yn absenoldeb strategaeth ofodol CDLl cyfredol, gallai mwy o bwysau i ddatblygu cyfleusterau newydd, tai a defnydd fyddai'n cynhyrchu cyflogaeth arwain hefyd at golli'r tir amaethyddol gorau a phwysicaf yn lleol.

- **Dŵr:** Gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl roi pwysau ar adnoddau dŵr ac effeithio'n niweidiol ar ansawdd yr amgylchedd dŵr.

- **Ansawdd Aer a Ffactorau Hinsawdd:** Gallai dibyniaeth ar geir preifat a mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau gynyddu pe byddai datblygiadau yn digwydd mewn lleoliadau anghynaladwy neu'n groes i strategaeth y CDLl. Hefyd, byddai cyfleoedd i fynd ati fynd ati'n rhagweithiol i annog newid moddau teithio i gerdded, seiclo a thrafnidiaeth yn cael eu colli. Yn absenoldeb newid sylweddol yn y tymor byr tuag at ddefnyddio cerbydau trydan, byddai'r cynnydd canlyniadol mewn traffig yn cynyddu llosgi tanwydd ffosil, allyriadau carbon a llygredd atmosfferig lleol, a gollwng mwy o ronynnau yn arbennig. Byddai hynny yn gweithredu yn erbyn ymdrechion polisi ehangach i ddatgarboneiddio sectorau economaidd allweddol yn cynnwys trafnidiaeth a lliniaru newid yn yr Hinsawdd. Gallai hefyd arwain at waethygu ansawdd aer ac arwain at angen i CBSC ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMSau) er mwyn mynd i'r afael ag ardaloedd ag ansawdd aer gwael.

- **Asedau Perthnasol:** Mae'n debygol y byddai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl yn cynyddu pwysau a chyfyngiadau capasiti ar ystod o seilwaith hanfodol. Gallai hynny ynddo ei hun arwain at amryw o effeithiau amgylcheddol yn ogystal â chyfyngu ar dwf tai, economaidd a chyflogaeth hirdymor ar draws ardal CBSC. Yn fyr, heb yr Adolygiad o'r CDLl mae'n debygol na fyddai ystod o seilwaith fyddai eu hangen i fodloni anghenion a arenwyd ar draws ardal CBSC yn cael eu cyflawni.

- **Treftadaeth Ddiwylliannol:** Gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl ychwanegu pwysau ar ardaloedd sensitif o ddiddordeb hanesyddol a/neu archeolegol, yn ogystal â thanseilio cymeriad yr ardaloedd cadwraeth; a

- **Thirlun:** Gallai mwy o bwysau datblygu mewn lleoliadau anghynaladwy neu fyddai'n groes i strategaeth y CDLl effeithio'n arwyddocaol negyddol ar gymeriad tirlun ardal CBSC, yn arbennig petai datblygiadau newydd ychwanegol yn cael eu crynhoi mewn ardaloedd o werth tirlun uchel (e.e. yn y 9 SLA presennol ar draws ardal CBSC).

A.4.5 Hefyd yn absenoldeb Cynllun Datblygu statudol cymwys a chyfredol, efallai y byddai angen dargyfeirio adnoddau cynllunio CBSC oddi wrth weithgareddau cynllunio datblygu ar gyfer paratoi CDLl newydd a thuag at wrthod achosion 'cynllunio drwy apêl' annymunol. Felly byddai'n fanteisiol i CBSC gynnal Adolygiad o'r CDLl tra bod y CDLl presennol yn dal mewn grym. Mae Cytundeb Cyflawni Adolygiad o CDLl Conwy (Mai 2018) yn nodi amserlen fwriedig fydd yn arwain at baratoi a mabwysiadu CDLl newydd erbyn Medi 221. Mae hynny beth amser cyn y daw CDLl presennol Conwy i ben ar ddiwedd 222, ac felly mae'n darparu peth sicrwydd petai proses yr Adolygiad o'r CDLl, yn arbennig yr Archwiliad o Ddogfen Adneuo'r CDLl, yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

### Defnyddio Gweithdrefn Adolygu'r CDLl Ffurf Llawn a Byr

A.4.6 petai'r Ffurf Byr wedi cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r Adolygiad Llawn ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl yma, byddai cwmpas unrhyw newidiadau i'r CDLl yn gyfyngedig. Byddai hynny yn atal i'r CDLl rhag gallu ystyried yn llawn yr ystod o Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi ymddangos ers Hydref 2013. Mae'r effeithiau amgylcheddol niweidiol yn debygol o fod yn debyg, er nad mor ddifrifol â'r rhai a restrir uchod mewn perthynas ag absenoldeb posibl Cynllun Datblygu statudol cymwys ar gyfer ardal CBSC.

A.4.7 Felly Mae'r Adolygiad o'r CDLl y cael ei gynnal yn unol â'r weithdrefn 'Adolygiad Llawn' er mwyn galluogi i CBSC baratoi CDLl cynhwysfawr a chyfredol erbyn 221.

# Appendix B Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## B.1 Cyflwyniad

B.1.1 Mae'r Atodiad yma yn ategu **Adran 4** Adroddiad Cwmpasu SA Adolygiad o CDLl Conwy drwy ddarparu adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a strategaeth cymwys sydd yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLl. Prif bwrpas yr Adolygiad yma yw arenwi amcanion a gofynion polisi perthnasol mewn perthynas â gwarchod yr amgylchedd yn y dogfennau polisi a arenwi y dylai'r Adolygiad o'r CDLl a'r broses SA gysylltiedig hon eu hystyried (neu eu hysbysu).

## B.2 Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni Perthnasol

6.5.3 Yn unol â rheoliadau SEA, mae **Tablau B2.1 – Tabl B.3** isod yn nodi adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill sydd yn berthnasol i'r Adolygiad o'r CDLl a'r broses SA gysylltiedig. Yn wreiddiol roedd yr adolygiad yma'n cael ei ddarparu'n Atodiad B Adroddiad Adolygiad Cwmpasu SA CDLl (Awst 2018) a bydd yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen drwy gydol proses Adolygiad o'r CDLl er mwyn ystyried datblygiadau polisi newydd ac unrhyw ddogfennau polisi ychwanegol sy'n berthnasol ac yn cael eu nodi gan y Cyrff Ymgynghori SEA. Diweddarwyd yr adolygiad eisoes i gyfeirio at goblygiadau:

- Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (PPW) - 10fed Argraffiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae'n disodli Polisi Drafft Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad a Polisi Cynllunio Cymru 9fed Argraffiad y cyfeirir atynt yn flaenorol o fewn Adroddiad Cwmpasu Adolygiad CDLl Conwy; a,

- Dogfennau polisi ychwanegol a nodwyd gan Gyrff Ymgynghori SEA sydd angen ystyriaeth ychwanegol.

6.5.4 Mae **Tabl B2.1** isod yn darparu lefel uchel o adolygiad o gynlluniau perthnasol a rhaglenni eraill ar bob graddfa gofod, ac eithrio Polisi Cynllunio Cymru **-** 10fed Argraffiad a pholisïau cynllunio cenedlaethol, cyngor a chyfarwyddyd eraill sy'n berthnasol. Mae goblygiadau'r rhain ar gyfer yr Adolygiad CDLl a'r prosesau SA yn cael eu hystyried ar wahân yn **Nhablau B2.2** a **B2.3** yn ôl eu trefn.

Tabl B2.1: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Eraill

| Testun SEA | Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol | Trosolwg o Bwrpas a Gofynion Allweddol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| **Rhyngwladol** | | | | |
| Poblogaeth (yn cynnwys materion economaidd gymdeithasol perthnasol). | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig (1989) at Hawliau Plant 1989, Adroddiad Argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig (2016) ar Hawliau Plant, Y Cenhedloedd Unedig (2016) Cynefinoedd III (Quinto), Comisiwn Economaidd ar gyfer Ewrop y Cenhedloedd Unedig (1998) Confensiwn Aarhus. | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith rhyngwladol ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn perthynas â phob penderfyniad a wneir. Yn benodol:<br>• Mae Cynefinoedd II y CU yn canolbwyntio ar ddatblygu trefol ar draws holl gymunedau'r byd ar lefel leol gan geisio cyflawni cynaliadwyedd ar y cyd; a<br>• Mae Confensiwn Aarhus yn gweithredu hawliau'r cyhoedd mewn perthynas â'r amgylchedd. | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cyngor a chanllawiau sydd yn ymestyn y datblygu cynaliadwy a ddarperir ac yn diogelu tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i broses yr Adolygiad o'r CDLl fod yn wrthrychol, tryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi ei chynnal yn deg. | O'i gymhwyso yn ei gyfanrwydd, dylai'r Fframwaith SA ddarparu swît holistig o feini prawf asesu er mwyn penderfynu ar gyfraniad unrhyw CDLl newydd at gyflawni datblygu cynaliadwy. |
| Iechyd Pobl | Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (1999) ar Sŵn yn y Gymuned 1999, Cynllun Gweithredu ar Amgylchedd ac Iechyd Plant Sefydliad Iechyd y Byd (24) | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith rhyngwladol sydd yn cydnabod pwysigrwydd diogelu a gwella iechyd pobl. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn cefnogi gwarchod a gwella iechyd pobl yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchod a gwella iechyd pobl. |
| Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | **Safleoedd dynodedig:**<br>Confensiwn Ramsar ar Wlypdiroedd (1971), Strategaeth Bioamrywiaeth - Ein Yswiriant Bywyd, AEWA (1995).<br>**Cynefinoedd blaenoriaethol a nodedig eraill:**<br>Y Confensiwn ar Warchod Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt (Confensiwn Bonn), Y Confensiwn ar gyfer Gwarchod Amgylchedd Morol Gogledd Ddwyrain Môr Iwerydd (Confensiwn OSPAR), Confensiwn UNESCO (1973) ar Fasnachu Rhyngwladol mewn Rhywogaethau o Ffawna a Fflora Dan Fygythiad, Y Cenhedloedd Unedig (1992) Confensiwn Rio ar Fioamrywiaeth. | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith rhyngwladol er mwyn diogelu safleoedd sydd wedi eu dynodi ar lefel ryngwladol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau pwysig rhag niwed. Yn benodol:<br>• Mae Confensiwn Rio ar Fioamrywiaeth yn gytundeb rhyngwladol ar warchod amrywiaeth biolegol, defnydd cynaliadwy ac yn annog rhannu defnydd masnachol o adnoddau genetig. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn osgoi effeithiau ar fioamrywiaeth wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer gweithgareddau ailddatblygu. | Mae'n rhaid i Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchodaeth, cadwraeth a gwella safleoedd dynodedig. |
| Pridd a Thir | Y Cenhedloedd Unedig (21) Confensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus | Mae'r confensiwn yma yn amcanu at lleihau cynhyrchu a defnyddio llygryddion organig parhaus. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn sicrhau bod pob gweithgaredd datblygu yn gwahardd defnyddio'r llygryddion yma. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwahardd Llygryddion Organig Parhaus. |
| Dŵr | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig (1982) ar Gyfraith y Môr. | Mae'r confensiwn yma yn dangos hawliau a chyfrifoldebau cenhedloedd mewn perthynas â defnyddio cefnforoedd y byd yn deg. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn sicrhau bod pob gweithgaredd datblygu yn cydymffurfio â chanllawiau'r confensiwn. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchod ardaloedd arfordirol ac osgoi effeithiau negyddol ar y môr o ganlyniad i ddatblygu. |
| Aer | Canllawiau Ansawdd Aer WHO (1979), Confensiwn Genefa ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pellgyrhaeddol | Mae'r canllawiau yma yn darparu asesiad penodol o effeithiau Llygredd Aer ar iechyd ac mae'n darparu canllawiau y gellir eu cymhwyso'n fys-eang ar gyfer llygryddion amrywiol. | Dylai unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad yma o'r CDLl nodi polisïau a chanllawiau ar lefelau derbyniol o Ansawdd Aer ac agosrwydd cymunedau at ddatblygiadau alla achosi lefelau ansawdd aer annerbyniol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag ansawdd aer lleol ac effeithiau cysylltiedig ar iechyd. |
| Ffactorau hinsawdd | Protocol Kyoto i Gonfensiwn y CU ar Newid yn yr Hinsawdd, Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, Y Cenhedloedd Unedig (29) Cytundeb Copenhagen, Y Cenhedloedd Unedig (21) Fframwaith Addasu Cancun, Y Cenhedloedd Unedig (2016) Cytundeb Paris. | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith rhyngwladol sydd yn nodi'r angen i liniaru newid yn yr hinsawdd ac i gymryd camau i addasu. Yn benodol:<br>• Bu i Gytundeb Paris yn COP 21 gytuno i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr gyda'r nod hirdymor o gyfyngu cynnydd mewn tymheredd i dim mwy na 2%. Mae'r cytundeb yma yn atgyfnerthu camau lliniaru newid yn yr hinsawdd a chamau addasu yn fyd-eang. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar gyfer lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a achosir gan ddatblygu, a bodloni'r gofynion allweddol fel y'u hamlinellir gan y polisïau. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â defnyddio ynni, effeithiolrwydd adnoddau, trafnidiaeth gynaliadwy, allyriadau GHG a lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn ardal CBSC. |
| Asedau Perthnasol | Y Cenhedloedd Unedig (1989) Confensiwn Basel | Mae'r confensiwn yma yn amcanu at leihau symudiadau gwastraff peryglus rhwng cenhedloedd a swm/gwenwynedd y gwastraff a gynhyrchir. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn lleihau'r gwastraff gwenwynig a gynhyrchir. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, cysylltedd a hygyrchedd. |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | Adroddiad Diwylliant Dinasoedd y Byd 2015 - mesurau ac asedau diwylliannol, UNESCO (1972) Confensiwn ar Warchod | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith rhyngwladol er mwyn arenwi a gwarchod asedau treftadaeth ddiwylliannol. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a | Dylai'r Fframwaith SAA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchodaeth, |

| Testun SEA | Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol | Trosolwg o Bwrpas a Gofynion Allweddol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| | Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd, UNESCO (21) Confensiwn ar Warchod Treftadaeth Diwylliannol Tanddwr. | Maent yn amcanu at sicrhau bod gan asedau treftadaeth swyddogaeth yn y gymuned a'u bod wedi eu hintegreiddio i amrywiol raglenni cynllunio. | chanllawiau er mwyn gwarchod, diogelu a cyflwyno ein hasedau treftadaeth ddiwylliannol fel y nodir hynny mewn polisi rhyngwladol. | cadwraeth, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol. |
| Tirlun | Ddim yn berthnasol | | | |
| Effeithiau Cydberthnasol | Datganiad Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy, Cyfathrebu COM (25) 666: Symud Ymlaen gyda Defnydd Cynaliadwy, y Cenhedloedd Unedig (1992( Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu, Y Cenhedloedd Unedig (22) Uwch Gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy. | Mae'n ymrwymo i ddefnyddio adnoddau yn gynaliadwy ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys canllawiau ar gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy. |
| **Ewropeaidd - mae'r holl fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yn cael eu hysbysu gan fframweithiau rhyngwladol lefel uwch perthnasol** | | | | |
| Poblogaeth (yn cynnwys materion economaidd gymdeithasol perthnasol). | **Rheoli ac Unedau Daearyddol Ystadegol:**<br>Y Comisiwn Ewropeaidd ( 23). Cyfarwyddeb Gwybodaeth y Sector Cyhoedd (PSI) 23/98/EC,<br>**Demograffeg, Anghydraddoldeb, Allgau Cymdeithasol ac Amddifadedd:**<br>Y Comisiwn Ewropeaidd ( 2013).Tuag at Fuddsoddi Cymdeithasol er mwyn Twf a Chydlyniant 2014-22<br>Y Comisiwn Ewropeaidd ( 21). Ewrop 22: Strategaeth ar gyfer twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd er mwyn ymestyn cydlyniant cymdeithasol, rhyddid gwybodaeth, twf economaidd a chynhwysiant. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar faterion economaidd gymdeithasol fel yr amlinellir hynny yn y Polisïau Ewropeaidd. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion i hwyluso twf cadarnhaol ar gyfer yr economi a gwella cydlyniant cymdeithasol. |
| Iechyd Pobl | **Iechyd Corfforol/Dewisiadau Ffordd o Fyw:**<br>Y Gyfarwyddeb Sŵn (Cyfarwyddeb 22/49/EC), Y Comisiwn Ewropeaidd ( 22) Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol (END) 22/49/EC<br>**Seilwaith Iechyd:**<br>Y Comisiwn Ewropeaidd ( 27) Law yn Llaw at Iechyd - Ymagwedd Strategol ar gyfer yr UE 28-2013. | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd ar gyfer lleihau llygredd sŵn a hyrwyddo gweledigaeth strategol ar gyfer gwella safonau iechyd. Yn benodol:<br>• Mae Cyfarwyddeb Sŵn yr UE yn tanategu polisïau amgylcheddol trosfwaol megis monitro llygredd sŵn drwy lunio mapiau sŵn strategol, cynnal ymgynghoriadau ar gysylltiad â sŵn a mynd i'r afael â materion lleol drwy gynlluniau gweithredu. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn gwella iechyd a llesiant, yn cynnwys mewn perthynas â lleihau llygredd sŵn. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion ar gyfer lefelau sŵn a lefelau diogelwch eraill derbyniol er mwyn gwarchod iechyd pobl. |
| Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | **Safleoedd dynodedig:**<br>Cyfarwyddeb Adara yr UE Cyfarwyddeb 29/147/EC/ ar warchod adar gwyllt), Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (Cyfarwyddeb yr UE 92/43/EEC ar warchodaeth cynefinoedd naturiol ac ar ffawna a fflora gwyllt (Fel y'i diwygiwyd gan 97/62/EC, Cyngor Ewrop (1981) Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Ewrop - Confensiwn Bern, Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE - Ein Yswiriant Bywyd, Ein Cyfalaf Naturiol: Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE (2011), Y Comisiwn Ewropeaidd ( 24).Y Comisiwn Ewropeaidd ( 28).<br>**Cynefinoedd blaenoriaethol a nodedig eraill:**<br>Strategaeth Bioamrywiaeth - Ein yswiriant Bywyd, Ein Cyfalaf Naturiol: Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE(2011), | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd er mwyn diogelu safleoedd sydd wedi eu dynodi ar lefel Ewropeaidd am resymau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau pwysig rhag niwed. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn unol â deddfwriaeth a pholisi Ewropeaidd. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion priodol er mwyn asesu'r posibilrwydd o golli cynefinoedd, effeithiau gweithgareddau hamdden, echdynnu dŵr, llygredd ac effeithiau aflonyddu o ganlyniad i bolisïau, cynigion a chanllawiau mewn unrhyw CDLl newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl. |

| Testun SEA | Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol | Trosolwg o Bwrpas a Gofynion Allweddol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| Pridd a Thir | **Amodau Geolegol a Thir:**<br>Strategaeth Thematig Ewropeaidd ar Warchod Pridd Y Comisiwn Ewropeaidd ( 26)., Cyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol 24/35/EC. | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo defnyddio adnoddau pridd yn gynaliadwy, adfer pridd ac atal diraddio tir. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar ddefnyddio pridd ac adnoddau tir yn gynaliadwy ac effeithlon. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag adfer tir halogedig, ansawdd pridd a llygredd i dderbynyddion ar y tir. Hefyd dylid ystyried risgiau canlyniadol i iechyd pobl a daeareg, mewn ffordd holistig. |
| Dŵr | **Risg Llifogydd:**<br>Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE (Cyfarwyddeb 27/6/EC), Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE (Cyfarwyddeb 2/6/EC), Y Comisiwn Ewropeaidd ( 26) Cyfarwyddeb Dŵr Tir 26/118/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 1991) Cyfarwyddeb Dŵr Gwastraff Trefol 91/271/EEC,<br>**Ardaloedd Morol a Chyrff Dŵr:**<br>Y Comisiwn Ewropeaidd ( 1998). Cyfarwyddeb Dŵr Yfed 98/83/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 26).Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi 26/7/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 28). Cyfarwyddeb strategaeth Morol 28/56/EC, Cyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol 28/15/EC, Cyfarwyddeb Fframwaith strategaeth Morol 28/56/EC | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd sydd yn amcanu at warchod ansawdd yr amgylchedd dŵr, yn cynnwys drwy sicrhau lefelau diogel ar gyfer dŵr ymdrochi ac yfed a thrwy hyrwyddo systemau draenio trefol cynaliadwy. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cyngor a chanllawiau ar gyfer lliniaru risg llifogydd, gwarchod y cyflenwad dŵr yfed a gwarchod y gymuned rhag lefelau dŵr anniogel. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag ansawdd yr amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn ogystal â rheoli risgiau dŵr. |
| Aer | **Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac Ansawdd Aer Gwael:**<br>Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol (Cyfarwyddeb 21/75/EU), Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr UE (Cyfarwyddeb 28/5/EC ar ansawdd aer yr amgylchedd ag aer glanach i Ewrop), Y Comisiwn Ewropeaidd ( 1991) Cyfarwyddeb Nitradau 91/676/EEC, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 21), Rhaglen Aer Glân i Ewrop (CAFE), Y Comisiwn Ewropeaidd ( 25) Strategaeth Thematig yr UE ar Ansawdd Aer, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 28) Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd ac Aer Glanach i Ewrop 28/5/EC a Phedwerydd Epil Gyfarwyddeb Fframwaith Ansawdd Aer 24/17/EC. | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd er mwyn gwarchod a gwella ansawdd aer. Mae nifer o fesurau allweddol yn cynnwys:<br>• Cyfyngu ar werthoedd a throthwyon rhybuddio ar gyfer nifer o lygryddion aer, yn cynnwys nitrogen deuocsid a gronynnau; a<br>• Monitro/adrodd gorfodol ar ansawdd aer a chynhyrchu cynlluniau gweithredu pan dorrir ar gyfyngiadau. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn rheoli a lleihau lefelau llygredd aer yn unol â deddfwriaeth a Ewropeaidd. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag asesu effeithiau ar iechyd ac achosion ansawdd aer gwael. |
| Ffactorau hinsawdd | **Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr:**<br>UE (29) Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (29/28/EC), Ewrop Ynni Effeithlon, Y Cenhedloedd Unedig (1994), EU (29) Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (29/28/EC, ), Y Comisiwn Ewropeaidd ( 21). Cyfarwyddeb Terfyn Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 21/81/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 27) Y Pecyn Hinsawdd ac Ynni Integredig, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 21) Ynni 22 - Strategaeth ar gyfer Ynni Cystadleuol, Cynaliadwy a Diogel, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 2011) Rhaglen Mapio ar gyfer Symud at economi Carbon Isel Cystadleuol yn 25, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 212) Cyfarwydded Effeithlonrwydd Ynni (212/27/EU).<br>**Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd:**<br>Cyngor Ewropeaidd ( 2013).Seithfed Cynllun Gweithredu yr UE (EAP) (2013-22, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 2013).Strategaeth ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 2013). Seithfed Rhaglen Weithredu Amgylcheddol hyd at 22 'Byw yn dda, o fewn cyfyngiadau ein planed', Y Comisiwn Ewropeaidd ( 2014) Fframwaith Polisi 23 ar gyfer Hinsawdd ac Ynni, Y Comisiwn Ewropeaidd ( 25) Cynllun Masnachu Allyriadau (EU ETS) | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd er mwyn ymateb i'r her fyd eang ag yw newid yn yr hinsawdd. Yn bennaf, y themâu allweddol yw lleihau newid yn yr hinsawdd y y dyfodol drwy liniaru a gweithredu mesurau addasu.<br>Mae'r targedu allweddol yn cynnwys:<br>• Mae gan bob Aelod Wladwriaeth darged wedi ei gyfrifo yn unol â chyfran yr ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn eu defnydd terfynol gors ar gyfer 22. Mae'n ofynnol i'r DU ganfod 15% o'i hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy, yn cynnwys biomas, hydro, gwynt a phŵer solar erbyn 22; ac<br>• O 1 Ionawr 217, dylai cyfran biodanwyddau a biohylifau o arbedion allyriadau gael ei gynyddu i 5%. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn osgoi ffactorau cyfranogol newid yn yr hinsawdd. | Dylai'r Fframwaith SEA gynnwys amcanion mewn perthynas â defnyddio ynni, effeithiolrwydd adnoddau gynaliadwy, allyriadau GHG a lliniaru newid yn yr hinsawdd. |
| Asedau Perthnasol | **Seilwaith:**<br>Y Comisiwn Ewropeaidd ( 2011) Rhaglen Mapio Ardal Drafnidiaeth Ewropeaidd Sengl, Cyfarwyddeb perfformiad Ynni | Mae'r dogfennau yma yn darparu fframwaith Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo'r economi gylchol a rheoli gwastraff yn gyfrifol.<br>Mae'r targedu allweddol yn cynnwys: | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag effeithlonrwydd |

| Testun SEA | Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol | Trosolwg o Bwrpas a Gofynion Allweddol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| Ffactorau hinsawdd | **Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr;**<br>Strategaeth Rheoli carbon CBSC 2018-223 | Mae Strategaeth Rheoli Carbon newydd ar gyfer ardal CBSC yn ymateb i'r angen i CBSC barhau i gyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio sectorau economaidd allweddol. Mae'r strategaeth yn cynnwys ystyriaeth i rôl ynni adnewyddadwy mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Yn benodol, dylai'r Adolygiad o'r CDLL gynllunio ar gyfer seilwaith newydd a diweddariedig er mwyn cefnogi datgarboneiddio sectorau economaidd allweddol yn ardal CBSC. Felly dylai'r CDLl newydd gynnwys fframwaith polisi er mwyn cefnogi defnyddio technolegau ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Fel rhan o hynny, dylai Amcanion perthnasol yr SA neu Gwestiynau Canllaw cysylltiedig fynd i'r afael â'r angen i ddefnyddio gosodiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol. |

| Testun SEA | Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol | Trosolwg o Bwrpas a Gofynion Allweddol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Perthnasol | **Defnydd Tir:** Adroddiad Amgylcheddol CBSC 2016/17.<br>**Seilwaith trafnidiaeth;**<br>Trac Twf 36 (Gogledd Cymru), Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru<br>**Seilwaith cyfleustodau;**<br>Asesiad o Ynni Adnewyddadwy Conwy<br>**Rheoli Gwastraff;**<br>Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru.<br>**Adnoddau naturiol;**<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, Asesiad o Lesiant Conwy | Mae'r polisïau yma yn darparu canllawiau ar gyfer lleihau traffig ffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd, trafnidiaeth cyhoeddus, parcio, rheoli'r rhwydwaith trafnidiaeth a seiclo a cherdded.<br>Mae'r polisi cynllun gwastraff rhanbarthol yn darparu fframwaith cynllunio defnydd tir ar lefel ranbarthol. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) ddatblygu y gwasanaeth sydd yn bodloni eu hanghenion orau a rheoli eu gwastraff eu hunain.<br>Mae Asesiad o Lesiant Conwy a Sir Ddinbych yn crynhoi'r heriau mewn perthynas á Llesiant Economaidd, Amgylcheddol a Chymdeithasol sydd yn effeithio ar drigolion ardal CBSC, fel sydd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wedi ei hysbysu gan yr Asesiad o Lesiant, Mae Cynllun Llesiant Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2018-223) yn nodi mesurau polisi strategol er mwyn gwella llesiant yn cynnwys:<br>• Adeiladu ar y gronfa dystiolaeth bresennol er mwyn gwella ansawdd a mynediad at fannau agored; ac<br>• Annog cyfranogiad cymunedol mewn perthynas â rheoli mannau agored drwy'r cynllun Baner Werdd.<br>Mae Adroddiad Amgylcheddol CBSC yn darparu crynodeb blynyddol o berfformiad amgylcheddol CBSC ac mae'n darparu asesiad o gynnydd CBSC yn erbyn eu hamcanion amgylcheddol. Mae hynny yn cynnwys diweddariadau ar reoli gwastraff, defnydd CBSC o adnoddau naturiol, allyriadau nwy tŷ gwydr a chamau eraill i warchod yr amgylchedd. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â darparu trafnidiaeth yn rhesymol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â thwf asedau perthnasol. |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | **Asedau hanesyddol;**<br>Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2015 - 2018, Cynllun Rheoli Treftadaeth y Byd - Cestyll a Muriau Trefi y Brenin Edward 2016 - 226.<br>**Yr Iaith Gymraeg;**<br>Strategaeth Addysg yr iaith Gymraeg, Strategaeth Iaith Gymraeg Cymru, Cynllun strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy 217-22, Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy (2018), Asesiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy o Lesiant Lleol Ebrill (217), Strategaeth yr Iaith Gymraeg Cyngor Conwy. | Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy ar gyfer Conwy (2015) yn nodi uchelgais twristiaeth y sir - gan anelu at dyfu'r economi leol drwy fanteisio ar asedau hanesyddol a naturiol lleol (e.e. Tŵr Conwy).<br>Mae strategaeth yr iaith Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Bwrdeistref Conwy (217-22) yn disgrifio sut y bydd CBSC yn amcanu at godi proffil yr Iaith Gymraeg ymysg ei thrigolion a'i gweithwyr.<br>Mae Asesiad o Lesiant Conwy a Sir Ddinbych yn crynhoi'r heriau mewn perthynas á Llesiant Economaidd, Amgylcheddol a Chymdeithasol sydd yn effeithio ar drigolion ardal CBSC, fel sydd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wedi ei hysbysu gan yr Asesiad o Lesiant, Mae Cynllun Llesiant Lleol Conwy a Sir Ddinbych (2018-223) yn nodi mesurau polisi strategol er mwyn gwella llesiant yn cynnwys:<br>• Gweithio er mwyn gwneud y mwyaf o fuddion asedau diwylliannol, adeiledig a naturiol i drigolion CBSC, deall treftadaeth Gymreig drwy fapio safleoedd ac adeiladau, hyrwyddo defnydd o'r Iaith Gymraeg a hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddion yr asedau hynny. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwarchod a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a hyrwyddo llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardal CBSC. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchod asedau treftadaeth ddiwylliannol. |
| Tirlun | Ddim yn berthnasol | | | |
| Effeithiau Cydberthnasol | Yn y Lle Perffaith ar gyfer Busnes a Thwf - Strategaeth Twf Economaidd Conwy 217-227, Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy, Strategaeth Datblygu Gwledig Cymru, Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i strategaethau ategol: Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru., Cynllun Cysylltedd a Seilwaith Gogledd Cymru, strategaeth Cyfranogiad Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, CDLl 1, Uwchgynllun Bae Colwyn (2011), Cynllun Cyflwyno Uwch Gynllun Amrywiol Conwy Fesul Cam. | Mae'r dogfennau hyn yn nodi set eang o heriau economaidd gymdeithasol a llesiant sydd yn effeithio ar drigolion ardal CBSC ac yn nodi amcanion llesiant, strategaeth cynaliadwyedd a mesurau cysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â hyn. | Dylai unrhyw CDLl fydd yn deilli o'r Adolygiad o'r CDLl yma ymateb i'r amcanion llesiant a arenwyd yn lleol a dangos cydymffurfiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas a phob agwedd o iechyd a llesiant, yn cynnwys pob un o'r amcanion llesiant a ddiffinnir yng Nghynllun Llesiant Lleol Conwy a Sir Ddinbych 2018-223. |

## B.3 Adolygiad o Ofynion Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**B.3.1** Mae Tabl **B2.2** isod yn cyflwyno lefel uchel o adolygu o'r Polisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2018) i nodi gofynion polisi allweddol sydd angen eu hystyried o fewn yr Adolygiad CDLl ar prosesau SA cysylltiedig. **Nodir newidiadau polisi mawr rhwng PPW - 10fed Argraffiad a'r PPW blaenorol - 9fed Argraffiad (Tachwedd 2016) mewn perthynas â'r CDLl newydd hefyd.**

Tabl B2.2: Adolygiad o'r PPW - 10fed Argraffiad (2018)

<table>
<tr><th colspan="4">Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad</th></tr>
<tr><th>Testun SEA</th><th>Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol</th><th>Goblygiadau'r Adolygiad CDLl</th><th>Goblygiadau ar gyfer SA</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Poblogaeth<br>(gan gynnwys materion demograffeg a cymdeithasol-economaidd perthnasol))</td><td>Trosolwg o'r Pwrpas/Amcanion<br><br>Mae darpariaethau yn ymwneud â materion y boblogaeth a chymdeithasol-economaidd a chynllunio datblygu yn cael eu nodi ym Mhenodau 2, 4 a 5. Mae Creu Lleoedd yn ganolbwynt sylweddol o PPW 1, gyda'r nod o fewnosod cadernid ehangach i benderfyniadau cynllunio a dod â manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Yn gyffredinol, nod y PPW - 10fed Argraffiad yw darparu datblygu cynaliadwy drwy'r system gynllunio gan gynnwys yn nhermau bodloni anghenion dynodedig a gwella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.</td><td rowspan="2">Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yng nghyd-destun amgylchiadau lleol, yn benodol;<ul><li>Dilyn egwyddorion y datblygu cynaliadwy gan gynnwys dangos ystyriaeth briodol o'r pum ffordd o weithio' a gwelliant yn narpariaeth y pedwar agwedd o les: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.</li><li>Darpariaeth mathau addas o dai yn ôl yr angen heb effeithio'n negyddol ar amcanion strategol.</li></ul></td><td rowspan="2">Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion gan gynnwys cystadleurwydd economaidd a thwf, darpariaeth gwaith, llesiant cymdeithasol, ailddatblygu tir llwyd, tai, gwaith a mannau agored. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad.</td></tr>
<tr><td>Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi<br><br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i: Datblygiad Gofodol<ul><li>Fabwysiadu dull Creu Lleoedd i gynllunio, cynllunio polisi a gwneud penderfyniadau ac annog datblygu cynaliadwy;</li><li>Cydlynu datblygiadau a darpariaeth seilwaith;</li><li>Sicrhau bod dyraniadau yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllunio cenedlaethol perthnasol;</li><li>Cynnwys polisïau yn seiliedig ar feini prawf i fynd i'r afael â'r datblygiad heb ei ddyrannu'n benodol i'r cynllun datblygu a helpu i ymateb i unrhyw newid annisgwyl;</li><li>Cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn erbyn cynigion sy'n cael eu rhoi ymlaen ar safleoedd heb eu dyrannu y gellir eu hasesu;</li><li>Cynnwys polisïau sy'n mynd i'r afael yn hyblyg gyda newidiadau i adeiladau presennol;</li></ul>Tai<ul><li>Methodoleg chwilio dilyniannol newydd ar gyfer nodi safleoedd tai (PPW paragraffau 3.37 – 3.39);</li><li>Nodi targedau penodol yn lleol ar gyfer darparu safleoedd bychain; a,</li><li>Gofyniad i ystyried adleoli ac ailgynnig safleoedd sy'n tangyflawni ac nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan gynnwys ffurfio rhan o gyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai, lle bo'n briodol;</li><li>Mae'n rhaid bod paratoad CDLl yn sicrhau bod:</li><li>Digon o dir ar gael, neu bydd yn dod ar gael i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai;</li><li>Ystyried argaeledd safleoedd a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau gwag neu nad ydynt yn cael eu defnyddio, a'u haddasrwydd ar gyfer eu defnydd i dai;</li><li>Ystyried lleoliad safleoedd tai posib a'u hygyrchedd i swyddi, siopau a gwasanaethau drwy gludiant nad yw'n gar, a'r posibilrwydd o wella'r fath hygyrchedd;</li><li>Ystyried capasiti'r isadeiledd presennol a'r isadeiledd posibl, yn cynnwys cludiant cyhoeddus, dŵr a charthffosiaeth, cyfleustodau eraill ac isadeiledd cymdeithasol (megis ysgolion ac ysbytai), i ymgymryd â datblygiad pellach a'r gost o ychwanegu isadeiledd pellach;</li><li>Ystyried cydweddoldeb tai gyda defnyddiau tir sefydledig cyfagos, a allai gael eu heffeithio'n negyddol gan ddatblygiad preswyl sy'n gorgyffwrdd;</li><li>Cynnwys targed yr awdurdod cyfan ar gyfer tai fforddiadwy sydd wedi'u lleoli yn LHMA a nodi'r cyfraniadau a ddisgwylir y bydd agweddau'r polisi a nodwyd yn y CDLl yn eu gwneud i fodloni'r targed hwn;</li><li>Cynnwys trothwyon safle neu gymysgedd o drothwyon a thargedau sy'n benodol i'r safle, gan gynnwys y gyfran gywir o dai fforddiadwy;</li><li>Cael cefnogaeth gan asesiad o'r anghenion llety ar safleoedd Sipsiwn/Teithwyr;</li><li>Mesur yr angen o ran tai (y farchnad a thai fforddiadwy);</li><li>Gosod targed tai fforddiadwy;</li></ul></td></tr>
</table>

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | • Gosod strategaeth anheddu;<br>• Dyrannu tir i dai ar sail y drefn chwilio a nodir yn benodol yn 3.37-3.39 o fewn y PPW (2018);<br>• Cynnwys meini prawf polisi clir yn erbyn pa geisiadau ar gyfer datblygu safleoedd annosbarthedig bydd yn cael eu hystyried;<br>• Pennu'r amgylchiadau y byddai safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol sy'n cael eu hystyried i berfformio'n wael iawn fel bod eu defnydd ddim yn cael eu ffafrio fel rhan o safle maes glas (penodol);<br>• Cynnwys polisïau datblygu clir i lywio penderfyniadau ceisiadau am ddatblygiadau tai, gan gynnwys canllawiau ar ddyluniad, mynediad, dwysedd, hyrwyddo teithio llesol, parcio oddi ar y stryd a darpariaeth mannau agored ar gyfer ardaloedd penodol, fel sy'n briodol;<br>• Pennu mecanweithiau i'w defnyddio i fonitro caffael tir ar gyfer tai;<br>• Cynnwys polisïau ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle nodwyd y mae angen, gan gynnwys ardaloedd lle ystyrir yn safleoedd eithriad; a,<br>• Cynnwys polisïau i nodi lle y dylid disgwyl cyfraniadau gan y datblygwr, yn cynnwys tuag at isadeiledd, cyfleusterau cymunedol a thai fforddiadwy.<br><br>**Swyddi a Datblygiad Diwydiannol**<br>• Cefnogi gweithrediad polisïau a strategaethau economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;<br>• Alinio swyddi  gwasanaethau gyda thai lle bynnag fo'n bosibl, i leihau'r angen i deithio, yn enwedig gyda char;<br>• Adlewyrchu gwaith gydag awdurdodau cyfagos a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i gynllunio'n strategol ar gyfer darpariaeth tir cyflogaeth;<br>• Cynnal sail dystiolaeth ddiweddar a phriodol i gefnogi dewisiadau polisi a dyraniadau tir ar gyfer datblygu economaidd;<br>• Gosod gweledigaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer yr ardal, gan gynnwys asesiad eang o newid gwaith disgwyliedig gan sector eang a defnydd tir;<br>• Gosod targedau ar ddarparu tir ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarthiadau B1-B8), dangos newid net mewn tir/gofod llawr i swyddfeydd a diwydiant/ystordai ar wahân, ac amddiffyn y safleoedd hyn rhag datblygu amhriodol;<br>• Cynnwys polisïau yn ymwneud â datblygu yn y dyfodol ar safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli i'w hamddiffyn rhag datblygu amhriodol:- annog adfywio ac ailddefnyddio safleoedd sydd yn addas o hyd a'u hangen ar gyfer swyddi; - rheoli rhyddhad safleoedd gwaith diangen ar gyfer defnyddiau priodol eraill;<br>• Gofyn i ddarparu'r swm cywir o dir a chymysgedd ansoddol o safleoedd i fodloni galw'r farchnad ar gyfer defnyddiau datblygu economaidd;<br>• Cynnig lleoliadau addas ar gyfer y diwydiannau angenrheidiol hynny sy'n niweidiol i'r amwynder ac yn gallu bod yn ffynhonnell o lygredd;<br>• Darparu safleoedd sy'n darparu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant priodol i gymunedau difreintiedig;<br>• Nodi parthau gwarchod o amgylch sefydliadau sy'n cynnwys sylweddau peryglus a diogelu gallu sefydliadau presennol i weithredu neu ehangu drwy atal cynyddrannol defnyddiau hyglwyf yn ardal y fath safleoedd;<br><br>**Adfywio a Canol Trefi**<br>• Hyrwyddo ac ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn y gorffennol, gwag neu sydd brin yn cael ei ddefnyddio;<br>• Darparu adfywio corfforol a chyfleoedd cyflogaeth i gymunedau difreintiedig;<br>• Llywio a rheoli datblygu economaidd i hwyluso cynlluniau adfywio a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol;<br>• Gofyn i hyrwyddo a hwyluso datblygiad a fydd yn darparu adfywio corfforol;<br>• Canolbwyntio ar ddatblygiad sy'n denu nifer fawr o bobl, gan gynnwys manwerthu a swyddfeydd, yng nghanol dinasoedd, trefi a phentrefi;<br>• Mabwysiadu egwyddorion 'canol trefi'n gyntaf' gydag ystyriaeth o hyd i ganol trefi sy'n bodoli eisoes;<br>• Sefydlu hierarchaeth manwerthu lleol sy'n nodi natur, math a rôl strategol i gael ei berfformio gan ganolfannau manwerthu a masnachol;<br>• Gosod mesurau i ailwampio canolfannau penodol fel sy'n briodol, gan gynnwys cysylltu hynny gyda strategaethau, uwchgynlluniau a lleoedd ar draws canolfannau;<br>• Hyrwyddo canolfannau manwerthu masnachol bywiog, deniadol a hyfyw; | | |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | • Nodi ffiniau canolfannau manwerthu a masnachol sy'n cael eu cynnwys o fewn yr hierarchaeth ar y map cynigion;<br>• Dyrannu safleoedd ar gyfer defnyddiau canolfannau manwerthu a masnachol lle ceir asesiad o'r angen meintiol neu ansoddol a lle mae maint a graddfa yn unol â'r strategaeth fanwerthu. Dylid nodi safleoedd gan ddefnyddio dull dilyniannol o weithredu a, lle bo'n briodol, cael eu hasesu ar eu heffaith ar ganolfannau eraill;<br>• Cynnwys polisïau yn ymwneud â datblygiad yn y dyfodol ar safleoedd manwerthu presennol i'w diogelu rhag datblygiad amherthnasol a rheoli rhyddhad safleoedd manwerthu diangen at ddefnyddiau eraill;<br>• Monitro iechyd canolfannau manwerthu i asesu effeithiolrwydd polisïau;<br>• Mabwysiadu dull dilyniannol o weithredu i ddatblygu cymhwyso bob math o ddefnyddiau manwerthu ac eraill sy'n gyflenwol o ganolfannau manwerthu a masnachol. Dylai LPA weithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat i nodi safleoedd sy'n cytuno gyda'r dull dilyniannol o weithredu ac yn unol â strategaeth manwerthu'r CDLl.<br>• Lleoli cyfleusterau a all gynhyrchu lefelau uchel o alw am deithio yn, neu ger canol y dref lle bo'n bosib.<br>• Gosod polisïau ar gyfer mannau siopa cynradd ac eilaidd, lle bo'n briodol;<br><br>**Datblygiad Gwledig**<br>• Cynnwys polisïau ar y cwmpas ar gyfer datblygu economaidd newydd mewn aneddiadau a rhai cyffiniol, a nodi safleoedd addas. Mewn ardaloedd gwledig ac aneddiadau llai, dylid ystyried dull gweithredol yn seiliedig ar feini prawf;<br>• Annog arallgyfeirio mentrau ffermio a rhannau eraill o'r economi gwledig ar gyfer defnyddiau twristiaeth, chwaraeon, adloniant a hamdden briodol, yn amodol i ddiogelu addas ar gyfer cymeriad ac edrychiad cefn gwlad, ei dirwedd, bioamrywiaeth a gwerth amwynder lleol yn benodol.<br><br>**Seilwaith Cymunedol a Chymdeithasol**<br>• Darparu rhwydwaith aneddiadau cydlynol, sicrhau bod aneddiadau newydd yn alinio gydag aneddiadau presennol i wneud teithio llesol yn ddewis ymarferol, diogel a deniadol;<br>• Diogelu llwybrau a rhwydweithiau teithio llesol, yn enwedig y rheiny a nodwyd yn y Mapiau Rhwydwaith integredig a chefnogi eu darpariaeth;<br>• Sefydlu fframwaith strategol ar gyfer diogelu, darparu a gwella twristiaeth, chwaraeon, adloniant a hamdden sydd wedi'i ddylunio'n dda yn ardal CBSC.<br>• Diogelu datblygiadau meysydd chwarae a mannau agored gydag amwynder sylweddol neu werth adloniadol i gymunedau lleol;<br>• Ystyried y cwmpas i ailddefnyddio tir diangen a llwybrau fel parciau, parciau unionlin neu diroedd heb eu datblygu mewn ardaloedd; ac,<br>• Annog defnydd amryfal o fannau agored a chyfleusterau lle bo'n briodol, i gynyddu eu defnydd effeithiol a lleihau'r angen i ddarparu cyfleusterau ychwanegol.<br>• Amlinellu cwmpas i adeiladu cymunedau cynaliadwy i gefnogi seilwaith corfforol a chymdeithasol newydd, gan gynnwys ystyriaeth i unrhyw effaith ar y Gymraeg (gweler 3.27-3.29), ac i ddarparu galw digonol i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol, priodol; | | |
| | **Newid Mawr mewn Polisi**<br><br>Mae PPW -10fed Argraffiad yn nodi'r gofynion newydd neu ddiwygiedig canlynol ar gyfer CDLl newydd:<br>Mwy o bwyslais ar greu lleoedd, gan gynnwys gofyn i'r CDLl fod yn ddigon cadarn i asesu ansawdd a diogelwch datblygiad/dyluniad;<br>Gofyniad i ddangos ystyriaeth briodol o'r 'pum ffordd o weithio' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;<br>• Gofyniad i gynnwys polisïau a chynigion ar gyfer cludiant cyhoeddus ychwanegol lle mae'n angenrheidiol i hwyluso datblygiad;<br>• Gofyniad i ganiatáu polisïau i ystyried manteision ac effeithiau cymunedol o ddatblygiad; | | |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | • Dylid cynnig aneddiadau newydd drwy gynlluniau graddfa strategol yn unig, ac nid CDLl;<br>• Mwy o gefnogaeth i ddatblygiadau dwysedd uwch ynghanol trefi, dinasoedd a lleoliadau hygyrch eraill; Methodoleg chwilio dilyniannol newydd ar gyfer nodi safleoedd tai (PPW paragraffau 3.37 – 3.39); a,<br>• Gofyniad i ystyried adleoli ac ailgynnig safleoedd sy'n tangyflawni ac nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan gynnwys ffurfio rhan o gyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai, lle bo'n briodol;<br>• Gofyniad i strategaeth ofodol y CDLl gael eu hysbysu gan Arfarniad o Gynaliadwyedd;<br>• Cyfyngiad ar y cynlluniau graddfa strategol i gynnig Belt Gwyrdd yn unig.<br><br>Mewn perthynas â chynllunio ar gyfer tai, mae'r Polisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad yn gofyn am:<br>• Fabwysiadu methodoleg chwilio dilyniannol newydd ar gyfer nodi safleoedd tai (PPW paragraffau 3.37 – 3.39);<br>• Asesiad manylach o ddanfonadwyedd a hyfywedd ariannol ar y cam llunio cynllun gan y rheiny sy'n nodi cynigion datblygu ac awdurdodau cynllunio. Ar y cam Safleoedd Ymgeiswyr, bydd asesiad hyfywedd safle cychwynnol yn cael ei gynnal, tra bydd gwerthusiad hyfywedd yn cael ei gynnal gan yr Awdurdodau Cynllunio ar y cam Adneuo;<br>• Ar gyfer safleoedd y teimlir sy'n allweddol i ddarpariaeth y strategaeth, mae'n rhaid i'r awdurdodau amlinellu sut y byddant yn diffinio 'safle allweddol' yng nghamau cynnar y broses cynllun datblygu ac ystyried unrhyw ymyriadau penodol sy'n ofynnol i ddarparu'r cyflenwad tai.<br>• Awdurdodau cynllunio i nodi'r ymyriadau sydd eu hangen i ddarparu cyflenwad tai;<br>• Cynnwys "lwfans hyblygrwydd ychwanegol ac addas" mewn cyfrifiadau gofynion tir tai;<br>• Deialog gwell rhwng awdurdodau cyfagos gan gynnwys ystyried goblygiadau posib wrth nodi safleoedd tai a chyfrifo angen o ran tai;<br>• Cyfrifo'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai ar draws yr awdurdod a'i nodi'n glir yn y CDLl;<br>• Cyfrifo'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy ar draws yr awdurdod a'i nodi'n glir yn y CDLl. | | |
| **Iechyd Pobl** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Mae darpariaethau yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo iechyd pobl a chynllunio datblygu yn cael eu nodi ym Mhenodau 3, 4, 5 a 6.<br><br>**Trosolwg o Gofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Gynnwys polisïau a chynigion i leihau cyswllt cyffredinol gyda llygredd yn yr aer a llygredd sŵn a chreu amgylchedd sŵn priodol;<br>• Mae'n rhaid ystyried effeithiau amgylcheddol o wybod y canlyniadau posib yn llawn i iechyd pobl gydag Asesiad o Effaith ar Iechyd gofynnol mewn amgylchiadau penodol.<br>• Deall penderfynyddion ehangach iechyd a nodi mesurau ataliol a rhagweithiol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd.<br>• Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol gan gynnwys galluogi cyfleoedd ar gyfer gweithredol awyr agored a gwelliannau corfforol yn yr amgylchedd a adeiladwyd.<br>• Gwneud y mwyaf o ddiogelu iechyd a lles a diogelu amwynder.<br><br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br><br>Mae PPW -10fed Argraffiad yn nodi'r gofynion newydd neu ddiwygiedig canlynol ar gyfer CDLl newydd:<br>• Mwy o bwyslais ar yr angen ar gyfer lleoli datblygiadau mewn ardaloedd hygyrch ac i flaenoriaethu teithio llesol; | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud ag iechyd pobl ac amwynder yng nghyd-destun amgylchiadau lleol, yn benodol;<br>• Ystyried egwyddorion 'Asiant Newid' wrth ystyried effeithiau niweidiol ar iechyd pobl a achosir gan ansawdd aer a seinwedd sy'n cael eu heffeithio gan ddatblygiadau arfaethedig.<br>• Blaenoriaethau cerdded a beicio i helpu gyda chyflawni Nodau Lles. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys nodau yn ymwneud â phob agwedd o iechyd a lles pobl. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | • Cyflwyniad i egwyddor ‘Asiant Newid’ sy’n gofyn bod y busnes neu’r unigolyn sy’n gyfrifol am gyflwyno newid i amwynder yn gyfrifol am reoli’r newid hwn a lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol.<br>• Mwy o ystyriaeth i effeithiau sŵn ac amwynder oherwydd datblygiad<br>• Unrhyw oblygiadau sy’n codi o leoliad datblygiadau o fewn ardaloedd cynllunio camau gweithredu sŵn, neu ardaloedd lle mae derbynyddion sensitif.<br>• Peidio creu ardaloedd o seinwedd amhriodol; ac,<br>Ymdrechu i ymgorffori mesurau sy’n lleihau cyswllt cyffredinol i lygredd sŵn a chreu seinweddau priodol. | | |
| **Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna** | **Trosolwg o’r Pwrpas / Amcanion:**<br><br>Mae darpariaethau yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna’n cael eu nodi ym Mhenodau 3, 5 a 6. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud â diogelu a gwella biomarwyiaeth yng nhyd-destun amgylchiadau lleol, yn benodol; mewn perthynas â dyletswyddau statudol y nodir yn Neddf Amgylchedd (Cymru) 2016. | Bydd angen i’r Fframwaith SA sy’n cael ei ddefnyddio i ategu rhan SA yr Adolygiad CDLl gynnwys Amcanion SA, Cwestiynau Canllaw, a meini Prawf Asesiad Safle o ran diogelu Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna yn ardal CBSC, gan ystyried newidiadau diweddar i’r ddeddfwriaeth. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â’r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda’r PPW - 10fed Argraffiad. |
| | **Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Mae‘r PPW - 10fed Argraffiad angen i’r CDLl newydd i:<br>**<u>Dynodiadau Amgylcheddol</u>**<br>• Nodi pob safle wedi'u dynodi yn rhyngwladol, cenedlaethol a lleol (gan gynnwys SPA posib, cynigion SAC a safleoedd wedi’u nodi fel rhai Ramsar);<br>• Darparu meini prawf yn erbyn asesiad o ddatblygiad sy’n effeithio ar y mathau gwahanol o safleoedd wedi’u dynodi, gan adlewyrchu ar eu harwyddocâd perthynol;<br>• Gwneud darpariaethau priodol i Warchodfeydd Natur Lleol;<br>• Cynnwys, lle bo’n briodol, polisïau lleol-penodol ar gyfer gwarchod coetir brodorol a diogelu a phlannu coed;<br><br>**<u>Diogelu a Gwella’r Amgylchedd</u>**<br>• Cynnwys polisïau lleol-penodol ar gyfer cadwraeth a, lle bo’n briodol, gwella tirlun ac amwynder;<br>• Darparu ar gyfer y gadwraeth, a lle bo’n briodol, gwella bioamrywiaeth tu allan i’r ardaloedd wedi’u dynodi, nodi cyfleoedd i warchod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig lleol yn benodol, a diogelu a rheoli nodweddion tirluniau o bwys sylweddol ar gyfer cadwraeth natur ac amwynder;<br>• Egluro sut y bydd bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu tu allan i safleoedd a ddynodwyd yn statudol heb gyfyngu datblygiad sydd fel arall yn addas heb fod angen;<br>• Darparu diogelwch a gwelliannau i fannau agored sydd o werth cadwraethol, gan ymdrechu i nodi cyfleoedd i hyrwyddo mynedfa gyhoeddus gyfrifol er mwynhad a dealltwriaeth o’r dreftadaeth naturiol lle bo hyn yn gytûn gyda’u cadwraeth a’u defnyddiau tir presennol;<br>• Adnabod potensial, ac annog arferion defnyddiau tir a rheoli tir sy’n helpu i ddiogelu sinciau carbon;<br>• Ystyried lleoliad cynefinoedd a rhywogaethau bregus. | | |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | **Newid Mawr mewn Polisi:**<br>Mae PPW -10fed Argraffiad yn nodi'r gofynion newydd neu ddiwygiedig canlynol ar gyfer CDLl newydd:<br>• Gofyniad i ddangos cydymffurfedd awdurdodau cynllunio lleol o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sy'n nodi fframwaith i gynnal a gwella cadernid ecosystemau yng Nghymru;<br>• Ystyried Polisi Adnoddau Naturiol Statudol, 'Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol' a Datganiadau Ardal unwaith maent wedi cael eu paratoi. | | |
| **Pridd a Thir** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Mae darpariaethau ar gyfer hyrwyddo cadwraeth pridd priodol a dyraniadau tir yn cael eu nodi ym Mhenodau 5 a 6<br>**Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Ystyried cyfyngiadau corfforol ac amgylcheddol ar ddatblygu tir, gan gynnwys lefel halogiad a sadrwydd, er enghraifft;<br>• Cynnwys polisïau i sicrhau nad yw datblygiad newydd yn cael ei gynnal heb ddealltwriaeth o'r peryglon, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â defnydd blaenorol y tir, allyriadau nwyon o lofeydd a safleoedd tirlenwi, a chodiad yn lefelau dŵr daear o lofeydd gwag;<br>• Cynnwys polisïau i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael eu cynnal heb adferiad priodol;<br>• Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i effeithiau posib y gall adferiad halogiad tir ei gael ar amgylcheddau naturiol a hanesyddol;<br>• Cynnwys polisïau i sicrhau nad yw datblygiad newydd yn cael ei gynnal heb ddealltwriaeth o'r peryglon, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig ag ymsuddiant, tirlithriadau neu gwympiadau cerrig;<br>• Cynnwys polisïau i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael eu cynnal heb y rhagofalon priodol;<br>• Ystyried peryglon erydiad yr arfordir / tir; ac,<br>• Ymgeisio i adfer tir ansefydlog a halogedig.<br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br>Mae PPW -10fed Argraffiad yn nodi'r gofynion newydd neu ddiwygiedig canlynol ar gyfer CDLl newydd:<br>• Cyfyngiadau llym i atal cloddio glo brig, datblygiadau cloddio dwfn neu waredu rwbel glofa yn effeithiol, ac eithrio y gellir profi amgylchiadau eithriadol a darperir asesiadau effaith; a<br>• Bod gofyniad i gynigion echdynnu olew a nwy ar y tir fod yn "gadarn" a chynnwys "tystiolaeth gredadwy" i ddangos bod cynigion yn cydymffurfio i'r hierarchaeth ynni, gan ddangos sut maent yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud ag adnoddau phridd a thir yng nhyd-destun amgylchiadau lleol, yn benodol;<br>• Polisïau sy'n cyfyngu fwy o ran glo ac olew a nwy ar y tir, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu Asesiad o Effaith ar Iechyd i gyd-fynd gydag unrhyw geisiadau ar gyfer gwaith glo brig. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud â diogelu defnydd effeithlon tir a phridd. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad |
| **Dŵr** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Mae darpariaethau yn ymwneud â diogelu a gwella ansawdd dŵr, adnoddau dŵr ac amgylchedd y dŵr yn cael eu nodi ym Mhenodau 5 a 6. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud â dŵr yng nhyd-destun amgylchiadau lleol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud ag ansawdd dŵr, adnoddau dŵr ac amgylchedd y dŵr. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | **Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Ystyried cyfyngiadau corfforol ac amgylcheddol ar ddatblygu tir, gan gynnwys perygl llifogydd;<br>• Cynnwys polisïau yn ymwneud ag amcanion Dŵr a Pherygl Llifogydd PPW1 (2018) o ran effeithiau'r datblygiad ar gyflenwad dŵr a rheoli dŵr gwastraff; a,<br>• Bod yn barod mewn ymgynghoriad gydag awdurdodau cyfagos a Chyfoeth Naturiol Cymru;<br>Cynnwys polisïau i sicrhau nad yw'r datblygiad yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill, yn ogystal â pheidio fod yn berygl yn ei hun.<br><br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br>Amherthnasol | | materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |
| **Aer** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br><br>Mae darpariaethau yn ymwneud ag osgoi neu liniariad ansawdd aer gwael yn cael eu nodi ym Mhennod 6.<br><br>**Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Ymrwymo i gyfrannu tuag at ostyngiad mewn mathau o gludiant sy'n allyrru carbon a lliniaru ansawdd aer gwael.<br>• Sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar ansawdd aer.<br>Ystyried ffynonellau presennol o lygredd aer, ac yn y dyfodol fel rhan o ddatblygu strategaeth ofodol.<br><br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br><br>Prif nod cyflwyno'r egwyddor 'Asiant Newid' yw ystyried yr effeithiau sydd efallai gan gynigion datblygiadau ar ansawdd aer a seinwedd. Mae'r egwyddor yn amlinellu gofyniad bod y busnes neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am gyflwyno newid i amwynder yn gyfrifol am reoli'r newid hwn a lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol y mae'n ei achosi. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio fynd i'r afael ag:<br>• Unrhyw oblygiadau sy'n codi o leoliad datblygiadau o fewn ardaloedd rheoli ansawdd aer, neu ardaloedd lle mae derbynyddion sensitif.<br>• Peidio creu ardaloedd o ansawdd aer gwael; a<br>• Ymdrechu i ymgorffori mesurau sy'n lleihau cyswllt cyffredinol i lygredd aer. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud ag ansawdd aer yng nhyd-destun amgylchiadau lleol, yn benodol;<br>• Ystyried egwyddor 'Asiant Newid' wrth ystyried effeithiau niweidiol ar iechyd pobl oherwydd ansawdd aer a seinwedd sy'n cael eu heffeithio gan ddatblygiadau arfaethedig. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud ag ansawdd aer. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |
| **Ffactorau Hinsoddol** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Mae darpariaethau yn ymwneud ag osgoi neu leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gan gynnwys datgarbonieddio'r sector ynni'n cael eu nodi ym Mhenodau 5 a 6. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud â lliniaru a gwella newid | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud â lliniaru ac addasu newid hinsawdd. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | **Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Sicrhau bod ymdrin ag achosion a chanlyniadau newid hinsawdd yn cael ei ystyried wrth leoli datblygiad newydd;<br>• Ystyried y cynnydd mewn perygl cyfyngiadau corfforol ac amgylcheddol o ganlyniad i newid hinsawdd; a,<br>• Datblygiad uniongyrchol i aneddiadau sy'n gadarn i effeithiau newid hinsawdd, gan osgoi ardaloedd lle nad yw canlyniadau ac effeithiau amgylcheddol yn gallu cael eu rheoli'n gynaliadwy. Pan mae datblygiad yn cael ei gynnal mewn ardaloedd o berygl hysbys, mae'n rhaid i bolisïau'r CDLl sicrhau bod y datblygiad wedi cael ei lunio ar gyfer cryfder dros ei oes; a,<br>• Mae'n rhaid i CDLl sy'n cynnwys Ardaloedd Chwilio Strategol (SSA) sy'n nodi'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer ffermydd gwynt graddfa fawr ar y tir, gynnwys polisïau clir ar leoliad a graddfa'r datblygiad a fydd yn cael caniatâd<br>• Ystyried effeithiau'r datblygiad ar fabwysiadu ynni adnewyddadwy a charbon isel.<br><br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br><br>Mae PPW -10fed Argraffiad yn nodi'r gofynion newydd neu ddiwygiedig canlynol ar gyfer CDLl newydd:<br>• Mae'n rhaid i awdurdodau lleol arwain yn weithredol ar lefel lleol neu ranbarthol a nodi targedau heriol, ond y gellir eu cyflawni ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn CDLl;<br>• Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu sail dystiolaethol i nodi datblygiad polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel a nodi ystod o feini prawf (Adran 5.9.2);<br>• Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ddatblygu sail dystiolaethol i nodi datblygiad polisïau ynni adnewyddadwy a charbon isel gan gynnwys asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a chyfleoedd sy'n codi o ddatblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel. | hinsawdd yng nhyd-destun amgylchiadau lleol. | ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |
| **Asedau Perthnasol** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Mae darpariaethau yn ymwneud â hyrwyddo, a diogelu asedau perthnasol yng Nghymru'n cael eu nodi ym Mhenodau 2, 3, 4 a 5 | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion ym ymwneud â datblygu isadeiledd, rheoli gwastraff a defnydd cynaliadwy o |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | **Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Bod yn gyson ac integreiddio gyda'r strategaethau a'r polisïau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol a strategaethau perthnasol eraill. Dylai unrhyw gynnig Cynllun Trafnidiaeth Lleol sy'n cynnwys datblygiad neu ddefnydd tir yn uniongyrchol, neu sy'n cynnwys goblygiadau defnydd tir, ymddangos fel polisi neu gynnig yn y cynllun datblygu;<br>• Sicrhau bod prosiectau sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth yn cynnal asesiad yn unol ag Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG);<br>• Mae'n rhaid i CDLl nodi cynllunio integredig a strategaeth drafnidiaeth yn y cynllun datblygu;<br>• Nodi'r defnydd tir/strategaeth drafnidiaeth, gan fynd i'r afael â hygyrchedd a darpariaeth cyfleusterau trafnidiaeth integredig a strategol, gam gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd a chyfnewidfeydd;<br>• Lleoli'r prif gynhyrchwyr o alw am drafnidiaeth o fewn ardaloedd trefol presennol, neu mewn lleoliadau eraill y gellir eu gwasanaethu drwy gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus;<br>• Sicrhau bod safleoedd datblygiadau yn hygyrch iawn i drafnidiaeth nad yw'n cynnwys y car, ac yn cael eu defnyddio ar gyfer defnyddiau dwys, gan adleoli eu defnyddiau os yw'n angenrheidiol;<br>• Mewn ardaloedd gwledig, dynodi canolfannau gwasanaeth lleol, neu glystyrau o aneddiadau lle gellir profi cyswllt cynaliadwy gweithredol, fel y lleoliadau gorau ar gyfer datblygiad newydd;<br>• Cynnwys mesurau penodol i hyrwyddo teithio llesol yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;<br>• Gosod polisïau i hyrwyddo defnydd cludiant cyhoeddus, gan gynnwys cyfleusterau cyfnewidfa ar eu newydd wedd a, pan fo'n briodol, cynlluniau parcio a theithio.<br>• Nodi'r prif rwydwaith ffyrdd, gan gynnwys cefnffyrdd, a nodi'r rhwydwaith craidd ar wahân;<br>• Nodi'r cynigion ar gyfer ffyrdd newydd a gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith o brif ffyrdd a'r polisi eang ar flaenoriaethau mân welliannau;<br>• Cynnwys polisïau a chynigion yn ymwneud â datblygiad isadeiledd trafnidiaeth ar wahân i ffyrdd;<br>• Nodi, a lle bo'n briodol, diogelu ffyrdd sydd ei hangen i symud llwythi'n gynaliadwy;<br>• Diogelu seilwaith trafnidiaeth nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach, gan gynnwys rheilffyrdd, cilffyrdd, porthladdoedd, harbwr a dyfrffyrdd mewndirol rhag datblygiad a fyddai'n cyfaddawdu eu defnydd trafnidiaeth yn y dyfodol, pan mae eu hailddefnyddio yn bosibilrwydd;<br>• Lleihau effeithiau negyddol prosiectau isadeiledd trafnidiaeth (ym mhennod 5 Lleoedd Cynhyrchiol a Blaengar) ar amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac ar gymunedau lleol;<br>• Dylai CDLl wneud y mwyaf o isadeiledd presennol ac ystyried sut y gellir cydlynu darpariaeth mathau gwahanol o isadeileddau;<br>• Dylai CDLl ystyried effeithiau'r datblygiad ar reoli gwastraff, cynlluniau datblygiad a chynllunio gwastraff, rheoli'r datblygiad a chynlluniau gwastraff; a,<br>• Dylai CDLl nodi polisïau a chynigion ar gyfer lleoli offer telathrebu, dyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr, gan gynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau telathrebu lle bydd safleoedd eraill ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y cynllun yn cael eu cynnig. | ymwneud â datblygiad seilwaith, rheoli gwastraff a defnydd cynaliadwy adnoddau naturiol yng nhyd-destun amgylchiadau lleol. Yn benodol;<br>• Cefnogi integreiddiad strategaethau cynllunio a thrafnidiaeth a blaenoriaethu hierarchaeth trafnidiaeth;<br>• Cefnogi cyflwyno pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan i alluogi datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. | adnoddau naturiol. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |
| | **Newid Mawr mewn Polisi:**<br><br>Mae PPW -10fed Argraffiad yn nodi'r gofynion newydd neu ddiwygiedig canlynol ar gyfer CDLl newydd:<br>**<u>Cludiant</u>**<br><br>• Mae'n rhaid llunio asesiad o draffig ffordd gan gynnwys rhagolygon o unrhyw newidiadau disgwyliedig.<br>• Cydlynu CDLl a Chynllun Trafnidiaeth Lleol wrth ystyried patrymau teithio dros ffiniau'r awdurdod lleol.<br><br>• Gosod cynllun integredig a strategaeth drafnidiaeth a darparu esboniad o nodau trafnidiaeth yr awdurdod, esboniad o sut mae'r polisïau trafnidiaeth yn cefnogi amcanion eraill y cynllun a sut bydd y CDLl yn cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy. | | |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | • Mae'n rhaid i ategu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy fod yn egwyddor allweddol wrth baratoi'r cynlluniau datblygu gan gynnwys dyraniadau safle wrth ystyried/pennu ceisiadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio datblygiad i leoliadau sydd fwyaf hygyrch o ran trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Mae'n rhaid i CDLl gynnwys polisïau rheoli traffig priodol sy'n bwriadu lleihau lefel a chyflymder traffig mewn datblygiad newydd a mabwysiadu dull integredig o reoli traffig gan gynnwys creu cynlluniau cefnogi sy'n rheoli lefelau parcio ac yn nodi meini prawf ar gyfer dyluniadau meysydd parcio derbyniol.<br>• Rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth ar gyfer addasu i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydanol a fyddai yn eu tro'n cefnogi derbyn cerbydau sy'n defnyddio llai o garbon,<br><br>**Cynllunio Morol**<br>• Ystyried goblygiadau defnydd tir Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP). | | |
| **Treftadaeth Ddiwylliannol** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br><br>Mae darpariaethau sy'n ymwneud â chadwraeth a hyrwyddo asedau treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg yn cael eu nodi ym Mhenodau 3 a 6.<br><br>**Trosolwg o'r Gofynion Polisi Allweddol:**<br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Lynu at y Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) (2011) i gefnogi cadwraeth y Gymraeg;<br>• Ni ddylid cyflwyno polisïau sy'n annog gwahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol neu anelu i reoli deiliadaeth tai yn seiliedig ar iaith;<br>• Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau posib eu cynlluniau datblygu ac osgoi effeithiau niweidiol ar ddefnydd y Gymraeg, ac maent yn cael eu hannog i fabwysiadu dull eang, sawl cam i ddatblygiad heb effeithio'n negyddol ar ddefnydd y Gymraeg.<br>• Darparu datganiad yn manylu sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a diddordebau'r Gymraeg;<br>• Darparu polisïau yn ymwneud â diogelu a chadw safleoedd treftadaeth y byd; gweddillion archaeolegol, adeiladau cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth, asedau hanesyddol lleol a pharciau a gerddi hanesyddol;<br>• Nodi polisïau lleol-penodol mewn perthynas ag amgylchedd hanesyddol a chwmpasu'r asedau treftadaeth sy'n cael eu hystyried yn bwysig o safbwynt cynllunio lleol; ac<br>• Ystyried y perygl i safleoedd archeolegol a hanesyddol gan ddatblygiadau tai.<br><br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br><br>• Os yw'n angenrheidiol, cynnal asesiadau effaith ar iaith o ran datblygiadau mawr nad ydynt wedi'u dyrannu yn y CDLl sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd penodol neu bwysigrwydd iaith. Dylid diffinio'r fath ardaloedd yn glir yn y cynllun datblygu.<br>• Mwy o bwyslais ar ddiogelu a chefnogi'r Gymraeg wrth lunio polisïau a'i gyfraniad tuag at gyflawni nod llesiant Iaith Gymraeg Ffyniannus. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r Gymraeg yng nghyd-destun amgylchiadau lleol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |
| **Tirwedd** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Gellir dod o hyd i ddarpariaethau yn ymwneud â diogelu cymeriad y tirlun ac amwynder ym Mhennod 6. | Bydd angen i CDLl Newydd gynnwys polisïau a chynigion i gyfeirio at amcanion a gofynion y polisïau cenedlaethol yn | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | **Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Mae'r PPW - 10fed Argraffiad angen i'r CDLl newydd i:<br>• Ystyried tirweddau hanesyddol penodol yng Nghymru, a lle bo'n briodol, datblygu polisïau lleol a phenodol a fydd yn cyfrannu i'w cadwraeth; ac,<br>• Ystyried y peryglon corfforol i dirluniau o ganlyniad i ddatblygiadau tai<br>• Cynnal a gwella cefn gwlad a'i nodweddion drwy fabwysiadu hyblygrwydd a chadernid.<br><br>**Newid Mawr mewn Polisi:**<br>**Amherthnasol** | ymwneud â diogelu a gwella tirluniau penodol, cymeriad y tirlun, nodweddion y tirlun ac amwynder gweledol yng nhyd-destun amgylchiadau lleol. | Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â'r materion hyn ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |
| **Effeithiau Cydberthnasol** (gan gynnwys gweithredu datblygu cynaliadwy**)** | **Trosolwg o'r Pwrpas / Amcanion:**<br>Gellir dod o hyd i ddarpariaethau'n ymwneud â'r angen am ystyriaeth Effeithiau Cydberthnasol ar ddatblygu cynaliadwy a nodau strategol eraill y gellir dod o hyd iddynt ymhob Pennod, ond Pennod 2 yn benodol<br><br>**Trosolwg o Ofynion Allweddol y Polisi:**<br><br>Yn ogystal ag anghenion penodol y pynciau y nodir uchod, mae PPW – 10fed Argraffiad yn gofyn i CDLl newydd:<br>• Hyrwyddo patrymau cynaliadwy o ddatblygiad, nodi tir ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen, a nodi lleoliadau ar gyfer datblygiad dwysedd uwch mewn canolfannau a chyfnewidfeydd sy'n agos at lwybrau coridorau lle mae hygyrchedd ar droed a beic a thrafnidiaeth gyhoeddus yn dda.<br>• Cynnal a gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canolfannau tref, ardal, lleol a phentref;<br>• Lleoli datblygiadau ar gyfer defnyddiau twristiaeth, chwaraeon a hamdden, lle bo'n briodol, ar dir a ddatblygwyd o'r blaen;<br>• Annog datblygiad dwysedd uwch ac amlddefnydd ger nodau trafnidiaeth gyhoeddus, neu ger coridorau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus;<br>• Mabwysiadu dulliau datblygu sy'n nodi dibyniaeth gydfuddiannol rhwng y dref a'r wlad, ac felly'n gwella cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a'u cyffiniau gwledig;<br>• Lleoli datblygiadau fel eu bod yn gallu cael ei gwasanaethu gan seilwaith presennol (gan gynnwys ar gyfer cyflenwad ynni, rheoli gwastraff a dŵr) (Adran 3.59);<br>• Sicrhau bod y datblygiad yn annog cyfleoedd ar gyfer defnyddiau masnachol a phreswyl i ddeillio manteision amgylcheddol o gydleoli;<br>• Nodi cyfleoedd i sicrhau bod safonau adeiladu cynaliadwy yn cael eu mabwysiadu, sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hyfyw ac annog ceisiadau sy'n adlewyrchu egwyddorion allweddol datblygiadau sy'n ymateb i'r hinsawdd.<br><br>gyda chyfeiriad ar y Beltiau Gwyrdd a Lletemau Glas mae'r PPW - 10fed Argraffiad yn gofyn bod y CDLl yn cynnwys polisïau sy'n:<br>• Darparu cyfleoedd ar gyfer mynediad i gefn gwlad agored;<br>• Darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon awyr agored a hamdden awyr agored;<br>• Cynnal diddordeb yn y tirlun/bywyd gwyllt;<br>• Cadw tir ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a phwrpasau perthnasol;<br>• Gwella tir diffaith; a,<br>• Darparu sinciau carbon i liniaru effeithiau ynysoedd gwres dinesig.<br><br>Mae PPW - 10fed Argraffiad yn hyrwyddo diogelu tir amaethyddol ac ailddefnyddio tir llwyd sy'n gweithredu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n anelu ar gyflawni nodau lles.<br><br>**Darpariaethau yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Phwnc SEA:** | Bydd angen i CDLl newydd gynnwys polisïau a chynigion i gefnogi darpariaeth datblygu cynaliadwy drwy ganolbwyntio ar greu lleoedd wrth gynllunio. Mae hyn yn ofynnol yn unol â gofynion statudol, gan gynnwys y rheiny y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016. | Dylai'r Fframwaith SA ddarparu cyfres o amcanion cysylltiedig i gefnogi darpariaeth datblygu cynaliadwy. Mae Fframwaith SA eisoes yn cynnwys Amcanion SA perthnasol yn ymwneud â datblygu cynaliadwy ac ni ystyriaethir newidiadau i alinio gyda'r PPW - 10fed Argraffiad. |

| Adolygiad o Bolisi Cynllunio Cymru - 10fed Argraffiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Testun SEA** | **Trosolwg o'r Pwrpas a Gofynion Allweddol** | **Goblygiadau'r Adolygiad CDLl** | **Goblygiadau ar gyfer SA** |
| | Mae cyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod CDLl yn cefnogi gwelliant pob agwedd lles: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a chyflawniad saith Nod Lles diffiniedig. Mae'r berthynas rhwng y Nodau hyn, themâu'r PPW a'r pum ffordd o weithio sy'n cael eu nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu manylu yn Atodiad B PPW - 10fed Argraffiad.<br><br>Mae'r newidiadau hyn yn y polisi'n gwneud y mwyaf o gyfraniad systemau polisi i gyflawni nodau lles, ac yn benodol Cymunedau Ffyniannus, Gwydn a Chydlynus Cymru wrth wella cyfleoedd economaidd, darpariaeth tai a datrysiad materion cymdeithasol-economaidd.<br><br>Mewn perthynas â'r Nod Lles – Cymru Iachach, gall hyrwyddo cerdded a beicio, dyluniad i ansawdd mewn cynllunio lleoedd a lleihau llygryddion niweidiol sy'n cael eu hachosi gan amgylchedd adeiledig gyfrannu tuag at gyflawni nodau lles.<br><br>Mewn perthynas â Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna, mae'n rhaid i'r CDLl wneud y mwyaf o ddarpariaeth canlyniadau yn erbyn pob agwedd rheoli lles/cynaliadwy a gwneud y mwyaf o gyfraniadau tuag at bob nod y Ddeddf drwy fabwysiadu dull o greu lleoedd. Mewn perthynas â Chymru Gydnerth sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang, gall ddiogelu, cadw a hyrwyddo Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna unigryw Cymru gyfrannu tuag at gyflawni nodau lles.<br><br>Mae'r newidiadau mewn polisi'n gwneud y mwyaf o gyfraniad systemau cynllunio tuag at gyflawni'r nodau lles, ac yn benodol Cymru Gydnerth, drwy ystyried cyfyngiadau ac ansadrwydd datblygiad yn enwedig ar fathau penodol o bridd a thir.<br><br>Mewn perthynas â dŵr mae'n rhaid i'r CDLl wneud y mwyaf o ddarpariaeth canlyniadau yn erbyn pob agwedd rheoli lles/cynaliadwy a gwneud y mwyaf o gyfraniadau tuag at bob nod y Ddeddf drwy fabwysiadu dull o greu lleoedd. Mewn perthynas â Chymru Gydnerth sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang, gall diogelu dŵr, osgoi llygredd dŵr a hyrwyddo asedau naturiol Cymru gyfrannu tuag at gyflawni nodau lles.<br><br>Mae'r newidiadau hyn mewn polisi'n gwneud y mwyaf o gyfraniad y systemau cynllunio mewn cyflawni nodau lles ac yn benodol;<br>• Cymru Iachach, gan leihau cysylltiad y boblogaeth gyffredinol i lygredd aer a sŵn.<br>• Cymru Gydnerth sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang, drwy ddiogelu cymunedau presennol a'r dyfodol rhag effeithiau negyddol newid hinsawdd.<br>• Cymru Iachach, Mwy Cyfartal a Ffyniannus, drwy ddiogelu cymunedau presennol a'r dyfodol rhag effeithiau negyddol newid hinsawdd.<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, drwy ddiogelu asedau diwylliannol pwysig a diogelu defnydd ysgrifenedig a llafar y Gymraeg.<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus wrth gadw, diogelu a hyrwyddo nodweddion y tirlun ac amwynder. | | |
| | **Newid Mawr mewn Polisi:**<br>Amherthnasol | | |

B.3.2 Mae **Tabl B2.3** isod yn cyflwyno adolygiad o bolisïau cynllunio cenedlaethol Cymru perthnasol eraill, cynog r a dogfennau canllaw i nodi gofynion allweddol sydd angen eu hystyried o fewn Adolygiad y CDLl a'r broses SA.

Tabl B2..2: Goblygiadau Polisïau Cynllunio Cenedlaethol Cymru Eraill, Cyngor a Chanllaw

| Testun SEA | Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol | Trosolwg o Bwrpas a Gofynion Allweddol | Goblygiadau i Adolygiad o CDLl Conwy | Goblygiadau i'r SA |
|---|---|---|---|---|
| Dogfennau Polisi Cymeradwyedig | | | | |
| Poblogaeth (yn cynnwys materion economaidd gymdeithasol perthnasol). | Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar y Cyd (26), TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2016), TAN 4: Manwerthu a Datblygu Masnachol (21), TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (29), TAN 16: Chwaraeon, Gweithgareddau Hamdden a Mannau Agored, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2014), TAN 23: Datblygiad Economaidd (2014), TAN 13: Twristiaeth (2013) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Gydlynu datblygiadau a darpariaeth seilwaith;<br>• Cefnogi Polisïau a strategaethau economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;<br>• Alinio swyddi a gwasanaethau gyda thai, pryd bynnag fo'n bosibl, er mwyn lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn car;<br>• Hyrwyddo ailddefnyddio tir a ddatblygwyd eisoes, neu sydd yn wag neu a danddefnyddir;<br>• Darparu cyfleoedd Adfywio ffisegol a chyflogaeth i gymunedau difreintiedig.<br>• Arwain a rheoli datblygu economaidd er mwyn hwyluso mentrau adfywio a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol.<br>• Adlewyrchu gwaith gydag awdurdodau ffiniol a rhanddeiliaid perthnasol eraill er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer darpariaeth tir cyflogaeth;<br>• Cael ei danategu gan gronfa dystiolaeth gyfredol a phriodol er mwyn cefnogi dewisiadau polisi a dyraniadau tir ar gyfer datblygu economaidd.<br>• Sefydlu gweledigaeth seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer yr ardal, yn cynnwys asesiad eang o newid disgwyliedig mewn cyflogaeth yn ôl sector eang a defnydd tir;<br>• Darparu tir ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarthiadau B1-8), gan ddangos newid net mewn tir/arwynebedd llawr ar gyfer swyddfeydd a diwydiant/warysau ar wahân, a diogelu'r safleoedd yma rhag datblygu amhriodol;<br>• Cynnwys polisïau mewn perthynas â datblygu i'r dyfodol ar safleoedd cyflogaeth er mwyn eu diogelu rhag datblygu amhriodol: - er mwyn annog adfywio ac ailddefnyddio safleoedd sydd yn dal yn addas ac sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth: - er mwyn rheoli'r broses o ryddhau safleoedd cyflogaeth nad oes eu hangen i ddefnyddiau eraill;<br>• Ceisio darparu y swm priodol o dir a chymysgedd ansoddol o safleoedd er mwy bodloni galw'r farchnad am ddefnyddiau datblygu economaidd;<br>• Cynnig lleoliadau penodol ar gyfer y diwydiannau angenrheidiol hynny sydd yn niweidiol i amwynder ac allai fod yn ffynhonnell llygred;<br>• Ceisio hyrwyddo a hwyluso datblygu fydd yn darparu adfywiad ffisegol; | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r Adolygiad CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â materion economaidd gymdeithasol a phoblogaeth perthnasol yn ardal CBSC. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â materion economaidd gymdeithasol yn cynnwys cystadleurwydd economaidd a thwf economaidd, darpariaeth cyflogaeth, llesiant cymdeithasol, tai a mannau agored. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Blaenoriaethu safleoedd sydd yn darparu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant priodol i gymunedau difreintiedig;<br>• Canolbwyntio ar ddatblygu sydd yn denu nifer fawr o bobl, yn cynnwys manwerthu a swyddfeydd, mewn canol dinasoedd, trefi a phentrefi;<br>• Cynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf er mwyn delio â datblygiadau nad ydynt yn benodol wedi eu dyrannu yn y cynllun datblygu a helpu i ymateb i newid annisgwyl;<br>• Cynnwys polisïau ar gwmpas datblygu economaidd newydd mewn aneddiadau gwledig ac o'u cwmpas ac arenwi safleoedd addas. Mewn ardaloedd gwledig ynysig, ac aneddiadau llai, dylid ystyried dull seiliedig ar feini prawf;<br>• Cynnwys polisïau sydd yn annog ffermydd i arallgyfeirio a chyfleoedd datblygu gwledig;<br>• Arenwi parthau gwarchod o gwmpas sefydliadau sydd yn dal sylweddau peryglus a gwarchod gallu sefydliadau presennol i weithredu neu i ymestyn drwy atal datblygu defnydd bregus yn gynyddraddol sydd yn agos i safleoedd o'r fath;<br>• Mabwysiadu egwyddor 'canol trefi yn gyntaf' gydag ystyriaeth yn cael ei roi bob amser i ganolfan sydd yn bodoli eisoes.<br>• Sefydlu hierarchaeth fanwerthu leol sydd yn arenwi natur, math a'r rôl strategol fydd yn cael ei pherfformio gan ganolfannau manwerthu a masnachol;<br>• Nodi mesurau er mwyn adfywio canolfannau penodol, fel sy'n briodol, yn cynnwys cysylltu â strategaethau canolfannau, uwchgynlluniau a cynlluniau lleoedd;<br>• Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachu bywiog, deniadol a hyfyw;<br>• Arenwi ffiniau canolfannau manwerthu a masnachu sydd yn gynwysedig yn yr hierarchaeth ar y map cynigion;<br>• Dyrannu safleoedd ar gyfer defnydd canolfannau manwerthu a masnachu ble asesir bod yna angen ansoddol neu feintiol a phan fo maint a graddfa yn unol â'r strategaeth manwerthu. Dylai safleoedd gael eu harenwi gan ddefnyddio dull dilyniannol, a phan fo' briodol, eu hasesu am eu heffaith ar ganolfannau eraill;<br>• Cynnwys polisi seiliedig ar feini prawf y gellir barnu cynigion a gyflwynir ar safleoedd heb eu dyrannu yn eu herbyn;<br>• Nodi polisïau ar gyfer ardaloedd sylfaenol ac eilaidd, pan fo'n briodol;<br>• Datblygu polisïau sydd yn delio'n hyblyg â newidiadau i adeiladau presennol;<br>• Cynnwys polisïau mewn perthynas â datblygu yn y dyfodol ar safleoedd manwerthu presennol er mwyn eu gwarchod rhag datblygu amhriodol a rheoli rhyddhau | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | safleoedd manwerthu nad oes eu hangen ar gyfer defnyddiau eraill;<br>• Monitro iechyd canolfannau manwerthu er mwyn asesu effeithlonrwydd polisïau;<br>• Mabwysiadu dull dilyniannol o ddatblygu sydd yn gymwys i bob defnydd manwerthu ac arall sydd yn ategu canolfannau manwerthu a masnachol. Dylai CDLlau weithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat er mwyn arenwi safleoedd sydd yn gydnaws â'r dull dilyniannol ac sydd yn unol â strategaeth manwerthu y CDLl.<br>• Sefydlu fframwaith strategol ar gyfer gwarchod, darparu a gwella cyfleusterau twristiaeth, chwaraeon, hamdden wedi eu dylunio'n dda yn ardal CBSC.<br>• Gwarchod meysydd chwarae a mannau agored rhag datblygu, sydd â gwerth arwyddocaol o ran amwynder a hamdden i gymunedau lleol.<br>• Lleoli cyfleusterau allai gynhyrchu lefelau uchel o alw am deithio mewn canol trefi, neu'n agos atynt, pan fo'n bosibl.<br>• Ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio tir heb ei ddefnyddio fel parciau, parciau llinol neu ffyrdd gwyrdd mewn ardaloedd trefol; ac<br>• Annog defnydd lluosog o fannau agored a chyfleusterau, pan fo'n briodol, er mwyn cynyddu'r defnydd effeithlon ohonynt a lleihau'r angen i ddarparu mwy o gyfleusterau. | | |
| Iechyd Pobl | TAN 11: Sŵn (1997) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau ystyried gwerthoedd terfynau'r UE a chanllawiau WHO ar effeithiau niweidiol sŵn ar iechyd. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwarchod iechyd pobl. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â phob agwedd o iechyd a llesiant pobl. |
| Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (1997), TAN 1: Gorchmynion Cadwraeth Coed (1997) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Arenwi pob safle dynodedig rhyngwladol, cenedlaethol a lleol (yn cynnwys SPAau posibl, SACau arfaethedig a safleoedd Ramsar rhestredig);<br>• Darparu meini prawf ar gyfer asesu datblygiadau fydd y effeithio ar y gwahanol fathau o safleoedd dynodedig, gan adlewyrchu eu harwyddocâd perthnasol.;<br>• Cynnwys polisïau lleol benodol ar gyfer cadwraeth, a phan fo'n bosibl, gwella tirlun ac amwynder;<br>• Darparu ar gyfer gwarchod, a phan fo'n briodol, gwella bioamrywiaeth a thirlun y tu allan i ardaloedd dynodedig, ac yn benodol arenwi cyfleoedd i warchod cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, a diogelu a rheoli nodweddion tirlun o bwysigrwydd mawr i gadwraeth natur ac amwynder;<br>• Gwneud darpariaethau priodol ar gyfer Gwarchodfeydd Natur Lleol; | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwarchod a diogelu bioamrywiaeth, fflora a ffawna yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â chadwraeth bioamrywiaeth. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Yn cynnwys, pan fo'n briodol, polisïau lleol benodol ar gyfer gwarchod coetir brodorol a gwarchod a phlannu coed;<br>• Egluro sut y bydd bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu y tu allan i safleoedd dynodedig statudol heb gyfyngu yn ddiangen ar ddatblygu sydd fel arall yn briodol;<br>• Darparu ar gyfer gwarchod a gwella mannau agored o werth cadwraethol, gan amcanu at nodi ganfod cyfleoedd i hyrwyddo mynediad cyhoeddus cyfrifol ar gyfer mwynhad a dealltwriaeth o dreftadaeth naturiol pan fo hynny yn gydnaws â gwarchodaeth a'r defnydd tir presennol; a<br>• Cydnabod potensial, ac annog defnydd tir ac arferion rheoli tir sydd yn helpu i ddiogelu sinciau carbon.<br>• Ystyried lleoliad cynefinoedd a rhywogaethau bregus.<br>• Annog arallgyfeirio mewn perthynas â mentrau ffermydd a rhannau eraill o'r economi wledig ar gyfer defnyddiau twristiaeth, chwaraeon a hamdden priodol, yn ddarostyngedig i gamau diogelu priodol ar gyfer cymeriad ac edrychiad cefn gwlad, yn arbennig ei dirlun, bioamrywiaeth a gwerth amwynder lleol. | | |
| Pridd a Thir | Dim polisïau cynllunio cenedlaethol perthnasol ychwanegol, cyngor a chanllaw tu hwnt i'r darpariaethau y nodir yn PPW - 10fed Argraffiad (2018)<br>Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â diogelu defnydd tir ac adnoddau pridd yn effeithlon. Dylai'r Fframwaith SA yma gynnwys amcanion mewn perthynas â diogelu defnydd tir ac adnoddau pridd yn effeithlon. | | | |
| Dŵr | TAN 14: Cynllunio Arfordirol,(24), TAN 15: Datblygu a Risg Llifogydd (2004) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Ystyried cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol tir datblygu, yn cynnwys risg llifogydd.<br>• Ystyried amcanion PPW (2015) 'Seilwaith a Gwasanaethau' wrth ystyried effeithiau datblygu ar gyflenwad dŵr a rheoli gwastraff dŵr, cynlluniau datblygu a dŵr a rheoli datblygu a dŵr.<br>• Wrth ddatblygu CDLlau, dylai LPAau ymgynghori ag awdurdodau ffiniol a Chyfoeth Naturiol Cymru a sicrhau nad yw datblygiadau yn achosi risg ynddynt eu hunain nac yn cynyddu'r risg o lifogydd mewn mannau eraill. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwarchod a gwella ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a'r amgylchedd dŵr. | Dylai'r Fframwaith SA yma gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchod a gwella ansawdd ddŵr , adnoddau dŵr a'r amgylchedd dŵr. |
| Aer | Dim polisïau cynllunio cenedlaethol perthnasol ychwanegol, cyngor a chanllaw tu hwnt i'r darpariaethau y nodir yn PPW - 10fed Argraffiad (2018)<br>Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o'r CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas ag ansawdd aer. Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas ag ansawdd aer. | | | |
| Ffactorau hinsawdd | TAN 8: Ynni Adnewyddadwy (25), TAN 15: Datblygiad a Pherygl Llifogydd (2004) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Sicrhau bod taclo achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried wrth leoli datblygiadau newydd (gweler Adrannau 5.6 i 5.8 a 13.2 i 13.4 PPW (2015)).<br>• Ystyried risg cynyddol cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd<br>• Ystyried amcanion PPW (2015) 'Seilwaith a Gwasanaethau' wrth ystyried effeithiau datblygu ar fabwysiadu ynni adnewyddadwy a charbon isel. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Asedau Perthnasol | TAN 18: Trafnidiaeth (2002) Nodyn Cyngor Technegol TAN 19: Telegyfathrebu (2014,) TAN 21: Gwastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 2: Glo (2004), MTAN Cymru 1: Agregau, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Fod yn gyson ac integredig gyda'r strategaethau a'r polisïau sydd yn gynwysedig yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a strategaethau perthnasol eraill. Dylai unrhyw gynnig mewn perthynas â LTP sydd yn uniongyrchol yn ymwneud â datblygu neu ddefnydd tir, neu sydd â goblygiadau o ran defnydd tir, ymddangos fel polisi neu gynnig yn y cynllun datblygu.<br>• Sicrhau bod prosiectau sydd yn canolbwyntio ar drafnidiaeth yn destun asesiad yn unol â Chanllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG).<br>• Nodi'r strategaeth defnydd tir/trafnidiaeth, mynd i'r afael â hygyrchedd a darparu cyfleusterau trafnidiaeth strategol ac integredig, yn cynnwys ffyrdd, rheilffyrdd a chyfnewidfeydd;<br>• Lleoli prif gynhyrchwyr y galw am deithio mewn ardaloedd trefol presennol, neu mewn lleoliadau eraill y gellir eu gwasanaethau'n dda drwy gerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus;<br>• Sicrhau bod safleoedd datblygu sydd yn hygyrch iawn i ddulliau teithio heb gar yn cael eu defnyddio at ddibenion teithio dwys, gan adleoli eu defnydd os bydd angen;<br>• Mewn ardaloedd gwledig, dynodi canolfannau gwasanaethau lleol, neu glystyrau o aneddiadau ble gellir dangos cysylltiad swyddogaethol cynaliadwy, fel y lleoliadau a ffafrir ar gyfer datblygu newydd.<br>• Cynnwys mesurau penodol er mwyn hyrwyddo teithio actif yn unol â Deddf Teithio Actif (Cymru) 2013;<br>• Nodi polisïau er mwyn hyrwyddo defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys gwell cyfleusterau cyfnewid a chynlluniau parcio a theithio pan fo'n briodol;<br>• Cynnwys polisïau rheoli traffig priodol; arenwi'r prif frwydwaith ffyrdd, yn cynnwys priffyrdd, ac arenwi'r rhwydwaith graidd ar wahân;<br>• Arenwi cynigion ar gyfer ffyrdd newydd a gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith ffyrdd sylfaenol a'r polisi bras ar flaenoriaethau ar gyfer mân welliannau;<br>• Cynnwys polisïau a chynigion mewn perthynas â datblygu seilwaith trafnidiaeth ar wahân i ffyrdd;<br>• Arenwi, a gwarchod pan fo'n briodol, ffyrdd sydd eu hangen ar gyfer symud nwyddau yn gynaliadwy;<br>• Gwarchod seilwaith trafnidiaeth na ddefnyddir, yn cynnwys rheilffyrdd, seidins rheilffyrdd, porthladdoedd, harbyrau a dyfrffyrdd mewndirol rhag datblygiadau fyddai'n cyfaddawdu eu defnydd yn y dyfodol ar gyfer trafnidiaeth, pan fo ailddefnyddio yn bosibilrwydd;<br>• Lleihau effeithiau niweidiol prosiectau seilwaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac ar gymunedau lleol. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â datblygu seilwaith, rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys amcanion mewn perthynas â datblygu seilwaith, rheoli gwastraff a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Dylai CDLlau wneud y defnydd mwyaf o seilwaith presennol a dylent ystyried sut y gellid cydlynu y gwahanol fathau o seilwaith.<br>• Dylai CDLlau ystyried amcanion PPW (2015) 'Seilwaith a Gwasanaethau' wrth ystyried effeithiau datblygu ar reoli gwastraff, cynlluniau datblygu a chynllunio gwastraff, rheoli datblygu a chynllunio gwastraff.<br>• Dylai CDLlau nodi polisïau a chynigion ar gyfer lleoli offer telegyfathrebu, gan ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf er mwyn arwain datblygiadau telegyfathrebu ble gellid cynnig safleoedd ar wahân i'r rhai a nodir yn y cynllun. | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | TAN 12: Dylunio, Llywodraeth Cynulliad Cymru (1997), TAN 2: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017), TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017). | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Gydymffurfio â Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) (2011) er mwyn cefnogi gwarchod yr Iaith Gymraeg;<br>• Darparu polisïau mewn perthynas â gwarchod a diogelu safleoedd treftadaeth y byd, olion archeolegol, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, asedau hanesyddol lleol a pharciau a gerddi hanesyddol.<br>• Arenwi polisïau lleol benodol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol a chynnwys yr asedau treftadaeth hynny y tybir eu bod yn ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol.<br>• Ystyried y risg i safleoedd archeolegol a hanesyddol o ganlyniad i ddatblygiadau tai. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. | Dylai'r Fframwaith SA yma gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. |
| Tirlun | Polisi Cynllunio Cymru( 2015), Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 7:Rheoli Hysbysebu Awyr Agored, | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Ystyried tirluniau hanesyddol dynodedig yng Nghymru a phan fo'n briodol, datblygu polisïau lleol penodol fydd yn cyfrannu at eu gwarchod.<br>• Ystyried y risgiau ffisegol i dirlun o ganlyniad i ddatblygiadau tai. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â gwarchod a gwella tirluniau dynodedig, cymeriad tirlun, nodweddion tirlun ac amwynder gweledol. | Dylai'r Fframwaith SA yma gynnwys amcanion mewn perthynas â gwarchod a gwella tirluniau dynodedig, cymeriad tirlun, nodweddion tirlun amwynder gweledol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Effeithiau Cydberthnasol | Polisi Cynllunio Cymru( 2015), Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 3: Parthau Cynllunio wedi'u Symleiddio (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 1996) | Mae'r dogfennau yma yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses o baratoi CDLlau:<br>• Hyrwyddo patrymau datblygu cynaliadwy, arenwi tir ac adeiladau a ddatblygwyd eisoes, a dangos lleoliadau ar gyfer datblygu dwysedd uwch mewn canolbwyntiau a chyfnewidfeydd ac sydd yn agos i goridorau llwybrau pan fônt yn hygyrch ar droed neu feic ac mae'r drafnidiaeth gyhoeddus yn dda;<br>• Cynnal a gwella bywiogrwydd, apêl a hyfywedd canol trefi, ardal a phentrefi lleol (Pennod 1);<br>• Dylai datblygiadau ar gyfer twristiaeth, chwaraeon a gweithgareddau hamdden, pan fo'n briodol, gael eu lleoli ar dir sydd wedi ei ddatblygu eisoes.<br>• Annog datblygu dwysedd uwch a defnydd cymysg ger nodau trafnidiaeth cyhoeddus, neu'n agos i goridorau sydd wedi eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus;<br>• Meithrin dulliau datblygu sydd yn cydnabod y rhyngddibyniaeth rhwng tref a gwald, a gwella cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a'u cyffiniau gwledig;<br>• Lleoli datblygiadau fel y gelir eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith presennol (yn cynnwys ar gyfer cyflenwi ynni, rheoli gwastraff a dŵr) (PPW Pennod 12);<br>• Sicrhau bod datblygu yn annog cyfleoedd ar gyfer defnydd masnachol a phreswyl er mwyn creu budd amgylcheddol o gydleoli (PPW Pennod 12):<br>• Lleoli datblygiadau mewn aneddiadau sydd y gydnerth yn wyneb effeithiau newid yn yr hinsawdd, drwy osgoi ardaloedd ble na ellir rheoli canlyniadau ac effeithiau amgylcheddol yn gynaliadwy. Pan fo datblygu yn digwydd mewn ardaloedd risg hysbys, sicrhau bod y datblygu wedi ei ddylunio i fid yn gydnerth drwy gydol ei oes (PPW Pennod 13);<br>• Cynnwys polisïau strategol ar leoliad datblygiadau sydd o bosibl yn llygru, a dylid nodi meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau o'r fath, ond ni ddylid gwahardd darpariaethau ar gyfer prosiectau o'r fath na gwahardd ceisiadau i'w sefydlu.<br>Mewn perthynas â gwarchod Lleiniau Gwyrdd a Lletemau Glas; Dylai CDLlau:<br>• ddarparu cyfleoedd i gael mynediad at gefn gwlad agored;<br>• darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn yr awyr agored;<br>• cynnal buddiannau tirlun/bywyd gwyllt;<br>• cadw tir ar gyfer dibenion amaethyddol, coedwigaeth a pherthnasol;<br>• gwella tir segur; a<br>• darparu sinciau carbon er mwyn helpu i liniaru effeithiau ynysoedd o wres trefol. | Dylai unrhyw CDLL fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl yma nodi polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn cefnogi darparu datblygu cynaliadwy. | Dylai'r Fframwaith SA gynnwys swît o amcanion cysylltiedig er mwyn cefnogi darparu datblygu cynaliadwy. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae PPW (2015) hefyd yn hyrwyddo gwarchod tor amaethyddol ac ailddefnyddio tir llwyd ochr yn ochr â chanllawiau cynaliadwyedd ychwanegol. Dylai CDLlau nodi cyfleoedd i sicrhau bod safonau adeiladu cynaliadwy uwch yn cael eu mabwysiadu, sicrhau bod datblygiadau a gynigir yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hyfyw ac annog ceisiadau sydd yn adlewyrchu egwyddorion allweddol datblygiadau sydd yn ymateb i'r hinsawdd.<br>Mae'n rhaid i'r broses o baratoi CDLlau sicrhau:<br>• Bod neu y bydd digon o dir ar gael er mwyn darparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai<br>• Argaeledd safleoedd a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau gwag neu a danddefnyddir a'u haddasrwydd ar gyfer defnydd tai;<br>• Lleoli safleoedd datblygu posibl a'u mynediad at swyddi, siopau a gwasanaethau drwy ddulliau teithi ar wahân i gar, a photensial gwella mynediad o'r fath;<br>• Capasiti seilwaith presennol a photensial, yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, dŵr a charthffosiaeth, cyfleustodau eraill a seilwaith cymdeithasol (megis ysgolion ac ysbytai), i ddygymod â mwy o ddatblygu, a chost ychwanegu mwy o seilwaith.<br>• Y posibilrwydd o adeiladu cymunedau cynaliadwy er mwyn cefnogi seilwaith ffisegol a chymdeithasol newydd, yn cynnwys ystyriaeth i effaith ar yr Iaith Gymraeg (gweler 4.13), a darparu digon o alw er mwyn cynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol priodol;<br>• Cydnawsedd tai â defnydd tir ffiniol sefydledig y gellir effeithio'n niweidiol arno gan ddatblygu preswyl<br>• Dylai cynigion ar gyfer aneddiadau newydd gael eu hyrwyddo drwy'r CDLl a'u cyfiawnhau'n llawn ynddo<br>• Mae'n rhaid i CDLlau gynnwys targed o dai fforddiadwy ar gyfer yr awdurdod cyfan ar sail y LHMA a nodi'r cyfraniadau disgwyliedig y bydd y ymagweddau polisi a nodir yn y CDLl yn eu gwneud tuag at gyrraedd y targed hwnnw.<br>• Hefyd, dylai CDLlau gynnwys trothwyon safleoedd neu gyfuniad o drothwyon a thargedau safle benodol yn cynnwys y gyfan gywir o dai fforddiadwy.<br>• Mae'n rhaid i CDLlau gael eu hategu gan asesiad o anghenion llety ar safleoedd Sipsiwn/Teithwyr.<br>• Mesur y gofynion tai (tai fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad);<br>• Pennu targed tai fforddiadwy;<br>• Pennu strategaeth aneddiadau;<br>• Dyrannu tir tai ar sail y dilyniant chwilio a nodir yn 9.2.8 a'r meini prawf yn 9.2.9 yn PPW (2015);<br>• Cynnwys meini prawf polisi clir ar gyfer ystyried ceisiadau ar gyfer datblygu safleoedd na ddyrannwyd;<br>• Nodi'r amgylchiadau y byddir yn ystyried bod safleoedd a ddatblygwyd eisoes yn perfformio mor wael fel na fyddai | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | eu defnyddio yn cael eu ffafrio cyn safle tir gwyrdd (penodol);<br>• Cynnwys polisïau rheoli datblygu clir er mwyn arwain y broses o benderfynu ar geisiadau, yn cynnwys arweiniad ar dyluniad, mynediad, dwysedd, parcio oddi ar y stryd a darpariaeth mannau agored ar gyfer ardaloedd penodol fel sy'n briodol;<br>• Nodi mecanweithiau fydd yn cael eu defnyddio i fonitro'r defnydd o dir tai;<br>• Cynnwys polisïau ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd ble nodwyd bod angen yn bodoli, yn cynnwys unrhyw ardaloedd ble bydd safleoedd eithrio yn cael eu hystyried; a<br>• Chynnwys polisïau er mwyn dangos ble byddir yn disgwyl i ddatblygwyr gyfrannu at seilwaith, cyfleusterau cymunedol a thai fforddiadwy. | | |

# Appendix C Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy

C.1.1 Mae **Tabl C1.1** isod yn manylu ar y Fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd (SA) llawn sydd yn tanategu SA y RLDP arfaethedig. Mae'r Fframwaith SA wedi cal ei ddiweddaru er mwyn ystyried ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad cwmpasu SA Adolygiad o CDLl Conwy (Awst 2018). Mae crynodeb o'r newidiadau a wnaethpwyd yn cael eu darparu yn **Nhabl 4.1** yr Adroddiad SA yma.

Tabl C1.1 Fframwaith SA Arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad o'r CDLl

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| 1. Iechyd a Lles: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, yn cynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol. | ▪ Gwarchod a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd?<br>▪ Lleihau anghydraddoldeb iechyd a gwella iechyd corfforol a meddwl a llesiant cymunedau?<br>▪ Hwyluso neu annog teithio actif neu weithgareddau hamdden corfforol?<br>▪ Cynyddu hygyrchedd ac ansawdd darpariaeth mannau agored? | ▪ Agosrwydd i gyfleusterau gofal iechyd a'u capasiti/<br>▪ Agosrwydd i rwydweithiau teithio actif presennol.<br>▪ Agosrwydd i ddarpariaeth mannau agored presennol.<br>▪ Darparu cyfleusterau gofal iechyd newydd neu uwchraddedig, rhwydweithiau teithio actif neu fannau agored ar safleoedd arfaethedig. |
| 2. Cydraddoldeb a chynhwysiant Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, taclo allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, yn cynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. | ▪ Hyrwyddo diwylliant o gydraddoldeb, tegwch a pharch i bobl a'r amgylchedd?<br>▪ Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol?<br>▪ Hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio?<br>▪ Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng grwpiau o'r boblogaeth?<br>▪ Darparu mynediad at weithgareddau diwylliannol fforddiadwy?<br>▪ Lleihau tlodi tanwydd?<br>▪ Gwarchod a gwella mynediad at gyfleusterau cyfathrebu ansawdd uchel, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol? | ▪ Agosrwydd i gyfleusterau cymunedol presennol, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol?<br>▪ Darparu cyfleusterau cymunedol newydd neu uwchraddedig, gwasanaethau cyhoeddus neu amwynderau allweddol ar safleoedd arfaethedig. |

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| 3. Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer a gwell ansawdd cyfleoedd cyflogaeth er mwyn bodloni'r angen a nodir, tra'n gwella lefel y cyrhaeddiad addysgol a'r sgiliau ymysg trigolion. | ▪ Gwella mynediad at gyflogaeth, yn arbennig i bobl leol?<br>▪ Cynyddu ac amrywio cyfleoedd cyflogaeth?<br>▪ Gwella cyfleoedd ar gyfer addysg a dysgu gydol oes?<br>▪ Gwella cyrhaeddiad addysgol a lefel sgiliau, yn arbennig ymysg y boblogaeth oedran gweithio?<br>▪ Cefnogi twf sefydliadau addysg uwch a phellach? | ▪ Capasiti cyflogaeth y safle.<br>▪ Addasrwydd y safle ar gyfer datblygu defnydd cymysg.<br>▪ Agosrwydd i leoliadau cyflogaeth allweddol presennol neu arfaethedig (e.e. parciau busnes, ystadau diwydiannol a chlystyrau cyflogaeth trefol).<br>▪ Agosrwydd i gyfleusterau addysg a'u capasiti.<br>▪ Darpariaeth seilwaith addysg uwchraddedig arfaethedig ar safleoedd arfaethedig. |
| 4. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd drwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, tra'n sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel. | ▪ Cynyddu hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd?<br>▪ Gwella cysylltedd yn ardal CBSC a gydag ardaloedd eraill?<br>▪ Lleihau dibyniaeth ar geir ac annog symud tuag at ddulliau teithio mwy cynaliadwy, yn cynnwys i bobl a nwyddau?<br>▪ Cefnogi'r defnydd cynyddol o deithio actif?<br>▪ Gwella hygyrchedd, capasiti a diogelwch y rhwydwaith trafnidiaeth?<br>▪ Lleihau llifoedd traffig a thagfeydd?<br>▪ Gwella ansawdd ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus? | ▪ Agosrwydd i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus (arosfeydd bwysiau a gorsafoedd trenau).<br>▪ Agosrwydd i rwydwaith ffyrdd strategol (priffyrdd a thraffyrdd).<br>▪ Agosrwydd i rwydweithiau teithio actif presennol.<br>▪ Agosrwydd i fannau cyfyng o ran tagfeydd.<br>▪ Argaeledd a chapasiti seiwaith cyfleustodau i wasanaethu'r safle.<br>▪ Darpariaeth seilwaith trafnidiaeth neu gyfathrebu uwchraddedig ar safleoedd arfaethedig neu sydd yn cysylltu â'r safleoedd. |

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| | ▪ Gwella'r ddarpariaeth o seilwaith cyfathrebu o ansawdd uchel?<br>▪ Gwella seilwaith cyfleustodau er mwyn cefnogi twf economaidd a bodloni anghenion y boblogaeth? | |
| 5. Tai: Darparu digon o niferoedd ac amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn bodloni anghenion a nodwyd. | ▪ Helpu i hwyluso'r ddarpariaeth gynyddol o dai er mwyn bodloni'r ystod o anghenion a nodwyd?<br>▪ Gwella ansawdd y stoc tai?<br>▪ Lleihau digartrefedd a gorlenwi?<br>▪ Cynyddu cymysgedd, ystod a fforddiadwyedd tai?<br>▪ Darparu tai sydd yn annog teimlad o gymuned?<br>▪ darparu lleiniau a phlotiau digonol ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioeau Teithiol? | ▪ Capasiti tai y safle.<br>▪ Cyflenwedd tai fforddiadwy fel cydran o unrhyw ddatblygiad preswyl.<br>▪ Addasrwydd y safle ar gyfer datblygu defnydd cymysg.<br>▪ Defnydd tir ffiniol.<br>▪ Agosrwydd i safleoedd COMAH.<br>▪ Agosrwydd i Safleoedd Ewropeaidd sy'n agored i niwed o ganlyniad i bwysau gweithgareddau hamdden. |
| 6. Twf Economaidd: darparu twf economaidd cynaliadwy a gwneud y mwyaf o gyfraniad economaidd ardal CBSC i ranbarth Gogledd Cymru, yn cynnwys drwy arallgyfeirio ac atgyfnerthu'r sylfaen economaidd leol. | ▪ Darparu'r math cywir o ddatblygu a gweithgaredd economaidd yn y lleoliad priodol er mwyn gwneud y mwyaf o gystadleurwydd economaidd?<br>▪ Helpu i arallgyfeirio'r economi leol?<br>▪ Annog mewnfuddsoddiad?<br>▪ Cefnogi arloesedd a mentrau newydd?<br>▪ Hyrwyddo cydleoli gweithgareddau economaidd synergaidd, diwydiannau a defnydd tir? | ▪ Galluogrwydd y safle ar gyfer defnydd diwydiannol ac economaidd.<br>▪ Defnyddio tir ffiniol, yn cynnwys buddion cydgrynhoad posibl.<br>▪ Agosrwydd i'r rhwydweithiau ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus strategol/ |

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| | ▪ Cefnogi ystod o wahanol fathau a meintiau o fusnesau?<br>▪ darparu'r seilwaith a'r gofod gweithio sydd ei angen ar gyfer busnesau newydd a phresennol? | |
| 7. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau llygryddion atmosfferig niweidiol a lleihau cysylltiad ag aer o ansawdd gwael. | ▪ Cynnal neu wella ansawdd aer?<br>▪ Lleihau cysylltiad ag aer o ansawdd gwael?<br>▪ Atal a lleihau allyriadau llygryddion niweidiol? | ▪ Agosrwydd i Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA).<br>▪ Agosrwydd i fannau cyfyng o ran tagfeydd.<br>▪ Allyriadau gweithredol posibl. |
| 8. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu camau lliniaru ac addasu priodol er mwyn lleihau ac ymateb i effeithiau newid. | ▪ Helpu i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr (GHG) o'r sectorau economaidd allweddol?<br>▪ cefnogi lleihau defnyddio ynni?<br>▪ Cefnogi darparu ynni adnewyddadwy a charbon isel a lleihau dibyniaeth ar ffynonellau anadnewyddadwy?<br>▪ Hwyluso buddsoddiad mewn defnyddio seilwaith carbon isel a chynaliadwy a hyrwyddo hynny?<br>▪ Gweithredu camau osgoi ac addasu er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys mwy o risg llifogydd drwy gyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd sydd â risg llifogydd?<br>▪ Hyrwyddo dylunio cynaliadwy sydd yn lleihau allyriadau GHG ac sydd yn gallu addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd? | ▪ Darpariaeth ar y safle neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.<br>▪ Agosrwydd i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.<br>▪ Capasiti'r safle i gynnwys mesurau addasu i newid yn yr hinsawdd. |
| 9. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau | ▪ Sicrhau camau diogelu priodol ar gyfer uniondeb ac amcanion cadwraeth | ▪ Agosrwydd i safleoedd dynodedig ar lefel ryngwladol, cenedlaethol a |

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, yn cynnwys drwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig. | safleoedd dynodedig ar lefel rhyngwladol, cenedlaethol a lleol am resymau gwerth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth neu warchod rhywogaethau?<br>▪ Gwarchod a gwella rywogaethau a chynefinoedd gwerthfawr?<br>▪ Diogelu yn erbyn colli neu ddarnio cynefinoedd?<br>▪ Gwarchod neu wella coed gwarchodedig neu ardaloedd coetir?<br>▪ Gwella mynediad at fyd natur?<br>▪ Unioni tir neu ddŵr tir y mae'n hysbys eu bod wedi eu halogi?<br>▪ Diogelu'r tir amaethyddol gorau sydd yn bwysig yn lleol?<br>▪ Gwarchod a gwella adnodau tir pwysig? | lleol ac effeithiau posibl arnynt am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd ecolegol neu bwysigrwydd geolegol.<br>▪ Agosrwydd i goetiroedd dynodedig a choed a gwrychoedd pwysig.<br>▪ Tystiolaeth o gynefinoedd neu rywogaethau gwerthfawr ar y safle neu'n agos iddo.<br>▪ Effeithiau posibl ar ddarnio cynefinoedd a chysylltedd.<br>▪ Dosbarthiad tir amaethyddol.<br>▪ Math o dir a'i ansawdd. |
| 10. Dŵr a Risg Llifogydd: Gwarchod, diogelu a gwella dŵr am amgylcheddau arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, tra'n lleihau risg llifogydd. Mae'n rhaid i ddatblygiadau gael eu lleoli fel nad ydynt yn cynyddu risg llifogydd a dylid eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd ble mae'r risg mwyaf. | ▪ Gwella ansawdd cyrff dŵr gan helpu i fodloni amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr?<br>▪ Cynnal neu wella statws ecolegol neu gemegol yr amgylchedd dŵr?<br>▪ Achosi draeniad a llif dŵr wyneb, yn cynnwys llif dŵr wyneb i neu echdyniad o gyrff dŵr?<br>▪ Cefnogi gwelliannau seilwaith dŵr (cyflenwad dŵr a charthffosiaeth)? | ▪ Agosrwydd i Barthau Risg Llifogydd.<br>▪ Agosrwydd i gyrff dŵr a dyfrhaenau.<br>▪ Agosrwydd i beryglon amgylcheddol, megis ardaloedd o risg llifogydd a newid arfordirol. |

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| | ▪ Lleihau'r risg o lifogydd o bob ffynhonnell llifogydd i bobl, eiddo, seilwaith ac asedau amgylcheddol?<br>▪ Rheoli risgiau llifogydd gwaddodol yn briodol ac osgoi risgiau llifogydd newydd?<br>▪ Amcanu at leihau datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd yn agored i risg llifogydd neu liniaru potensial risg o'r fath?<br>▪ Hyrwyddo defnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy? | |
| 11. Deunyddiau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effeithiau amgylcheddol bychan a sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn cynnwys cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu. | ▪ Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir?<br>▪ Hyrwyddo egwyddor economi gylch?<br>▪ Trin a phrosesu gwastraff gydag effaith amgylcheddol bychan?<br>▪ Lleihau'r galw am ddeunyddiau crai a'r galw i echdynnu mwynau?<br>▪ Hyrwyddo defnyddio adnoddau lleol a lleihau mewnforio mwynau? | ▪ Agosrwydd i gyfleusterau casglu gwastraff.<br>▪ Sefydlu angen lleoliadol i echdynnu mwynau. |
| 12. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith a gwella ansawdd dyluniad er mwyn creu lleoedd gwych i bobl. | ▪ Hyrwyddo pensaernïaeth a dylunio o ansawdd uchel sydd yn atgyfnerthu neilltuedd lleol ac sy'n meithrin teimlad o le.?<br>▪ Creu a chynnal tir y cyhoedd diogel a deniadol sydd yn annog pobl i gerdded a seiclo?<br>▪ Sicrhau datblygu sydd yn briodol o ran lleoliad, maint, pentyrru a dwysedd? | ▪ Tir llwyd a ddatblygwyd eisoes neu dir gwyrdd.<br>▪ Agosrwydd i rwydweithiau teithio actif. |

| **Amcanion SA Arfaethedig** | **Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...*** | **Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig** |
|---|---|---|
| | ▪ Gwneud y defnydd gorau o dir drwy flaenoriaethu ailddatblygu safleoedd tir llwyd a lleoli defnydd poblogaidd sydd yn agos i rwydweithiau trafnidiaeth cyhoeddus?<br>▪ Lleihau cyfleoedd i droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy leoli a dylunio datblygiad newydd?<br>▪ Darparu tir y cyhoedd sydd yn teimlo'n ddiogel i'r holl ddefnyddwyr bob amser? | |
| 13. **Treftadaeth Ddiwylliannol:** Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, yn cynnwys y defnydd o'r Iaith Gymraeg. | ▪ Cynyddu argaeledd a hygyrchedd diwylliant, gweithgareddau hamdden/ lleoliadau?<br>▪ Gwarchod, diogelu a gwella uniondeb, cymeriad a gosodiad asedau treftadaeth?<br>▪ Gwarchod a gwella rhinweddau ardaloedd o arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol?<br>▪ Hyrwyddo'r defnydd sensitif o adeiladau hanesyddol neu ddiwylliannol bwysig?<br>▪ Gwarchod a, phan fo'n briodol, gwella adnoddau archeolegol pwysig?<br>▪ Sicrhau a chynyddu y defnydd o'r Iaith Gymraeg? | ▪ Agosrwydd at, ac effeithiau posibl ar asedau ac ardaloedd treftadaeth, au' gosodiad.<br>▪ Ailddefnyddio adeiladau hanesyddol neu ddiwylliannol bwysig.<br>▪ Cynnwys arwyddion Cymraeg ar safleoedd arfaethedig. |
| 14. **Thirlun:** Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol ac eglurder aneddiadau yn ardal CBSC, gan ystyried rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri. | ▪ Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun?<br>▪ Diogelu nodweddion tirlun a threflun pwysig?<br>▪ Gwarchod rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri? | ▪ Agosrwydd i ac effeithiau posibl ar dirluniau dynodedig yn genedlaethol a lleol; |

| Amcanion SA Arfaethedig | Cwestiynau Canllawiau SA Arfaethedig - *A fydd y CDLl Newydd...* | Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau o Safleoedd Arfaethedig |
|---|---|---|
| | ▪ Gwarchod amwynder gweledol a golygfeydd a werthfawrogir?<br>▪ Atal gwasgariad trefol? | ▪ Tystiolaeth o effeithiau posibl ar amwynder gweledol neu olygfeydd allweddol;<br>▪ Tystiolaeth o integreiddio neu gyfuno, neu wahanu oddi wrth aneddiadau presennol. |

# Appendix D SA o Weledigaeth ac Amcanion y CDLl

## D.1 Trosolwg

D.1.1 Mae'r atodiad yma yn darparu gwerthusiad o effeithiau arwyddocaol tebygol Gweledigaeth a Deilliannau'r CDLl a nodir ym Mhapur Ymgynghori 1 â Rhanddeiliaid Allweddol Cyn Adneuo. Hefyd, mae Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl yn cael eu nodi yn **Ffigwr 5.1** a **Thabl 5.1** yr Adroddiad SA yma yn ôl eu trefn.

## D.2 SA o Weledigaeth ac Amcanion y CDLl

6.5.5 Oherwydd natur lefel uchel Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar benderfynu ar eu cydnawsedd â Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy (**Atodiad C**) yn hytrach na cheisio arenwi effeithiau arwyddocaol tebygol penodol. Fodd bynnag, pan fo unrhyw anghydnawsedd neu ansicrwydd yn cael eu harenwi yn yr asesiad, cynigir camau lliniaru priodol yn **Adran 6** yr Adroddiad SA yma er mwyn sicrhau yr osgoir effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol, y cryfheir aliniad y RLDP arfaethedig gyda'i Fframwaith SA cysylltiedig, a gwella effeithlonrwydd yr RLDP arfaethedig yn ehangach. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd bydd Gweledigaethau ac Amcanion y CDLl yn tanategu holl elfennau eraill yr RLDP arfaethedig yn cynnwys polisïau strategol, dyraniadau safleoedd a pholisïau rheoli datblygu.

D.2.1 Mae'r system sgorio a ddefnyddir i asesu cydnawsedd Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLl gyda Fframwaith SA Adolygiad o CDLl Conwy yn cael ei dangos yn **Nhabl D2.1** isod.

Tabl D2.1 System Sgorio SA ar gyfer Gweledigaethau ac Amcanion y CDLl

| Disgrifiad o Gydnawsedd | Symbol |
|---|---|
| Mae'r elfen a aseswyd yn gydnaws â'r Amcan SA yma | + |
| Byddai'r elfen a aseswyd yn arwain at effaith niwtral ar yr Amcan SA yma | |
| Byddai'r elfen a aseswyd yn arwain at effaith ansicr ar yr Amcan SA yma | ? |
| Mae'r elfen a aseswyd yn anghydnaws â'r Amcan SA yma ac felly mae angen camau lliniaru er mwyn sicrhau bod effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol yn cael eu hosgoi | - |
| Nid oes yna berthynas glir rhwng yr elfen a aseswyf a'r Amcan SA yma | ~ |

| GO4 - rhagamcaniad wedi arwain gan gyflogaeth - rhagamcaniad 'Polisi Ar' Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy o 1,8 o swyddi ychwanegol | Cyflogaeth +18 (+12.6ha)<br>Tai – 5,25 (35 p/a) | Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy (ELR 2018)<br>Bargen Twf Gogledd Cymru |
| GO5 - rhagamcaniad wedi arwain gan gyflogaeth - rhagamcaniad 'Polisi Ar' Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy o 3,5 o swyddi ychwanegol | Cyflogaeth +35 (+24.6ha)<br>Tai – 7,35 (49 p/a) | Strategaeth Twf Economaidd Conwy<br>Bargen Twf Gogledd Cymru |
| GO6 - rhagamcaniad wedi ei arwain gan dai - gofyniad tai fforddiadwy LHMA (seiliedig ar gyfraniad tai fforddiadwy o 2%) | Cyflogaeth - Ddim yn gymwys<br>Tai – 17,3 (1,15 p/a) | Asesiad o Farchnad Tai Lleol Conwy<br>Asesiad o Hyfywedd Tai Fforddiadwy |

* Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy (ELR 2018 233) Adolygiad o Ysgogwyr Economaidd Conwy (2018-233) ac Asesiad o Farchnad Tai Lleol Conwy

6.5.10 Mae **Tabl E2.2** isod yn darparu gwerthusiad o'r Opsiynau Twf amgen rhesymol er mwyn tanategu Strategaeth a Ffafrir y CDLl ar gyfer yr RLDP arfaethedig. Dylid nodi, er bod GO6 yn gynwysedig ym Mhapur Ymgynghori 2, cydnabyddir nad yw'r opsiwn yma yn ddewis amgen rhesymol oherwydd na fyddai ei gyflawni yn realistig, oherwydd bod lefel y cyflawniadau tai blynyddol fyddai'n ofynnol yn llawer uwch na chyfraddau cyflawni hanesyddol ar draws ardal CBSC. Felly mae GO6 wedi cael ei ddiystyru.

Tabl E2.2: SA o Opsiynau Twf

| Amcan SA | GO1 | GO2 | GO3 | GO4 | GO5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Iechyd a Lles: Gwella pob agwedd o iechyd a llesiant y boblogaeth, yn cynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol. | - | + | + | + | + | Ac eithrio GO1, mae'r holl Goau a aseswyd yn debygol o gefnogi deilliannau iechyd a llesiant gwell drwy hwyluso twf y boblogaeth oedran gweithio a darparu cyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig, er bod hynny i raddau amrywiol. I'r gwrthwyneb, mae GO1 yn anghydnaws â'r Amcan SA yma oherwydd y byddai'n debygol o arwain at ddiboblogi, ac yn benodol, gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio. |
| 2. Cydraddoldeb a chynhwysiant Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, taclo allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, yn cynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. | - | + | + | + | +? | Ac eithrio GO1, mae'r holl Goau a aseswyd yn debygol o gefnogi ymdrechion i leihau tlodi, anghydraddoldeb ac allgau cymdeithasol drwy wella darpariaeth cyfleoedd economaidd a chyflogaeth, er y byddai hynny i wahanol raddau. I'r gwrthwyneb, mae GO1 yn anghydnaws â'r Amcan SA yma oherwydd y byddai'n debygol o arwain at ddiboblogi, a gallai waethygu tlodi sy'n bodoli ac allgau cymdeithasol mewn cymunedau. Mewn perthynas â phob GO a aseswyd:<br><br>GO1 - Ansawdd cyfleusterau cymunedol yn debygol o ddirywio wrth i'r boblogaeth oedran gweithio ostwng yn gymharol, ac mae angen symud at ddarparu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.<br><br>GO2 - potensial am berthynas gadarnhaol yn seiliedig ar dwf swyddi. Ni ellir tybio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol ond maent yn gadarnhaol gysylltiedig.<br><br>GO3 - Potensial am berthynas gadarnhaol yn seiliedig ar dwf swyddi ond nid mor gryf â GO2, GO4 a GO5 Ni ellir tybio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol ond maent yn gadarnhaol gysylltiedig.<br><br>GO4 - potensial am berthynas gadarnhaol yn seiliedig ar dwf swyddi cryfach. Ni ellir tybio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol ond maent yn gadarnhaol gysylltiedig.<br><br>GO5 - potensial am berthynas gadarnhaol yn seiliedig ar dwf swyddi cryfach. Ni ellir tybio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol ond maent yn gadarnhaol gysylltiedig. Fodd bynnag, gallai'r GO yma arwain at golli pwerau siapio'r farchnad drwy orddyrannu tai yn uwch na lefel gofynnol yr angen a arenwyd. Un canlyniad negyddol posibl i hyn fyddai lleihau'r flaenoriaeth i a'r posibilrwydd o adfywio ardaloedd difreintiedig. |
| 3. Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer a gwell ansawdd cyfleoedd cyflogaeth er mwyn bodloni'r angen a nodir, tra'n gwella lefel y cyrhaeddiad addysgol a'r sgiliau ymysg trigolion. | - | + | + | + | + | Ac eithrio GO1, mae'r holl GOau a aseswyd yn debygol o gefnogi ymdrechion i gynyddu nifer ac ansawdd cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefel cyrhaeddiad addysgol ymysg y boblogaeth breswyl, drwy gefnogi twf poblogaeth a mwy o ddarpariaeth cyflogaeth. I'r gwrthwyneb, mae GO1 yn anghydnaws â'r Amcan SA yma oherwydd y byddai'n debygol o arwain at ddiboblogi, ac yn |

| Amcan SA | GO1 | GO2 | GO3 | GO4 | GO5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | benodol, gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio, a'r gweithlu i'r dyfodol yn ardal CBSC o ganlyniad i hynny. Mewn perthynas â phob GO a aseswyd:<br><br>GO1 - Perthynas negyddol amlwg oherwydd byddai'r GO yma yn golygu gostyngiad mewn dyraniadau tir cyflogaeth presennol, fyddai'n arwain at lai o darpariaeth cyflogaeth i'r dyfodol nag sydd yn ofynnol i fodloni anghenion a aseswyd.<br><br>GO2 - Perthynas gadarnhaol drwy greu swyddi newydd a mewnfudiad o boblogaeth sgiliedig oedran gweithio. Ni ellir tybio y byddir yn codi lefelau sgiliau ac addysg trigolion ond mae yna berthynas gadarnhaol.<br><br>GO3 - Perthynas gadarnhaol drwy greu swyddi newydd a mewnfudiad o boblogaeth sgiliedig oedran gweithio. Ni ellir tybio y byddir yn codi lefelau sgiliau ac addysg trigolion ond mae yna berthynas gadarnhaol.<br><br>GO4 - Perthynas gadarnhaol drwy greu swyddi newydd a mewnfudiad o boblogaeth sgiliedig oedran gweithio. Ni ellir tybio y byddir yn codi lefelau sgiliau ac addysg trigolion ond mae yna berthynas gadarnhaol.<br><br>GO5 - Perthynas gadarnhaol drwy greu swyddi newydd a mewnfudiad o boblogaeth sgiliedig oedran gweithio. Ni ellir tybio y byddir yn codi lefelau sgiliau ac addysg trigolion ond mae yna berthynas gadarnhaol. |
| 4. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd drwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, tra'n sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel. | - | +? | +? | ? | - | Ystyrir bod yr holl Goau a aseswyd yn debygol o arwain at wahanol effeithiau ar yr Amcan SA yma:<br><br>GO1 - Potensial am berthynas negyddol wrth i'r boblogaeth oedran gwaith ostwng, fyd yn gwneud yr achos o blaid buddsoddi mewn trafnidiaeth a chyfathrebu yn anoddach. Ar yr un pryd, byddai'r angen am well trafnidiaeth gyhoeddus yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio.<br><br>GO2 - Perthynas ansicr ar hyn o bryd, ond potensial i fod yn gadarnhaol. Byddai buddsoddi mewn trafnidiaeth er mwyn gwella hygyrchedd a chysylltedd yn un o ragofynion gweithredu'r opsiwn twf yma, ac felly byddai'n arwain o bosibl at well mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd.<br><br>GO3 - Fel yn achos GO2, perthynas ansicr ar hyn o bryd, ond potensial i fod yn gadarnhaol. Byddai buddsoddi mewn trafnidiaeth er mwyn gwella hygyrchedd a chysylltedd yn un o ragofynion gweithredu'r opsiwn twf yma, ac felly byddai'n arwain o bosibl at well mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd. |

| Amcan SA | GO1 | GO2 | GO3 | GO4 | GO5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | GO4– Perthynas ansicr ar hyn o bryd. Potensial i fod yn gadarnhaol. Bydd angen gwella Trafnidiaeth a Chyfathrebu er mwyn gallu gwireddu'r senario twf yma.<br><br>GO5 - Er y byddai'r strategaeth yma yn golygu bod angen buddsoddi mewn trafnidiaeth a Chyfathrebu, mae yna botensial am effaith negyddol o ganlyniad i orddyrannu tir tebygol a byddai hynny yn arwain at ymagwedd gynyddraddol anghyson tuag at gynllunio. |
| 5. Tai: Darparu digon o niferoedd ac amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn bodloni anghenion a nodwyd. | - | + | + | + | + | Ystyrir bod yr holl Goau a aseswyd yn debygol o arwain at wahanol effeithiau ar yr Amcan SA yma:<br><br>GO1 - Byddai'r GO yma yn golygu lleihau cyflenwad tir ar gyfer tai presennol CBSC, fyddai'n golygu y byddai'r ddarpariaeth tai yn parhau i fethu â bodloni'r anghenion a arenwyd, a byddai diffyg yn cael ei waethygu. Hefyd, heb ddyraniadau newydd ni fyddai yna unrhyw fecanwaith ar gyfer darparu tai fforddiadwy ychwanegol mewn model gaiff ei arwain gan y farchnad. Mae'r GO yma yn seiliedig  ar gyfradd twf sydd yn is na thueddiadau'r gorffennol a'r lefel bresennol ragdybiedig o angen am dai a aseswyd yn wrthrychol, ac mae hynny yn debygol o arwain at waethygu fforddiadwyedd a materion yn ymwneud â'r angen am dai.<br><br>GO2, GO3, a GO4 - Mae'r Goau yma yn cynllunio i fodloni twf rhagdybiedig ar lefelau sydd yn tybio lefelau cyraeddadwy o dai fforddiadwy.<br><br>GO5 - Rhagdybiad twf ar lefelau sydd yn tybio lefelau cyraeddadwy o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r opsiwn yma yn debygol o berfformio'n well o gwbl nag opsiynau eraill. |
| 6. Twf Economaidd: darparu twf economaidd cynaliadwy a gwneud y mwyaf o gyfraniad economaidd ardal CBSC i ranbarth Gogledd Cymru, yn cynnwys drwy arallgyfeirio ac atgyfnerthu'r sylfaen economaidd leol. | - | + | + | + | + | Ac eithrio GO1, Byddai gan y Goau a aseswyd effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma oherwydd bod pob un yn darparu tir cyflogaeth ychwanegol fyddai'n cefnogi twf economaidd i'r dyfodol. Mae GO5 yn nodi senario gaiff ei arwain gan gyflogaeth gyda'r lefel uchaf o ddyraniadau tir cyflogaeth, ond efallai na fydd twf n cael ei ddarparu'n gynaliadwy ac efallai na fydd yr uchelgais am dwf yn cael ei wireddu. Yn wahanol i'r gweddill, byddai gan GO1 berthynas negyddol amlwg â'r Amcan SA yma oherwydd byddai'n golygu colli dyraniadau tir cyflogaeth presennol, a byddai hynny yn arwain at lai o ddarpariaethau cyflogaeth i'r dyfodol. Felly byddai'r GO yma yn  cyfyngu ar dwf economaidd yn y dyfodol ar draws ardal CBSC. |
| 7. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau llygryddion atmosfferig niweidiol a lleihau cysylltiad ag aer o ansawdd gwael. | ? | ? | ? | ? | -? | Ac eithrio GO5 o bosibl, byddai'r Goau a aseswyd yn arwain at effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd bod y berthynas yn dibynnu ar leoliad datblygiadau tai a cyflogaeth mewn perthynas â'i gilydd ac mewn perthynas ag ansawdd aer hysbys. Ystyrir y byddai'n debygol y byddai gan GO5 berthynas negyddol, er ansicr, gyda'r Amcan SA yma oherwydd y gallai |

| Amcan SA | GO1 | GO2 | GO3 | GO4 | GO5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | gorddyrannu tir gyfyngu ar gydleoli defnydd tai a chyflogaeth ac atgyfnerthu dibyniaeth bresennol ar geir, a byddai hynny yn arwain at ddeilliannau o ran ansawdd aer gwael. |
| 8. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu camau lliniaru ac addasu priodol er mwyn lleihau ac ymateb i effeithiau newid. | ? | ? | ? | ? | -? | Ac eithrio GO5 o bosibl, byddai'r Goau a aseswyd yn achosi effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd bod y berthynas yn dibynnu ar a yw datblygiadau yn cynnwys camau lliniaru ac addasu er mwyn ymateb i newid yn yr hinsawdd yn hytrach na lefel y twf tai a chyflogaeth fel y cyfryw. Ystyrir ei bod yn debygol y byddai GO5 yn arwain at berthynas negyddol, er yn ansicr, gyda'r Amcan SA yma, oherwydd gallai gorddyrannu tir arwain at batrymau datblygu anghynaladwy a chyfyngu ar y gallu i gataleiddio newid dulliau. |
| 9. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, yn cynnwys drwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig. | ? | -? | -? | -? | - | Ac eithrio GO1, mae'r holl Goau a aseswyd yn cynnwys dyraniadau tir ar gyfer tai a chyflogaeth newydd fyddai'n arwain at ddefnyddio tir. Yn ddibynnol ar i ba raddau y bydd tir gwyrdd yn cael ei ddefnyddio a nodweddion safleoedd datblygu unigol (yn cynnwys tir llwyd), gallai lefelau twf tai a chyflogaeth o dan pob GO arwain at effeithiau niweidiol ar fuddiannau ecolegol, geoamrywiaeth a phridd. Ystyrir ei bod yn debygol y byddai GO5 yn arwain at berthynas negyddol, er yn ansicr, gyda'r Amcan SA yma, oherwydd gallai gorddyrannu tir arwain at batrymau datblygu anghynaladwy ac mae'n fwy tebygol o arwain at aflonyddu ar fuddion ecolegol a geoamrywiaeth a phridd. |
| 10. Dŵr a Risg Llifogydd: Gwarchod, diogelu a gwella dŵr am amgylcheddau arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, tra'n lleihau risg llifogydd. | ? | ? | ? | ? | -? | Ac eithrio GO5 o bosibl byddai'r Goau a aseswyd yn arwain at effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd fod y berthynas yn dibynnu ar y pwysau fydd datblygiadau unigol yn ei roi ar adnoddau dŵr ac agosrwydd corff dŵr at safleoedd datblygu unigol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd digon o adnoddau dŵr yn gallu cefnogi pob GO, neu gellid eu darparu drwy fuddsoddi. Ystyrir ei bod yn debygol y byddai GO5 yn arwain at berthynas negyddol, er yn ansicr, gyda'r Amcan SA yma, oherwydd gallai gorddyrannu tir arwain at batrymau datblygu anghynaladwy a mwy o bwysau datblygu ar yr amgylchedd dŵr. |
| 11. Deunyddiau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effeithiau amgylcheddol bychan a sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn cynnwys cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu. | ? | ? | ? | ? | ? | Byddai'r holl Goau a aseswyd yn achosi effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd byddai effeithiau ar y defnydd o adnoddau naturiol, cynhyrchu gwastraff a thwf yr economi gylchol yn dibynnu ar nodweddion datblygiadau ac ar adnoddu naturiol a pholisïau rheoli dŵr y yr RLDP arfaethedig yn hytrach na lefel y twf fel y cyfryw. |

| Amcan SA | GO1 | GO2 | GO3 | GO4 | GO5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith a gwella ansawdd dyluniad er mwyn creu lleoedd gwych i bobl. | -? | + | + | + | -? | Ystyrir ei bod yn debygol y byddai GO2, GO3 a GO4 yn achosi effeithiau cadarnhaol ar yr Amcan SA yma oherwydd byddai lefelau twf tai a chyflogaeth yn golygu datblygu ar raddfa y gellir ei reoli er mwyn gwella lleoedd a seilwaith presennol, heb fod angen graddfa mor helaeth fel y byddai lleoedd yn cael eu gorlwytho neu y byddai tir yn debygol o gael ei ddefnyddio'n aneffeithlon. I'r gwrthwyneb, byddai GO1 yn golygu gostyngiad yng nghyflenwad tir tai a chyflogaeth CBSC, ac felly byddai'n cyfyngu ar fuddsoddi o'r newydd mewn datblygu lleoedd a seilwaith. Byddai GO5 yn arwain at effeithiau negyddol ac effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma oherwydd gallai gorddyrannu tir arwain at batrymau datblygu anghynaladwy ac aneffeithiol. |
| **13. Treftadaeth Ddiwylliannol:** Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, yn cynnwys y defnydd o'r Iaith Gymraeg. | ? | ? | ? | ? | -? | Byddai'r holl Goau a aseswyd yn achosi effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd byddai effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol yn dibynnu ar nodweddion datblygiadau ac ar bolisïau treftadaeth ddiwylliannol yn y RLDP arfaethedig yn hytrach na lefel y twf fel y cyfryw. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae lefel uwch o dwf yn debygol o gynyddu pwysau datblygu yn agos at asedau treftadaeth, sydd yn golygu yr ystyrir y byddai GO5 yn debygol o arian at effeithiau negyddol, ond ansicr, ar yr Amcan SA yma. |
| **14. Tirlun:** Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol ac eglurder aneddiadau yn ardal CBSC, gan ystyried rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol | ? | ? | ? | ? | -? | Ac eithrio GO5 o bosibl, byddai'r Goau a aseswyd yn arwain at effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd bod y berthynas yn dibynnu ar leoliad a dyluniad datblygiadau tai a chyflogaeth mewn perthynas â nodweddion a chymeriad tirlun. Ystyrir bod GO5 yn debygol o arwain at berthynas negyddol, er ansicr, gyda'r Amcan SA yma oherwydd gallai gorddyrannu tir gynyddu pwysau datblygu mewn ardaloedd sydd â mwy o sensitifrwydd tirlun, tra bod y Goau eraill yn cynnig lefelau twf sydd yn debygol o gael eu hysgogi drwy bolisïau testun yn yr RLDP arfaethedig i ardaloedd gyda sensitifrwydd is. |

## E.3 SA o Ddosbarthiad Gofodol Opsiynau Twf

6.5.11 Mae **Tabl E2.1**sy'n seiliedig ar Dabl 3 Papur Ymgynghoriad 2 yn amlinellu'r Chwech Opsiwn Dosbarthiad Twf Gofodol (SDO) sydd yn cael eu hystyried er mwyn hysbysu'r RLDP arfaethedig. Mae disgrifiad a dadansoddiad lefel uchel o bob SDO posibl sydd ar y rhestr fer (h.y. sydd ar hyn o bryd yn ddewisiadau amgen rhesymol) wedi eu darparu yn Adran 6 Papur Ymgynghori 2:

Tabl E3.1: Opsiynau Dosbarthiad Twf Gofodol Posibl

| Cyfeirnod Opsiynau Dosbarthiad Gofodol (SDO) | Opsiwn Dosbarthiad Gofodol |
|---|---|
| SDO1 | Ailadrodd y CDLl mabwysiedig (dosbarthiad Cynaliadwy) |
| SDO2 | Dosbarthu Twf i'r holl ganolfannau trefol ar hyd coridor yr A55 |
| SDO3 | Twf trefol ffocysedig yn unol â Chynllun Gofodol Cymru. |
| SDO4 | Twf trefol ffocysedig yn unol â Chynllun Gofodol Cymru ac mewn Aneddiadau Ategol. |
| SDO5 | Canolbwyntiau a Choridorau |
| SDO6 | Anheddiad Newydd/Estyniad Mawr i Anheddiad Presennol |

6.5.12 Mae **Tabl E3.2** isod yn darparu gwerthusiad o'r Opsiynau Dosbarthiad Twf Gofodol amgen rhesymol er mwyn tanategu Strategaeth a Ffafrir y CDLl ar gyfer yr RLDP arfaethedig

Tabl E3.2: SA o Ddosbarthiad Gofodol Opsiynau Twf

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Iechyd a Lles: Gwella pob agwedd o iechyd a llesiant y boblogaeth, yn cynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol. | | + | | + | + | - | SDO1 - Mae'r rhan fwyaf o'r aneddiadau mawr yn ardal y cynllun yn cefnogi'r amcan yma. Mae'r SDO y gall twf a buddion twf gael eu taenu i'r holl aneddiadau ar draws ardal y cynllun, ond mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu na fyddid yn gallu cyflawni hynny efallai oherwydd ffactorau yn cynnwys y gallu i farchnata'r safle a mynediad amrywiol. Felly rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO2 - Byddai'r SDO yn golygu canolbwyntio twf ar ardaloedd trefol ble mae dulliau teithio cynaliadwy ac actif a chyfleusterau iechyd cymunedol yn fwy tebygol o fod ar gael, a hynny yn arwain at effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO3– Byddai'r opsiwn yma yn golygu canolbwyntio twf ar ardaloedd trefol ble mae dulliau teithio cynaliadwy ac actif a chyfleusterau iechyd cymunedol yn fwy tebygol o fod ar gael. Fodd bynnag, mae'r opsiwn yn diystyru datblygu mewn lleoedd sydd â gwasanaeth mor dda ond sy'n llai trefol ble byddai twf yr un mor debygol o gyfrannu at yr Amcan SA yma.<br><br>SDO4 ac SDO 5 – Byddai'r ddau opsiwn yma yn golygu canolbwyntio twf ar ardaloedd trefol ble mae dulliau teithio cynaliadwy ac actif, ffyrdd o fyw actif a chyfleusterau iechyd cymunedol yn fwy tebygol o fod ar gael.<br><br>SDO 6 - Mae'r opsiwn yma yn canolbwyntio'r holl fuddion fyddai fel arall yn gallu cefnogi cyflawni'r Amcan SA yma ar draws ardal CBSC mewn un man, heb sail resymegol glir ar gyfer anheddiad newydd. Felly mae'r SDO yma yn anghydnaws â'r Amcan SA yma. |
| 2. Cydraddoldeb a chynhwysiant Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, taclo allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, yn cynnwys drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol. | | - | | | | | SDO1 - Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma. Mewn ardaloedd ble mae buddion cymdeithasol twf wedi bod yn anodd eu darparu, mae dull ;taenu'n denau' yn annhebygol o wella hynny. Felly rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO2 - Byddai'r DSO yma yn canolbwyntio twf yn yr ardaloedd mwyaf trefol ble bu'n anodd darparu datblygiad. Yn ôl ei eiriad, nid yw'r SDO yma yn canatau twf y tu allan i'r ardaloedd mwyaf trefol, a gallai hynny effeithio ar ddatblygiad gwledig. Oherwydd hynny gallai'r SDO fethu â lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, taclo allgau cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ar draws ardal CBSC gyfan, a byddai hynny yn arwain at effaith negyddol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO3 ac SDO 4 - Byddai'r SDOau yma yn golygu y byddai twf yn cael ei ganolbwyntio ar ddyraniadau y gellir eu cyflawni ac o gwmpas gwasanaethau sy'n bodoli. Er y byddai'n helpu i |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | daclo tlodi ac allgau cymdeithasol mewn ardaloedd lleol ble mae twf yn cael ei ganolbwyntio, ni fyddai'r SDO yn mynd i'r afael ag anghenion lleol neu ardaloedd difreintiedig a arenwyd ble mae yna brinder gwasanaethau ar hyn o bryd.<br><br>SDO5 - Mae'r SDO yma yn canolbwyntio ar ddyraniadau hygyrch allai helpu i leihau dibyniaeth ar geir a chefnogi dyraniadau mewn ardaloedd difreintiedig yn nwyrain ardal CBSC, a byddai hynn yn helpu i daclo tlodi. Fodd bynnag, mae yna brinder strategaeth yn yr SDO ar gyfer datblygu gwledig. Felly, at ei gilydd rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Byddai'r opsiwn yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth. Er y gallai anheddiad o'r fath ddarparu cyfleusterau cymunedol newydd, byddai buddion economaidd gymdeithasol y twf yn cael eu canolbwyntio ar un man. Felly, at ei gilydd rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma. |
| 3. Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer a gwell ansawdd cyfleoedd cyflogaeth er mwyn bodloni'r angen a nodir, tra'n gwella lefel y cyrhaeddiad addysgol a'r sgiliau ymysg trigolion. | | | + | + | + | | SDO1 - Byddai'r SDO yma yn golygu y byddai twf yn cael ei wasgaru ar draws aneddiadau, ond ni fyddai hynny ynddo ei hun un o reidrwydd yn cynyddu cyflogaeth mewn ardaloedd ble mae hynny eisoes wedi bod yn anodd i'w gyflawni. Felly rhagfynegir effaith niwtral aryr Amcan SA yma.<br><br>SDO2 - O dan yr SDO yma mae twf yn fwy tebygol o ddigwydd yn yr ardaloedd mwyaf trefol y gellir eu marchnata. Fodd bynnag, mae'r opsiwn yma yn dyrannu twf mewn rhai ardaloedd cyfyngedig ac nid yw'n glir a ellir goresgyn hynny, ac nid yw'n delio ag anghenion cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Felly at ei gilydd rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO3, SDO4 ac SDO5 - Mae'r opsiynau yma wedi alinio'n agos â strategaeth Economaidd Conwy a'r NWGD, gan ganolbwyntio twf ar goridor yr A55. Er bod y diffyg ffocws ar ardaloedd gwledig a ble mae'r galw isel yn broblemus o bosibl, at ei gilydd byddai'r SDOau yma yn achosi effeithiau cadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Byddai'r opsiwn yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth. Er y byddai aneddiad o'r fath yn darparu darpariaeth cyflogaeth newydd sylweddol ac y gallai gefnogi gwelliannau addysgol mewn un man penodol, ni fyddai'r buddion twf yma yn cael eu gwireddu mewn rhannau eraill o ardal CBSC, yn cynnwys mewn cymunedau difreintiedig. Mewn perthynas â'r Amcan SA yma, rhagfynegir effaith niwtral. |
| 4. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd drwy wella | ? | + | | + | + | ? | SDO1– Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma. Byddai twf yn cael ei gyfeirio'n gyffredinol i'r lleoliadau trefol mwyaf hygyrch a mwyaf |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, tra'n sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel. | | | | | | | cysylltiedig, ond mae hynny yn annhebygol o gynnig sgôp i oresgyn pwysau seilwaith yn strategol mewn ardaloedd sydd a dwyseddau poblogaeth is. Ar hyn y bryd, rhagfynegir effaith ansicr oherwydd byddai unrhyw ymdrechion yn dibynnu ar sut fydd yr SDO yma yn cael ei weithredu ar draws ardal CBSC.<br><br>SDO2 - Byddai'r SDO yma yn golygu y byddai twf yn cael ei gyfeirio'n gyffredinol i'r lleoliadau mwyaf hygyrch a mwyaf cysylltiedig, ond mae yna risg y byddai'r SDO yn tanseilio sgôp y strategaeth yma er mwyn goresgyn pwysau seilwaith yn strategol o gwmpas ardal y cynllun. Felly at ei gilydd rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO3, SDO4 ac SDO5 - Yn unol â Chynllun Gofodol Cymru, byddai'r SDOau yma yn golygu y byddai twf yn cael ei ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf hygyrch ar hyd yr A55 ac mae'n cynnwys Llanrwst fel lleoliad strategol. Yn dibynnu ar roi'r SDOau ar waith, gallai eu ffocws cul arwain at gyfyngiadau trafnidiaeth ychwanegol yn y coridor allweddol yma. Felly at ei gilydd rhagfynegir effaith niwtral ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Mae effeithiau'r SDO yma ar yr Amcan SA yma yn ansicr oherwydd byddent yn ddibynnol ar y lleoliad fyddai'n cael ei ddewis er mwyn datblygu anheddiad newydd mewn perthynas â seilwaith trafnidiaeth presennol. Fodd bynnag, gallai'r SDO ychwanegu pwysau sylweddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth mewn un lleoliad, a bydda hynny yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol er mwyn goresgyn problemau posibl o ran tagfeydd. |
| 5. Tai: Darparu digon o niferoedd ac amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn bodloni anghenion a nodwyd. | - | - | + | + | + | -? | SDO1– Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma. Byddai twf yn cael ei gyfeirio'n gyffredinol i'r lleoliadau mwyaf hygyrch, ond mae'r dull 'taenu'n denau' hefyd yn golygu y byddai rhai lleoliadau anghynaladwy yn derbyn dyraniadau tai a bydd y farchnad yn caei ei chyfeirio i lefydd sydd yn wynebu cyfyngiadau heb strategaeth glir ar gyfer goresgyn hynny. Felly mae'r SDO yn annhebygol o arwain at effaith negyddol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO2 - Byddai'r SDO yma yn amcanu at daenu twf ar draws yr aneddiadau mwyaf trefol, waeth befo ble mae'r dystiolaeth y awgrymu fod y galw wedi ei leoli. Ni fyddai'r SDO ei hun yn cefnogi datblygu mewn lleoliadau penodol er mwyn creu y mas critigol sydd ei angen i gyfiawnhau buddsoddi arwyddocaol er mwyn mynd i'r afael â chyfyngiadau presennol. Gallai'r risgiau danseilio darparu tai, ac arwain at effaith negyddol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO3, Sdo4 ac SDO5 - Byddai'r SDOau yma yn golygu cyfeirio twf i'r lleoliadau ble mae'r galw mwyaf am dai tra'n osgoi rhai o'r lleoliadau mwyaf cyfyngedig ble mae'r galw yn isel yn nwyrain ardal CBSC. Yn unol â'r SA yma, byddai'r SDOau felly yn uniongyrchol yn cefnogi |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | darparu tai newydd er mwyn bodloni anghenion a arenwyd, er na fyddai o reidrwydd yn cefnogi adfywio mannau difreintiedig.<br><br>SDO6 - Tybir y byddai'r lleoliadau a ddewisir ar gyfer anheddiad newydd mewn ardal ble mae'r galw'n fawr ac mewn lleoliad y gellir darparu hynny. Fodd bynnag, mae hynny'n dal yn ddull o fodloni anghenion tai sydd yn achosi risg.<br><br>SDO6 - Mae effeithiau'r SDO yma ar yr Amcan SA yma yn ansicr oherwydd byddent yn ddibynnol ar y lleoliad fyddai'n cael ei ddewis er mwyn datblygu anheddiad newydd mewn perthynas â'r galw am dai. Fodd bynnag, byddai'r ymagwedd yma yn methu â mynd i'r afael ag anghenion tai a arenwyd mewn rhannau eraill o ardal CBSC, a byddai'n arwain at effaith negyddol bosibl. |
| 6. Twf Economaidd: darparu twf economaidd cynaliadwy a gwneud y mwyaf o gyfraniad economaidd ardal CBSC i ranbarth Gogledd Cymru, yn cynnwys drwy arallgyfeirio ac atgyfnerthu'r sylfaen economaidd leol. | - | -? | +? | +? | +? | | SDO1– Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r SAO yma. Byddai twf yn cael ei gyfeirio'n gyffredinol i'r lleoliadau mwyaf hygyrch, ond mae'r dull 'taenu'n denau' hefyd yn golygu y byddai rhai lleoliadau anghynaladwy yn derbyn dyraniadau cyflogaeth a bydd y farchnad yn caei ei chyfeirio i lefydd sydd yn wynebu cyfyngiadau heb strategaeth glir ar gyfer goresgyn hynny. Felly rhagfynegir effaith negyddol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO2 - Byddai'r SDO yma yn cyfeirio twf i ardaloedd trefol sydd â chyfleoedd cyflogaeth eisoes, ac ni fydd yn mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Gallai hynny fethu â gwneud y mwyaf o gyfraniad economaidd ardal CBSC i Ogledd Cymru, a gallai felly arwain at effaith negyddol ar yr Amcan SA yma, er bod hynny yn ansicr oherwydd byddai unrhyw effeithiau yn ddibynnol ar sut fydd yr SDO yn cael ei roi ar waith.<br><br>SDO3, SDO4 ac SDO5 - Mae'r SDOau yma wedi eu halinio'n agos â Strategaeth Economaidd Conwy a Bargen Twf Gogledd Cymru (NWGD). Yn ddibynnol ar ffactorau gweithredu, mae yna broblem bosibl mewn perthynas â diffyg ffocws ar ardaloedd gwledig ac ardaloedd o alw isel, ac mae hynny yn creu ansicrwydd.<br><br>SDO6 - Mae effeithiau'r SDO yma ar yr Amcan SA yma yn ansicr oherwydd byddent yn ddibynnol ar y lleoliad fyddai'n cael ei ddewis er mwyn datblygu anheddiad newydd mewn perthynas â lleoliadau cyflogaeth ffafrir. Fodd bynnag, byddai'r ymagwedd yma yn methu â mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth a arenwyd mewn rhannau eraill o ardal CBSC, a byddai'n arwain at effaith negyddol bosibl. |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau llygryddion atmosfferig niweidiol a lleihau cysylltiad ag aer o ansawdd gwael. | ? | ? | +? | +? | +? | ? | SDO1 - Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma, a rhagfynegir effeithiau ansicr oherwydd byddai unrhyw effeithiau yn dibynnu ar sut fyddai'r SDO yma yn cael ei roi ar waith. Byddai twf yn gyffredinol yn cael ei gyfeirio i'r lleoliadau mwyaf hygyrch, a gallai hynny helpu i wella ansawdd aer, ond mae'r dull 'taenu'n denau' hefyd yn golygu y gallai fod yn anodd gweithredu ymyriadau strategol er mwyn goresgyn materion ansawdd aer, a gallai rhai llefydd weld gorddatblygu a thagfeydd cysylltiedig, a deilliannau o ran ansawdd aer gael.<br><br>SDO2 ac SDO3 - Ni fyddai cyfeirio twf i ardaloedd trefol o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma, ac mae'r effeithiau ar yr Amcan SA yma yn ansicr ar hyn o bryd oherwydd byddent yn dibynnu ar sut y'u gweithredir. O dan SDO2 byddai twf yn gyffredinol yn cael ei gyfeirio i'r lleoliadau mwyaf hygyrch, ond mae hwnnw yn ddull eithaf pŵl a byddai'n golygu y gallai ymyriadau strategol er mwyn goresgyn materion ansawdd aer fod yn anodd, a gallai rhai llefydd weld gorddatblygu a thagfeydd cysylltiedig, a deilliannau o ran ansawdd aer gael. Mae SDO3 yn fwy tebygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar yr Amcan SA yma oherwydd byddai canolbwyntio yr holl dwf mewn ardaloedd trefol penodol yn debygol o hwyluso symud at ddulliau cynaliadwy a deilliannau ansawdd aer cadarnhaol cysylltiedig.<br><br>SDO4 and SDO5 - Mae cyfeirio twf i'r ardaloedd trefol mwyaf hygyrch yn gadarnhaol o ran annog newid dulliau cynaliadwy sydd yn debygol o arwain at well deilliannau ansawdd aer.. Mae'r SDOau yma yn cynnwys peth hyblygrwydd er mwyn caniatáu i gynlluniau ddelio â mwy o dagfeydd ar hyd coridor yr A55 heb daenu twf i leoliadau eraill anghynaladwy. Er gwaethaf ansicrwydd mewn perthynas â'u gweithredu, rhagfynegir effeithiau cadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Byddai'r SDO yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth. Rhagfynegir effeithiau ansicr ar hyn o bryd, oherwydd er y gallai'r SDO leihau pwysau datblygu ac effeithiau ansawdd aer cysylltiedig mewn mannau eraill a gallai hwyluso newid moddol cynaliadwy yn yr anheddiad newydd, gallai hynny fyd yn ddibynnol ar ei weithredu. |
| 8. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu camau lliniaru ac addasu priodol er mwyn lleihau ac ymateb i effeithiau newid. | ? | ? | + | + | +? | ? | SDO1 - Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma, a rhagfynegir effeithiau ansicr oherwydd byddai unrhyw effeithiau yn dibynnu ar sut fyddai'r SDO yma yn cael ei roi ar waith. Gellid cyfeirio twf yn gyffredinol i'r lleoliadau mwyaf hygyrch, ond mae'r dull 'taenu'n denau' yn golygu y gallai datblygu gael ei gyfeirio i lefyd sydd yn wynebu'r risg mwyaf, neu sydd yn llai cydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd.<br><br>SDO2 - Byddai cyfeirio twf i'r ardaloedd mwyaf trefol yn debygol o fod yn gydnaws gyda dull sydd y amcanu at liniaru newid yn yr Hinsawdd. Fodd bynnag, mae yna risg y byddai datblygu |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | yn cal ei gyfeirio i ardaloedd trefol penodol ar hyd yr arfordir sydd yn wynebu'r risg mwyaf o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Felly rhagfynegir effeithiau ansicr ar hyn o bryd.<br><br>SDO3 a SDO4 - Byddai'r SDOau yma yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd drwy gyfeirio twf i'r lleoedd mwyaf cynaliadwy yn unig ac aneddiadau presennol. Byddai'r SDOau hefyd yn canolbwyntio datblygu oddi wrth ardaloedd risg llifogydd. Felly rhagfynegir effeithiau cadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO5 - Byddai cyfeirio twf i'r lleoliadau mwyaf hygyrch yn cefnogi newidiadau moddol cynaliadwy anuniongyrchol a defnyddio llai o ynni, tra'n anuniongyrchol yn gwella cydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, gallai'r SDO olygu y byddai twf yn cael ei gyfeirio i leoedd sydd yn wynebu'r risg mwyaf o newid yn yr hinsawdd. Felly, at ei gilydd rhagfynegir effaith gadarnhaol ond ansicr ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Byddai'r SDO yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth. Ar hyn o bryd rhagfynegir effeithiau ansicr, oherwydd byddai effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu yn ddibynnol ar nodweddion lleoliadol a dylunio'r anheddiad newydd, ac i ba raddau mae wedi ei integreiddio ag aneddiadau presennol. |
| 9. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, yn cynnwys drwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig. | ? | + | +? | + | + | -? | SDO1– Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma. Os, yn ôl y disgwyl, nad yw'r SDO yn llwyddo i ddarparu taeniad o dwf ar draws ardal y cynllun yn ei gyfanrwydd, ond ein fod yn cael ei wasgaru ar draws gwahanol aneddiadau, mae yna risg y gallai pwysau datblygu effeithio'n anghymesur ar leoliadau penodol sydd a sensitifrwydd ecolegol. Ar hyn o bryd, rhagfynegir effaith ansicr.<br><br>SDO2 a SDO3 - Byddai'n debygol y byddai cyfeirio twf i'r ardaloedd mwyaf trefol yn gydnaws â'r Amcan SA yma oherwydd byddai'n lleihau'r angen am ddatblygu tir gwyrdd ac felly byddai'n helpu i warchod bioamrywiaeth a buddiannau pridd a geoamrywiaeth. Mae yna elfen o ansicrwydd mewn perthynas ag effeithiau SDO3 oherwydd byddai hynny yn canolbwyntio twf yn gyfyng, ac felly gallai greu risg o orddatblygu mewn lleoliadau penodol, gydag effeithiau canlyniadol ar fuddiannau bioamrywiaeth.<br><br>SDO4 - Byddai'r SDO yma yn golygu y byddai twf yn cael ei ganolbwyntio ar goridor yr A55 yn gyffredinol yn yr ardaloedd lleiaf cyfyngedig. Mae yna sgôp i ddyrannu tir mewn aneddiadau cynaliadwy ar gyrion y coridor yma. Mae gan yr SDO ddigon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â phwysau datblygu ar adnoddau bioamrywiaeth, pridd a geoamrywiaeth fyddai'n debygol o ddigwydd. Felly, rhagfynegir effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma. |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | SDO5 - Byddai'r SDO yn canolbwyntio twf mewn canolbwyntiau a choridorau yn cynnwys coridor yr A55 fel y cyfeirir at hynny yn SDO2. Byddai cyfeirio twf i aneddiadau presennol a lleoliadau hygyrch eraill yn helpi i leihau'r angen am ddatblygu tir llwyd ac felly'n helpu i warchod bioamrywiaeth a buddiannau pridd a geoamrywiaeth. Felly, rhagfynegir effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Byddai'r SDO yma yn arwain at ddatblygu un anheddiad sengl, ac mae hynny yn achosi risgiau annatod i adnodau bioamrywiaeth, prudd a geoamrywiaeth y gellid eu colli am byth o ganlyniad i ddefnyddio tir neu aflonyddu ar dir o ganlyniad i weithgareddau adeiladu a gweithredol. Fodd bynnag, mae effeithiau'r SDO yma yn dibynnu'n fawr ar ei weithredu ac felly mae'n ansicr ar hyn o bryd, oherwydd gellid defnyddio prosesau lleoli a dylunio er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol. |
| 10. Dŵr a Risg Llifogydd: Gwarchod, diogelu a gwella dŵr am amgylcheddau arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, tra'n lleihau risg llifogydd. | -? | ? | ? | +? | ? | -? | SDO1 - Ni fyddai taenu twf yn denau ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma, oherwydd gallai hynny arwain at beth twf yn cael ei gyfeirio i ardaloedd sydd yn wynebu risg llifogydd. Fodd bynnag, mae effeithiau'r SDO yma yn dibynnu'n fawr ar ei weithredu ac felly maent yn ansicr ar hyn o bryd.<br><br>SDO2 ac SDO3 - Ni fyddai cyfeirio twf i'r aneddiadau mwyaf trefol yn unig o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma, oherwydd gallai ddwysau risgiau llifogydd trefol presennol. Byddai effeithiau'r SDOau yma ar yr Amcan SA yma yn dibynnu ar nodweddion risg llifogydd pob anheddiad sef cynnal twf ac maent yn ansicr ar hyn o bryd.<br><br>SDO4 - Byddai'r SDO yma yn canolbwyntio twf yn yr ardaloedd mwyaf priodol ar gyfer cyflenwi, ac felly mae'n debygol o osgoi ardaloedd risg uchel o lifogydd. Felly, rhagfynegir effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma, er y bydd yna ansicrwydd mewn perthynas â gweithredu'r SDO.<br><br>SDO5 - Mae'r SDO yma yn fras yn canolbwyntio twf yn yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy ble mae seilwaith dŵr digonol yn ei le er mwyn cynnal cynnydd mewn galw. Fodd bynnag, mae'r effeithiau ar risg llifogydd yn ansicr a byddai'n dibynnu ar weithredu'r SDO.<br><br>SDO6 - Byddai'r SDO yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth. Er ei bod yn debygol y byddai'r broses adeiladu yn arwain at effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd dŵr, byddai'r lleoliad a ddewiswyd ar gyfer yr anheddiad yn pennu lefel y risg llifogydd a'r gallu i ddefnyddio seilwaith dŵr presennol. Oherwydd hynny, gallai'r effeithiau ar yr Amcan SA yma fod yn negyddol ond byddent yn dibynnu'n fawr ar ffactorau gweithredu sydd ar hyn o bryd yn ansicr. |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11. Deunyddiau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gydag effeithiau amgylcheddol bychan a sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn cynnwys cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu. | | | | | | - | Ac eithrio SDO5, mae'r SDOau a aseswyd yn debygol o arwain at effeithiau Niwtral ar yr Amcan SA yma ar hyn o bryd, oherwydd byddai unrhyw effeithiau yn dibynnu ar ffactorau gweithredu yn hytrach na lefel y twf fel y cyfryw.<br><br>SDO6 - Mae'r adnoddau ynni a naturiol sydd eu hangen ar gyfer adeiladu anheddiad newydd yn golygu bod yr SDO yma yn debygol o fod yn anghydnaws â'r Amcan SA yma. |
| 12. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith a gwella ansawdd dyluniad er mwyn creu lleoedd gwych i bobl. | ? | | + | + | +? | ? | SDO1 - Ni fyddai gwasgaru twf ar draws aneddiadau o reidrwydd yn cefnogi'r Amcan SA yma, nac yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir. Er y byddai'r SDO yn cyfeirio twf i lefydd sydd â seilwaith yn barod, mae'r dull 'taenu'n denau' yn lleihau'r gallu i ddefnyddio mas critigol datblygu er mwyn creu lleoedd cynaliadwy drwy ymyriadau strategol. Felly, rhagfynegir effaith ansicr oherwydd byddai unrhyw ymdrechion yn dibynnu ar sut fydd yr SDO yma yn cael ei weithredu.<br><br>SDO2, SDO3 ac SDO4 - Byddai'r SDOau yma yn golygu y byddai twf yn cael ei gyfeirio i'r lleoliadau trefol mwyaf hygyrch ac aneddiadau presennol, a byddai hynny yn helpu i wneud defnydd mwyaf effeithlon o dir a chefnogi creu lleoedd da. Felly, rhagfynegir effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO5 - Mae'r SDO yn canolbwyntio twf yn gyffredinol ar yr aneddiadau mwyaf cynaliadwy, er y gellid cyfeirio peth twf i ardaloedd ble byddai cyflawni yn llai priodol..<br><br>Mae cyfeirio twf ar sail cysylltedd yn cefnogi hynny. Mae yna risg o hyd i ddatblygu gael ei ddyrannu i ardaloedd mwy ymylol. Mae hynny yn lleihau'r sgôp ar gyfer ymyriadau strategol fyddai'n cefnogi'r amcan yma. Felly, rhagfynegir effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma, er bod yna beth ansicrwydd mewn perthynas â chyflenwedd datblygiadau ansawdd uchel yn yr holl leoliadau bwriedig.<br><br>SDO6 - Byddai'r SDO yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth. Byddai hynny yn methu â gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith mewn  aneddiadau presennol, ond gallai arwain at gyflawni ansawdd dylunio uchel yn gyson drwy fabwysiadu dull uwch gynllun cyflawn o ddatblygu. At ei gilydd, rhagfynegir effeithiau niwtral ond ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd byddai unrhyw effeithiau yn dibynnu ar ffactorau gweithredu. |
| 13. Treftadaeth Ddiwylliannol: Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, yn cynnwys y defnydd o'r Iaith Gymraeg. | ? | ? | -? | ? | ? | -? | Byddai'r holl SDOau a aseswyd yn achosi effeithiau ansicr ar yr Amcan SA yma, oherwydd byddai effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol yn dibynnu ar nodweddion datblygiadau ac ar bolisïau treftadaeth ddiwylliannol yn y RLDP arfaethedig yn hytrach na dosbarthiad y twf fel y cyfryw. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dosbarthiad uwch o dwf mewn ardaloedd trefol yn |

| Amcan SA | SD O1 | SD O2 | SD O3 | SD O4 | SD O5 | SD O6 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | debygol o gynyddu pwysau datblygu yn agos at asedau treftadaeth, sydd yn golygu yr ystyrir y byddai SDO 3 ac SDO6 yn fy tebygol o arwain at effeithiau negyddol ar yr Amcan SA yma. |
| 14. Tirlun: Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol ac eglurder aneddiadau yn ardal CBSC, gan ystyried rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol | + | + | + | + | + | -? | SDO1 - Byddai taenu twf ar draws aneddiadau yn helpu i warchod tirluniau rhag datblygiadau, a byddai hynny yn arwain at effeithiau cadarnhaol r yr Amcan SA yma.<br><br>SDO2, SDO3 SDO4 ac SDO5 - Byddai'r SDOau yma yn golygu y byddai twf yn cael ei gyfeirio i'r lleoliadau trefol mwyaf hygyrch a chynaliadwy ac aneddiadau presennol, a byddai hynny yn helpu i warchod cymeriad tirlun, ond gallent effeithio'n negyddol ar amwynder gweledol trefol. Felly at ei gilydd rhagfynegir effaith gadarnhaol ar yr Amcan SA yma.<br><br>SDO6 - Byddai'r SDO yma yn arwain at ddatblygu anheddiad unigol newydd er mwyn cynnal twf aelwydydd a chyflogaeth, sydd yn debygol o arwain at yr effaith fwyaf ar dirlun o'r holl SDOau. Mae ffactorau gweithredu yn cynnwys lleoli a dylunio anheddiad newydd yn golygu bod yna elfen o ansicrwydd, ond yn gyffredinol rhagfynegir effaith negyddol ar yr Amcan SA yma. |